

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Adroddiad Blynyddol

2020 - 2021



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Amdanom Ni

Ein nod yw gofalu am bobl a chadw pobl yn iach. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn amlinellu gwaith BIP Caerdydd a'r Fro (BIPCF) (y Bwrdd Iechyd), yn amlygu rhai o'n llwyddiannau allweddol ac yn dangos sut yr ydym yn gwrando ar farn ac anghenion ein poblogaeth, gan weithredu llawer o'r rhain fel rhan o'n strategaeth 10-mllynedd uchelgeisiol: "Llunio ein Strategaeth Lles at y Dyfodol". Mae ein blaenoriaethau, ein hamcanion a'n cynlluniau allweddol yn cael eu gosod allan yn ein cynlluniau chwarterol, ac y mae'r adroddiadau a gyflwynir i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn rhoi trosolwg o'r hyn yr ydym yn wneud yn dda a sut yr ydym yn gwrando ar ein cyhoedd, ein cleifion a'n staff er mwyn cyflawni'r strategaeth.

Beth sydd yn yr Adroddiad Blynyddol hwn?

Mae'n Hadroddiad Blynyddol yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n sôn wrthyhych am ein sefydliad, y gofal a roddwn a beth ydym yn wneud i gynllunio, cyflwyno a gwella gofal iechyd i chi er mwyn cwrdd â galwadau sy'n newid a heriau'r dyfodol. Mae'n rhoi gwybodaeth am ein perfformiad, beth y gwnaethom lwyddo i'w wneud yn 2020-2021 a sut y byddwn yn gwella y flwyddyn nesaf. Mae hefyd yn esbonio mor bwysig yw gweithio gyda chi a gwrando arnoch i'ch helpu chi i ofalu amdanoch eich hun yn y ffordd orau ac i roi gwella gwasanaethau i chi sy'n ateb eich anghenion ac sy'n cael eu darparu mor agos atoch ag sydd modd.

Ym mis Mawrth 2020, oherwydd pandemig COVID-19 ataliwyd proses y Cynllun Tymor

Canol Integredig (CTCI) a chyflwynwyd Fframweithiau Chwarterol i GIG Cymru. Roedd gofyn i sefydliadau gynhyrchu cynlluniau chwarterol oedd yn ymdrin â'r blaenoriaethau yn y fframweithiau hyn. Cafodd ein blaenoriaethau eu llunio gan CTCI 2019-2022 sydd yn gosod allan ein hamcanion a'n cynlluniau. [Cardiff & Vale Integrated Medium Term Plan - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro \(gig.cymru\)](#)

Mae ein Hadroddiad Blynyddol am 2020-2021 yn cynnwys:

- Ein **Hadroddiad Perfformiad** sydd yn rhoi manylion am y ffordd yr ydym wedi perfformio yn erbyn ein targedau, a'r camau sydd ar y gweill i gynnal neu wella ein perfformiad.
- Ein **Hadroddiad Atebolrwydd** sydd yn rhoi manylion am ein gofynion atebolrwydd allweddol dan Ddeddf Cwmnïau 2006 a Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008; gan gynnwys ein Datganiad Llywodraethiant Blynyddol (DLIB) sy'n rhoi gwybodaeth am sut yr ydym yn cadw rheolaeth dros ein hadnoddau a'n risgiau, ac yn cydymffurfio â threfniadau llywodraethiant.
- Crynodeb o'n **Datganiadau Ariannol** sydd yn rhoi manylion am sut yr ydym wedi gwario ein harian ac ateb ein hymrwymadau dan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014.

Dylid darllen yr Adroddiad Blynyddol ar y cyd a dogfennau eraill sy'n ei gefnogi, y gallwch fynd atynt trwy'r dolenni gwe yn y ddogfen hon.



Hygyrchedd

Os hoffech gael copïau ychwanegol o'r ddogfen hon, mae modd lawrlwytho'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'n gwefan. Neu os ydych angen y ddogfen mewn fformat gwahanol, gallwn roi crynodeb o'r ddogfen mewn gwahanol ieithoedd, print bras neu Braille. Cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

Adran Llywodraethiant Corfforaethol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro,
Pencadlys Corfforaethol,
Woodland House,
Heol Maes-y-Coed
Y Rhath
Caerdydd
CF14 4HH

Ebost: governanceadvice.cav@wales.nhs.uk

Gwefan: www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/

Mae fersiwn PDF lawn ar gael ar ein gwefan.

Cysylltwch â Ni

Ebost: news@wales.nhs.uk

Gwefan: <http://www.cavuhb.nhs.wales/>

Twitter: [@CAV_BIP](https://twitter.com/CAV_BIP)

Facebook: [www.facebook.com/](https://www.facebook.com/cardiffandvaleuhb)
[cardiffandvaleuhb](https://www.facebook.com/cardiffandvaleuhb)



Cynnwys

1. Croeso gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr	8
2. Proffil BIP Caerdydd a'r Fro	13
2.1 Amdanom Ni	13
2.2 Ein Cenhadaeth a'n Gweledigaeth	14
2.3 Ein Bwrdd	14
2.4 Ein Strwythur	16
2.5 Y Boblogaeth Rydym yn ei Gwasanaethu	17
2.6 Egwyddorion Rhwymedi	20
2.7 Ein Strategaeth	21
2.8 Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI)	21
2.9 Ymchwil, Datblygu, Arloesedd a Phartneriaethau	22
Rhan 1 – Adroddiad Perfformiad	23
3. Trosolwg o Berfformiad	24
3.1 Ein Perfformiad - Effaith COVID-19 ar Gyflwyno Gwasanaethau	24
3.2 Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau diogel, effeithiol a safonol am ofal COVID-19 a heb fod yn COVID-19	26
3.3 Ail-ddylunio gwasanaethau gofal sylfaenol i gyflwyno gofal brys yn ystod cyfnod aciwt COVID-19	26
3.4 Dylunio a gweithredu profi am COVID-19 ac imiwneiddio rhagddo	26
3.5 Ail-ddylunio gwasanaethau aciwt i roi gofal COVID-19	30
3.6 Cynllunio a chyflwyno diogel, effeithiol a safonol am ofal heb fod yn COVID-19 Cyflwyno camau rheoli heintiad i roi gofal COVID-19 a heb fod yn COVID-19	32
3.7 Cyflwyno gwasanaethau hanfodol	32
4. Unioni Pethau (UP)	35
5. Cyflwyno mewn Partneriaeth	37
6. Rheolaeth a Lles y Gweithlu	37
6.1 Nodi a hyfforddi staff i ymgymryd â swyddogaethau newydd	38
6.2 Marwolaethau staff oherwydd COVID-19	42



6.3 Fforwm Partneriaeth Lleol a Grwpiau Eraill i Ymwneud â Gweithwyr	42
6.4 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol	45
6.5 Rheoliadau'r Iaith Gymraeg – Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg 2018	47
6.6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (DLICD) 2015	47
7. Gwneud Penderfyniadau a Llywodraethiant	50
8. Adroddiad Cynaliadwyedd	52
Rhan 2a – Adroddiad Atebolrwydd	53
9. Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol	54
9.1 Adroddiad y Cyfarwyddwr	54
10. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol	56
11. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Parthed y Cyfrifon	57
12. Datganiad Llywodraethiant Blynyddol	58
12.1 Cwmpas Cyfrifoldeb	59
12.2 Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd	60
12.3 Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (CTCI)	60
12.4 Rheolau Sefydlog a Chynllun Cadw'n Ôl a Dirprwyo	61
12.5 Y Bwrdd a'i Bwyllgorau	62
12.6 Llywodraethiant Effeithiol yn ystod Pandemig COVID-19	63
12.7 Cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn ystod COVID-19	66
12.8 Cyfansoddiad y Bwrdd	67
12.9 Pwyllgorau	68
12.10 Grwpiau Ymgynghorol a Chydbwyllgorau	71
12.11 Partneriaethau a Gwasanaethau Cymru Gyfan	73
12.12 Penodiadau Cyhoeddus	73
12.13 Datgan Diddordeb Cyhoeddus	74
12.14 Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd a Phwyllgorau 2020-2021	74
12.15 Pwrpas y System Reoli Fewnol	80
12.16 Y gallu i drin risg	80



12.17 Rheoli Risg	84
12.18 Rheoli Risg yn ystod COVID-19	86
13. Datgeliadau Gorfodol	86
13.1 Safonau Iechyd a Gofal	86
13.2 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol	87
13.3 Rheoliadau'r Iaith Gymraeg - Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 7) 2018	91
13.4 Parodrwydd am Argyfyngau	94
13.5 Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol	94
13.6 Cynlluniau Cyflwyno Lleihau Carbon	95
13.7 Trefniadau Llywodraethiant Ansawdd	96
13.8 Cyfarwyddiadau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru (CIC)	97
13.9 Adroddiadau Rheoleiddio ac Archwilio	99
13.10 Diogelwch Data a Llywodraethiant Gwybodaeth	100
13.11 Cod Llywodraethiant Corfforaethol y DU	102
13.12 Cynllun Pensiwn y GIG	103
13.13 Adolygu Effeithiolrwydd	103
13.14 Effeithiolrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau	104
13.15 Arolwg Effeithiolrwydd Pwyllgorau	105
13.16 Uwchgyfeirio ac Ymyrryd	106
14. Archwilio Mewnol	106
14.1 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol	106
14.2 Sicrwydd Cyfyngedig	108
15. Archwilio Allanol – Archwilio Cymru	108
15.1 Yr Adroddiad Archwilio Blynyddol am 2020	108
15.2 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Asesiad Strwythuredig 2020	110
16. Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 – Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi	110
17. Casgliad	111



Rhan 2b – Adroddiad Tâl a Staff	113
18. Adroddiad Tâl a Staff	114
18.1 Niferoedd Staff	114
18.2 Cyfansoddiad y Staff	114
18.3 Data Absenoldeb Salwch	116
18.4 Polisiâu Staff	117
18.5 Hawl Uwch-reolwyr i Gyflogau a Phensiynau 2020-21	121
18.6 Gwariant ar Ymgynghorwyr	125
18.7 Sicrwydd Treth i'r Sawl a Benodwyd heb fod ar y Gyflogres	125
19. Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio	127
19.1 Cysondeb Gwariant	127
19.2 Ffioedd a Thaliadau	134
19.3 Rheoli Arian Cyhoeddus	134
19.4 Rhwymedigaethau Amodol Perthnasol Pell	134
19.5 Tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd	134
19.6 Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd	139
Atodiadau	141
Atodiad 1 – Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod 2020-2021	141



1. Croeso gan ein Cadeirydd a Phrif Weithredwr

Mae'n bleser gennym gyflwyno i chi ein Hadroddiad Blynyddol am 2020 -2021.

Eleni oedd un o'r blynyddoedd mwyaf heriol a brofodd y GIG erioed, ac nid ydym wedi wynebu'r fath argyfwng iechyd cyhoeddus ers pandemig fflw Sbaen ym 1918. Ers iddo ymddangos yn sydyn ym mis Ionawr 2020, mae COVID-19 wedi bod yn her sylweddol i'r modd y gallwn gyflwyno gwasanaethau i'n cleifion a'u cadw hwy a'n staff yn ddiogel ar yr un pryd.

Rhodes COVID-19 straen enbyd ar ein darpariaeth gwasanaeth iechyd, gan roi prawf ar ein gallu i addasu, gwneud penderfyniadau sydyn a dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio er mwyn gwarchod cleifion ym mhoblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg.

Rydym wedi esblygu, wedi dod ynghyd, a hoffem fynegi diolch o waelod calon mewn llawn edmygedd o'n staff a gwirfoddolwyr sydd wedi ei galluogi i roi ymateb digynsail, wedi ymdopi â phwysau eithriadol ac wedi arddangos gwaith tîm, gwytnwch a gweithio ochr yn ochr mewn undod. Cawsom ein hysbrydoli gan ymrwymiad personol y gweithlu i wneud gwahaniaeth yn ystod yr amseroedd heriol hyn, ac y mae'r enghreifftiau o ddarganfod ffyrdd o fod yn hyblyg, o wneud pethau'n wahanol ac i wella'n barhaus yn destun balchder o'r mwyaf.

Mae'n bwysig hefyd talu teyrnged i'r modd y mae gwasanaethau cenedlaethol a lleol wedi cydweithio i'n cynnal wrth ymateb i heriau COVID-19, gan gynnwys staff gofal cymdeithasol, iechyd cyhoeddus, Awdurdodau

Lleol, y sector wirfoddol a chymunedol, myfyrwyr a'r Prifysgolion. Gwelsom bawb yn dod ynghyd i gyflawni'r dasg a llwyddo'n rhyfeddol trwy arwain ar y cyd.

Cychwynnwyd y flwyddyn yng nghanol pandemig a dyma ni yn awr yn dod allan yr ochr arall trwy gyflwyno'r rhaglen Brechu Torfol fwyaf a welodd y GIG erioed. Yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, adeg ysgrifennu hyn, rydym wedi cyflwyno dros 400,000 dos o'r brechlyn mewn ychydig mwy na 4 mis, sy'n golygu bod 71% o'r oedolion yn ein poblogaeth wedi derbyn eu dos cyntaf, a 27% wedi derbyn y ddwy ddos.

Mae hyn yn dyst i waith caled ac ymrwymiad ein staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid wrth gynnal ei gilydd i amddiffyn ein poblogaeth a rhoi gobaith i ni at y dyfodol.

Mae llawer o'n staff hefyd dros y flwyddyn a aeth heibio wedi eu cyfeirio at feysydd eraill i helpu gyda'r ymateb i COVID-19 a thrwy hynny wedi dangos ymroddiad mawr i ofalu am ein cleifion a'u cadw'n iach, yn ogystal â dysgu sgiliau newydd, wynebu heriau newydd a helpu timau eraill fel bod modd i ni oll frwydro'r feirws.

Rhan allweddol o'r gwaith a wnawn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw cyflwyno arloesedd i wella deilliannau o bwys i gleifion, a gwneud gwahaniaeth. Cafwyd cymaint o enghreifftiau o hyn, ond ymysg y rhai amlycaf mae:

- Dylunio a chyflwyno trawsnewid Stadiwm y Principality i fod yr ysbyty maes ail fwyaf yn y DU - **Ysbyty Calon y Ddraig** - mewn cyn lleied â phum wythnos. Datblygwyd yr ysbyty 2,000 gwely i gwrdd â'r galw disgwylidiedig am ofal cleifion COVID-19. Bu'r staff a'r



gwelyau ychwanegol yn allweddol o ran gallu derbyn pobl oedd yn gwella, ac yn ddigon da i adael ysbytai aciwt, gan ryddhau lle yr oedd mawr ei angen mewn ysbytai aciwt a chymunedol. Y cyhoedd a ddewisodd enw'r ysbyty, ac fe wnaeth yn wir danio emosiynau yng nghyswllt yr hyn yr oedd yr ysbyty yno i wneud.

- **Ymgynghoriadau Fideo** - yn ystod pandemig COVID-19, roedd angen i'r Bwrdd lechyd adolygu sut y byddai gwasanaethau yn cael eu cyflwyno i gleifion yn nes at adref wrth i gyfyngiadau gael eu gosod i gadw pobl yn ddiogel. Cynyddodd y Bwrdd lechyd y defnydd o ymgynghoriadau fideo i gleifion, gyda thros 15,000 o ymgynghoriadau yn digwydd trwy'r llwyfan Attend Anywhere. Yr ydym yn amcangyfrif bod hyn wedi atal dros 150,000 o deithio i ysbytai i'n cleifion. Mae'n golygu osgoi tua 41 tunnell o allyriadau CO2 mewn ysbytai lleol ac o'u cwrpas. Bydd yr Ymgynghoriadau Rhithiol yn parhau wrth i ni symud allan o COVID-19 er mwyn i ni roi gwasanaeth hyblyg i'n cleifion yn dibynnu ar eu hanghenion.
- **System 'Ffonio'n Gyntaf': CAV 24/7**
Ni oedd y Bwrdd lechyd cyntaf yng Nghymru i gyflwyno system brysennu 'Ffonio'n Gyntaf' i'r Uned Frys (UF), Uned Mân Anafiadau a Gwasanaeth Tu Allan i Oriau (TAO). Datblygwyd CAV24/7 gan weithwyr clinigol o'n gwasanaeth UF a TAO mewn ymateb i her COVID-19 lle nad oedd modd parhau i gael pobl mewn ystafelloedd arall oherwydd ymbellhau cymdeithasol. I gadw ein staff a'n cleifion yn ddiogel, fe roesom ar waith

y gwasanaeth ffonio'n gyntaf i bobl ein galw os nad oes bywyd neu aelod o'r corff mewn perygl. Mae galwyr yn cael eu brysennu dros y ffôn ac yn cael cynnig slot amser mewn lleoliad priodol os oes angen sylw meddygol, neu eu cyfeirio at wasanaeth Gofal Sylfaenol arall megis Fferyllfa Gymunedol. Mae'r gwasanaeth wedi lleihau'r niferoedd fu yn ein UF o draean ac yr ydym yn awr yn ystyried cam nesaf yr ymgyrch i wella'r nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth.

- **Model Adsefydlu COVID-19 Caerdydd a'r Fro** - Ym mis Mehefin, fe wnaethom lansio Model Adsefydlu COVID-19 Caerdydd a'r Fro, "Fy Nghadw i'n lach" sy'n nodi anghenion adsefydlu sylweddol pobl sy'n gwella o'r feirws, yn ogystal â'r rhai y torrwyd ar draws eu hadsefydlu o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae'r safle Fy Nghadw i'n lach hefyd wedi ei mabwysiadu fel erfyn cyfeirio at Fyrddau lechyd eraill, a pharheir i'w ddatblygu i fod yn 'ganolbwynt' therapiâu.' Mae'r wefan unswydd yn cynnig syniadau, cyngor ac ymarferion i bobl eu gwneud yn eu cartrefi eu hunain, ac fe'i datblygwyd gan ein Gweithwyr lechyd Proffesiynol Perthynol.
- **Treialu RECOVERY** - Y Bwrdd lechyd oedd y cyntaf yn y DU i agor y treial RECOVERY (Gwerthuso ar Hap therapi COVID-19, a ganfu bod y driniaeth steroid dos isel Dexamethasone yn gostwng marwolaethau cleifion mewn ysbytai gyda chymhlethdodau resbiradol difrifol COVID-19. Cafwyd bod Dexamethasone yn gwella goroesi COVID-19. Yr oedd hyn yn gam sylweddol ymlaen gyda COVID-19, ac y mae'n falch gennym



ddweud fod Caerdydd a'r Fro wedi gwneud cyfraniad sylweddol iddo. Melanie James, o ardal Pontprennau yng Nghaerdydd, oedd y claf cyntaf yng Nghymru i dderbyn trallwysiad o wrthgyrff monoclonal i drin COVID-19 yn Ysbyty Athrofaol Llandochau.

- **Lansio Clinigau Rhithiol Dal ar dy Draed** - lansiodd ein tîm Ffisiotherapi y 'Clinigau Rhithiol Dal ar dy Draed', gwasanaeth sydd â'r nod o roi ymyriad cynnar i unigolion sy'n poeni am gwympo neu sydd dipyn yn ansad ar eu traed. Mae'r clinig yn cael ei gyflwyno'n 'rhithiol' dros y ffôn neu fel ymgynghoriad fideo, ac y mae ar gael i holl drigolion Caerdydd a Bro Morgannwg.
- **Amgueddfa Meddygaeth Filwrol** - ym mis Awst, gwnaethom gyhoeddi ein bod yn gweithio mewn partneriaeth a'r Amgueddfa Meddygaeth Filwrol, ym Mae Caerdydd. Bu'r cyfleuster gwyh hwn yn gartref i Hwb Cyn-Filwyr GIG Cymru fydd yn darparu cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol i'r sawl sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog.
- **Lansio Uwch-Therapiau Cymru** - lansiodd rhaglen Uwch-Therapiau Cymru (UThC) ei gwasanaeth yn swyddogol i'r cyhoedd ym mis Awst ac y mae Uwch-Therapiau Cymru yn gweithio ynghyd i harneisio potensial Cynhyrchion Uwch Therapiwtig Meddygol (CUThM) i wella iechyd, lles a ffyniant pobl Cymru.
- **Coleg Adfer Caerdydd a'r Fro** - ym Medi fe wnaethom lansio Coleg Adfer a Lles Caerdydd a'r Fro sy'n darparu cyrsiau am ddim ar amrywiaeth o bynciau iechyd meddwl a lles - fydd ar gael i

bobl sydd ar hyn o bryd yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl neu a fu'n defnyddio, a'u gofalmwy a gweithwyr iechyd meddwl yn y Bwrdd Iechyd, yr Awdurdod Lleol a'r sector elusennol. Dros y ddau dymor cyntaf, mae'r Coleg Adfer wedi cyflwyno 30 cwrs, mae 641 wedi ymuno ac wedi cwblhau 217 awr o ddysgu.

- **Adain Glan Llyn YAC** – ym mis Rhagfyr, daeth y 1660 gwely sy'n ffurfio 'Adain Ogleddol' Adain Glan Llyn YAC ar gael i dderbyn cleifion sydd angen adsefydlu ac sy'n dod atynt eu hunain wedi cyfnod maith wedi cyfnod maith o salwch difrifol. Mabwysiadodd Adain Glan Llyn YAC fodel gofal aml-ddisgyblaethol, gan sicrhau bod staff fel ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, dietegwyr, fferyllwyr, gweithwyr cefnogi gofal iechyd a nyrsys cofrestredig yn gweithio ar y cyd i ofalu am gleifion dan yr un to. Trosglwyddwyd ail gan Adain Glan Llyn ym mis Ionawr 2021 gan ddarparu cyfanswm o 300 o welyau ychwanegol.
- **Cyflwyno brechu rhag COVID-19** - Ar ddydd Mawrth 8 Rhagfyr cychwynnodd yr ymgyrch i frechu rhag COVID-19 yn ein Canolfan Brechu Torfol gyntaf yn Sblot, gyda llygaid y byd arnom fel un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i ddechrau brechu. Ers mis Rhagfyr, rydym wedi agor tair Canolfan frechu Torfol ychwanegol, wedi derbyn cefnogaeth gan y 60 practis meddyg teulu ledled Caerdydd a Bro Morgannwg a chefnogaeth gan Fferyllfeydd Cymunedol i frechu ein poblogaeth. Mae hyn wedi ein galluogi i gyflwyno'r brechlyn i'r rhan fwyaf o'n poblogaeth mewn cwta 4 mis, ochr



yn ochr â'n Timau Brechu Symudol a aeth i'r gymuned i frechu cleifion sy'n gaeth i'w tai, ein cartrefi gofal, y gymuned ddigartref, ceiswyr lloches, y gymuned Teithwyr, ac yn ein Mosgiau yn y gymuned i ddod â'r brechlyn i'n cymunedau.

- **MD gyda BAPIO** – ym mis Ionawr, llofnododd y Bwrdd Iechyd Femorandwm dealltwriaeth gyda Chymdeithas Brydeinig y Ffisegwyr o Darddiad Indiaidd (BAPIO). Dyma'r cyntaf o'i fath i'r Bwrdd Iechyd a BAPIO, a chredaf ei fod yn dangos ein hymrwymiad a'n parodrwydd i fwrw ymlaen â newid ystyrion a gweladwy. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyflogwr cynhwysol sy'n elwa o amrywiaeth ei staff, ac ar ei ennill yn enfawr o'r diwylliannau, treftadaethau a chenhedloedd lluosog a gyflogir gennym.
- **Treial Ocsigen UGD mwyaf y byd** - Fe wnaethon arwain treial ymchwil mwyaf y DU i weld sut y mae cleifion yn cael eu trin ag ocsigen mewn UGD (Unedau Gofal Dwys). O gofio mai clefyd resbiradol yw COVID-19 a bod cleifion sy'n ddifrifol wael yn aml angen cefnogaeth ocsigen, caiff canlyniadau'r astudiaeth hon eu defnyddio i roi cyfarwyddyd pellach ynghylch y defnydd o ocsigen.
- Gwnaeth ein Tîm Ymchwil UGD hefyd **arwain y DU mewn treial** o gleifion gafodd ataliad ar y galon yn y gymuned. Roedd y treial yn golygu oeri cleifion pan fyddent yn dod i'r ysbyty i dymheredd o 33C gan y gall oeri'r corff amddiffyn yr ymennydd ac o bosib gynyddu'r posibilrwydd o oroesi. Yr oedd y treial yn cymryd agwedd o gydsynio tybiedig, gyda chydysyniad yn cael ei gymryd

wedyn gan y cleifion neu eu teuluoedd. Cyfrannodd Cymru 54 o gleifion i'r treial.

- Fe wnaethom hefyd gychwyn ar y broses ymwneud â'n partneriaid a'r gymuned i **Lunio ein Gwasanaethau Clinigol at y Dyfodol** er mwyn casglu adborth am ein cynlluniau am ddyfodol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys datblygu YAC2.

O ystyried bod 'tonnau' pellach o COVID-19 yn bosib, a'r ansicrwydd ynghylch gallu'r GIG i reoli unrhyw gynnydd yn y galw yn sgil hynn, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i asesu a ddylid cynnal cyfleusterau ysbytai maes yn 2021/2022. Wrth ddatblygu cynlluniau lleol, byddwn hefyd yn ystyried a allai cyfleusterau'r ysbytai maes presennol ychwanegu gwerth - lle bo hynny'n ddarvoudus - trwy gyflwyno gwasanaethau eraill ar sail anghenion y boblogaeth leol.

Dangosodd COVID-19 y gall y byd weithio'n wahanol, heb fod angen cyswllt wyneb yn wyneb bellach yn yr un modd. Lleihawyd yr angen i deithio, ac y mae hyn hefyd yn creu cyfle i newid y ffordd yr ydym yn gweithio, gydag apwyntiadau ac ymgynghoriadau rhithiol yn prysur ddod yn ffordd dderbyniol o weithio. Gall mwy o ddefnydd o dechnoleg, a fabwysiadwyd yn sydyn yn ystod y pandemig, gefnogi ffyrdd newydd o gyflwyno gofal iechyd a chymdeithasol at y dyfodol. Mae hyn wedi ein galluogi i ddarparu gwasanaethau yn nes at adref ac yn y gymuned leol, a byddwn yn parhau i ddatblygu hyn fel bod gwasanaethau yn hygyrch ac yn gweithio'n effeithiol wrth i ni fyw gyda COVID-19. Serch hynny, rhaid i ni weithio i fynd i'r afael ag eithrio digidol a gofalu nad yw ein gwasanaethau yn camwahaniaethu yn erbyn y sawl sydd wedi eu heithrio yn ddigidol.



Cawsom arian ychwanegol i'n cefnogi i barhau ag ymateb y GIG i COVID-19, ac adfer gwasanaethau dewisol wrth i'r niferoedd mewn ysbytai barhau i ostwng. Wynebodd y GIG heriau enfawr y gaeaf hwn, a gweithiodd staff iechyd a gofal yn ddiflino ar y rheng flaen, gan ofalu am filoedd o gleifion COVID-19 a dal ati ar yr un pryd i roi triniaeth frys i'r sawl sydd ei angen. Bydd yr arian hefyd yn sicrhau y gall y GIG barhau i ddarparu gwasanaethau cefnogi iechyd meddwl ac iechyd galwedigaethol sydd ar gael i nyrsys, parafeddygon, therapyddion, fferyllwyr, ac aelodau eraill y staff sy'n gweithio ar y rheng flaen yn ystod y pandemig.

Teg dweud fod y 12 mis diwethaf wedi peri i ni fyfyrto am y GIG a'i werthfawrogi, a'r hyn mae'n wneud i'n cymunedau a'n poblogaeth. Rydym yn wiliadwrus ond yn optimistaidd am effaith y cynnydd rhyfeddol y rhaglen frechu a'r gostyngiad a welwn yn nhrosglwyddiad

y feirws. Mae hyn yn dechrau dangos gostyngiad sydd i'w groesawu mewn pwysau ar y GIG a gofal cymdeithasol. Mae'n gyfle i ni edrych ymlaen a gweld sut y gallwn ddysgu o wersi ac arloesedd llynedd, a chynllunio am adferiad.



Len Richards

Len Richards
Prif Weithredwr



Charles Janczewski

Charles Janczewski
Cadeirydd BIP



2. Proffil BIP Caerdydd a'r Fro

2.1 Amdanom Ni

Y Bwrdd Iechyd yw un o sefydliadau'r GIG mwyaf yn Ewrop. Fe'i sefydlwyd yn 2009, ac y mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau iechyd a lles i'w boblogaeth. Rydym yn gwario tua £1.4 biliwn y flwyddyn yn rhoi i'n cymunedau yr ystod lawn o wasanaethau iechyd a lles, gan gynnwys:

- **Iechyd Cyhoeddus:** rydym yn cefnogi cymunedau Caerdydd a'r Fro gydag amrywiaeth o gyngor a chanllawiau iechyd cyhoeddus ac iechyd ataliol
- **Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol:** Practis meddygon teulu, deintyddion, fferylliaeth ac optometreg a llawer o wasanaethau therapi dan arweiniad y gymuned trwy dimau iechyd cymunedol.
- **Gwasanaethau aciwt trwy ein dwy brif Ysbyty Athrofaol ac Ysbyty'r Plant :** darparu ystod eang o driniaethau ac ymyriadau meddygol a llawfeddygol.
- **Canolfan drydyddol:** rydym hefyd yn gwasanaethu poblogaeth ehangach ledled Cymru a'r DU yn aml gyda thriniaethau arbenigol a gwasanaethau cymhleth megis llawdriniaethau niwrolegol a gwasanaethau cardiaidd

Iechyd Cyhoeddus

Gwella iechyd ein poblogaeth a lleihau anghydraddoldebau. Darparu gwybodaeth a chyngor gofal iechyd ataliol gan gynnwys mynediad at wasanaethau iechyd a lles.

Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol

Cynnig gwasanaethau iechyd rheng-gyntaf mewn meddygfeydd meddygon teulu, deintyddion, optometryddion, fferyllwyr ac amrywiaeth o wasanaethau therapi a chymunedol sy'n hygyrch ac mor agos gartref ag sydd modd.

Gofal Aciwt a Thrydyddol

Darparu gofal annisgwyl neu frys. Gofal dewisol a gwasanaethau arbenigol i boblogaeth ehangach ar draws Cymru, gan gynnwys diagnosteg a gwasanaethau therapiwtig.

Gwasanaethau Corfforaethol

Darparu'r gwasanaethau cefnogi sydd eu hangen i redeg system iechyd integredig ledled Caerdydd a Chymru, gan sicrhau diogelwch y cleifion, llywodraethiant, sicrhau ansawdd, perfformiad a chyflwyno pob gwasanaeth yn rhagorol.



2.2 Ein Cenhadaeth a'n Gweledigaeth

Ein cenhadaeth yw "Gofalu am Bobl, Cadw Pobl yn Iach", a'n gweledigaeth yw y dylai cyfle rhywun o fyw bywyd iach fod yr un fath lle bynnag mae'n byw a phwy bynnag ydyw.

Strategaeth 10-mllynedd trawsnewid a gwella Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Llundain ein Lles at y Dyfodol, yw ein cyfle i weithio gyda'n gilydd gyda'r cyhoedd a gweithlu'r Bwrdd Iechyd i wneud ein Bwrdd Iechyd yn fwy cynaliadwy at y dyfodol. Gyda'n gilydd, gallwn wella cydraddoldeb i'n holl gleifion – heddiw ac yfory.

I wybod mwy, [ewch i'n gwefan drawsnewid bwrpasol](#).

2.3 Ein Bwrdd

Mae 22 aelod ar ein Bwrdd, gan gynnwys Cadeirydd, is-gadeirydd a Phrif Weithredwr. Mae gan y Bwrdd Iechyd 11 Aelod Annibynnol, sydd oll yn cael eu penodi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a thri Aelod Cysylltiol.

Mae'r Bwrdd yn rhoi arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad ac y mae'n gyfrifol am lywodraethiant, craffu ac atebolrwydd cyhoeddus, gan sicrhau bod ei waith yn agored a thryloyw trwy gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus.

Yn ychwanegol at y cyfrifoldebau a'r atebolrwydd a osodir allan yn y telerau ac amodau penodi, mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cyflawni nifer o swyddogaethau fel Pencampwyr Lle maent yn llysgenhadon y materion hyn.

Cefnogir y Bwrdd gan nifer o Bwyllgorau, pob un dan gadeiryddiaeth Aelod Annibynnol. Rhaid i bob Pwyllgor gydymffurfio â Chanllaw Arfer Da Llywodraeth Cymru - Pwyllgorau Effeithiol y Bwrdd. Mae'r holl Bwyllgorau, sy'n cwrdd yn gyhoeddus, yn darparu eu cofnodion i bob cyfarfod o'r Bwrdd sydd yn cyfrannu at asesu eu sicrwydd ac yn ffordd o graffu ar gyflawni amcanion.

Mae copïau o'r papurau a'r cofnodion ar gael gan y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol a hefyd ar [wefan](#) y Bwrdd Iechyd. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys crynodeb o gyfrifoldebau a Chylch Gorchwyl pob Pwyllgor. Mae pob cam a fynnir gan y Bwrdd a Phwyllgorau yn cael eu cynnwys ar Log Gweithredu, ac ym mhob cyfarfod, mae'r cynnydd yn cael ei fonitro, a chyhoeddir y Logiau Gweithredu hyn hefyd ar wefan y Bwrdd Iechyd.

Bob blwyddyn, mae pob Pwyllgor yn adolygu eu Cylch Gorchwyl a Chynlluniau Gwaith i gefnogi busnes y Bwrdd. Mae Pwyllgorau hefyd yn gweithio ynghyd ar ran y Bwrdd er mwyn gwneud yn siŵr fod gwaith yn cael ei gynllunio'n gydlynus ac yn canoli ar y materion risg mwyaf fyddai'n ein hatal rhag cyflawni ein cenhadaeth a chwrdd â'n hamcanion



Ein Haelodau Bwrdd

Aelodau Annibynnol



Charles Janczewski
Cadeirydd



Yr Athro Ceri Phillips
Is-Gadeirydd



Michael Imperato
Aelod Annibynnol -
Cyfreithiol



Yr Athro Gary Baxter
Aelod Annibynnol -
Prifysgol



David Edwards
Aelod Annibynnol - Technoleg
Gwybodaeth a Chyfathrebu



Cyngorydd Susan Elsmore
Aelod Annibynnol -
Awdurdod Lleol



Akmal Hanuk
Aelod Annibynnol -
Y Gymuned Leol



Sara Moseley
Aelod Annibynnol -
Trydydd Sector (Gwirfoddol)



Dr Rhian Thomas
Aelod Annibynnol -
Cyfalaf ac Ystadau



John Union
Aelod Annibynnol -
Cyllid



Mike Jones
Aelod Annibynnol -
Undebau Llafur

Cyfarwyddwyr Gweithredol a Swyddogion sy'n Aelodau



Len Richards
Prif Weithredwr



Dr Stuart Walker
Dirprwy BW a Chyfarwyddwr
Meddygol Gweithredol



Catherine Phillips
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid



Steve Curry
Prif Swyddog Gweithredol



Abigail Harris
Cyfarwyddwr Gweithredol
Cynllunio Strategol



Dr Fiona Jenkins
Cyfarwyddwr Gweithredol
Therapiau a Gwyddorau
Iechyd



Fiona Kinghorn
Cyfarwyddwr Gweithredol
Iechyd Cyhoeddus



Ruth Walker
Cyfarwyddwr
Gweithredol Nyrsio



Rachel Gidman
Cyfarwyddwr Gweithredol
Pobl a Diwylliant

Cyfarwyddwyr Eraill



Nicola Foreman
Cyfarwyddwr Llywodraethiant
Corfforaethol




Allan Wardhaugh
Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol



2.4 Ein Strwythur

Mae gennym weithlu o ryw 15,000 o staff sydd yn gyson yn cyflwyno gwasanaethau o safon uchel i'n holl gleifion. Mae strwythur ein sefydliad wedi ei gynllunio'n saith Bwrdd Clinigol a grëwyd ym Mehefin 2013 ac sydd wedi llwyddo i roi arweiniad cryf mewn

meysydd clinigol ac wedi arwain at gyflymu gwneud penderfyniadau gweithredol, a hyn yn ei dro wedi gwella deilliannau i gleifion yn eu gofal. Mae'r Byrddau yn cael eu dal i gyfrif trwy'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.



Mae ein gwasanaethau corfforaethol a chynllunio yn rhan annatod o strwythur cyffredinol a rhedeg y Bwrdd Iechyd yn llyfn, ac y maent yn cynnwys:

- Strategaeth a Chynllunio
- Cyllid a Pherfformiad
- Adnoddau Dynol
- Llywodraethiant Corfforaethol
- Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnegol

- Stadau a Chyfleusterau
- Cyfathrebu, Celfyddydau, Elusennau Iechyd ac Ymwneud

Cedwir golwg ar gynnydd y cyfarwyddiaethau Gwasanaethau Corfforaethol trwy gyfuniad o lywodraethiant, atebolrwydd y cyfarwyddwyr gweithredol a'r uwch-reolwyr, a chaiff cynnydd ei fapio yn erbyn prosiectau allweddol yn eu meysydd arbenigedd.



2.5 Y Boblogaeth Rydym yn ei Gwasanaethu

Mae deall anghenion ein poblogaeth yn hanfodol er mwyn cynllunio cadarn ac effeithiol. Cynhaliwyd Asesiad Anghenion y Boblogaeth ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), a ddatblygwyd gyda'n partneriaid rhanbarthol, yn rhoi golwg gyfun o'r heriau poblogaeth y seiliwyd ein cynlluniau arnynt. Bydd y broses o gyfoesi'r asesiad anghenion yn llawn yn cychwyn y flwyddyn nesaf, gyda chyfoesiad interim i ddigwydd yn ystod y pandemig COVID-19.

Mae'n bwysig i ni edrych y tu hwnt i anghenion iechyd ein dinasyddion, ac ystyried hefyd les ein poblogaeth sydd yn cwmpasu lles amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Twf poblogaeth

Parhau i dyfu y mae poblogaeth Caerdydd a'r Fro, gyda rhagamcanion diweddaraf Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif cynnydd o 502,000 yn 2021 i 521,000 yn 2031, tua 4%. Yn groes i ragamcanion blaenorol a gyhoeddwyd 4 blynedd yn ôl, amcenir y bydd cyfradd twf yn y Fro yn fwy nag un Caerdydd, gyda thwf yn y Fro o 5.3% dros 10 mlynedd, o gymharu â 3.4% yng Nghaerdydd. Bydd union dwf y boblogaeth, yn enwedig yng Nghaerdydd, yn dibynnu llawer ar gynnydd gyda datblygiadau tai mawr.

Poblogaeth sy'n heneiddio

Mae oedran cyfartalog pobl yng Nghaerdydd a'r Fro yn codi'n raddol, gyda rhagamcan o gynnydd mewn pobl 85 a hŷn yn y Fro o 33% dros y 10 mlynedd nesaf, a 9% yng Nghaerdydd.

Anghydraddoldebau iechyd

Mae cryn amrywiaeth mewn ymddygiad iach a deilliannau iechyd yn ein hardal, gydag amrywiadau mewn cyfraddau smygu, gweithgaredd corfforol, diet a chyfraddau gordewdra a bod dros bwysau. Mae cyfraddau brechu mewn plentyndod hefyd yn is mewn ardaloedd difreintiedig, a phobl yn fwy tebygol o brofi ansawdd aer gwaeth. Mae disgwyliad einioes rhyw ddeng mlynedd yn is yn ein hardaloedd mwy difreintiedig, ac o ran disgwyliad einioes iach, mae'r bwlch yn fwy na dwbl hyn. Mae amddifadedd yn uwch yng nghymdogaethau De Caerdydd, a Chanol y Fro.

Amlygodd pandemig COVID-19 yr anghydraddoldebau dyfnion hyn, gyda'r effeithiau yn drymach yn ein hardaloedd mwy difreintiedig, ac ymysg cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Newid ym mhatrwm clefydau

Mae nifer cynyddol o bobl yn ein hardal â diabetes, yn ogystal â mwy o bobl gyda dementia wrth i'r boblogaeth heneiddio. Cynyddu mae nifer y bobl gyda mwy nag un salwch tymor-hir.

Ni wyddom eto beth fydd effaith hirdymor pandemig COVID-19 ar iechyd ein poblogaeth, ond rydym yn disgwyl y bydd effeithiau andwyol ar les meddyliol a allai bara am flynyddoedd lawer; a hefyd effeithiau "COVID-19 hir". Rydym hefyd yn disgwyl effeithiau negyddol sylweddol ar benderfynynnau iechyd, ehangach, er enghraifft, lefelau cyflogaeth a chyrhaeddiad addysgol; fodd bynnag, efallai y gwelwn newidiadau cadarnhaol, er enghraifft, mewn cydlynu cymunedau, a mwy o gerdded a beicio.



Adfer wedi COVID-19

Mewn ymateb i nifer cynyddol yr unigolion fydd angen adsefydlu ar ôl eu heintio â COVID-19, a nodwyd fel rhai sy'n byw gyda "COVID-19 hir", yn yr ysbyty ac yn y cartref, sefydlodd y Bwrdd Iechyd dîm therapi adsefydlu amlldisgyblaethol a gefnogir gan ein Tîm Gofal Sylfaenol dan arweiniad meddyg teulu.

Mae'r tîm yn rhan o lwybr gofal yn y gymuned, ond gyda chysylltiadau â gwasanaethau arbenigol i gefnogi cleifion a all, ym marn y tîm, fod angen mwy o ymchwiliad/ymyriad clinigol. Petai angen cyngor neu farn feddygol, gall y tîm gyfeirio ymlaen yn ôl y galw.

Bu'r tîm yn ei le ers Ionawr 2021, a chyfeiriwyd dros 300 o bobl ato gan feddygon teulu, ymgynghorwyr arbenigol a gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig (GIPC), gan helpu dros 100 o unigolion ar eu taith i adferiad. Mae'r tîm yn cynnwys Arweinydd GIPC, therapydd galwedigaethol, ffisiotherapydd, therapydd iaith a lleferydd, dietegydd, seicolegydd, cymorth seicolegol, hyfforddwr adsefydlu, a chefnogaeth weinyddol. Ethos y tîm yw un o ofal ac adsefydlu seicolegol i'r person cyfan.

Mae cleifion a welir gan y gwasanaeth yn derbyn asesiad/ymgyngoriad rhithiol cyntaf estynedig lle cynigir iddynt agwedd gydlynus at adsefydlu. Maent yn cael cyngor, cefnogaeth, eu cyfeirio at wasanaeth adsefydlu sy'n bodoli eisoes, neu'n cael ymyriad rhithiol penodol byr neu adsefydlu mewn grŵp rhithiol. Mae'r tîm yn datblygu eu harfer yn unol â'r ymchwil sy'n digwydd i effeithiau COVID-19 a chanllawiau cenedlaethol.

Tybaco

Mae un o bob saith o oedolion (14%) yn ein hardal yn smygu. Er bod y niferoedd yn dal i ddisgyn, sydd yn galonogol, erys y defnydd o dybaco yn ffactor risg o bwys mewn llawer clefyd, gan gynnwys clefydau cardiofasgwlaidd a chanser yr ysgyfaint, a marwolaeth gynnar.

Bwyd

Mae dros ddwy ran o dair o bobl yn ein hardal heb fod yn bwyta digon o ffrwythau a llysiau, ac y mae dros hanner yr oedolion dros eu pwysau neu yn ordew. Mewn rhai ardaloedd difreintiedig, mae'n anodd cyrchu bwyd iach a fforddiadwy, ac y mae ansicrwydd bwyd yn dod yn fwy amlwg oherwydd cynnydd mewn costau byw a chyflogau isel.

Ymarfer corff

Mae dros 40% o oedolion yn ein hardal heb fod yn ymarfer corff yn rheolaidd, gan gynnwys tri o bob deg (29%) a ystyrir nad ydynt yn weithredol.

Ynysu cymdeithasol ac unigrwydd

Dywedodd rhyw chwarter o bobl fregus yn ein hardal eu bod yn unig ran o'r amser neu drwy'r amser, cyn pandemig COVID-19. Ni wyddom eto beth fydd effaith y pandemig yn y tymor hwy ar unigrwydd ac ynysu. Cysylltir unigrwydd cymdeithasol â llai o les meddyliol a disgwyliad einioes is.

Yr iaith Gymraeg

Dywed chwarter (25%) o bobl o bob oed yng Nghaerdydd y gallant siarad Cymraeg, ac 1 o bob 5 (21.4%) yn y fro. Caerdydd sydd ag un o'r poblogaethau mwyaf amrywiol o



ran ethnigrwydd yng Nghymru, gydag un o bob pump o bobl o gefndir du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol. Y grwpiau ethnig ail a thrydydd mwyaf cyffredin wedi Prydeinig Gwyn yw 'Gwyn arall' ac Indiaidd.

Iechyd ein poblogaeth – Tîm Iechyd Cyhoeddus

Dal i dyfu y mae poblogaeth Caerdydd a'r Fro, a thros yr 20 mlynedd nesaf, rhagwelir y byddwn yn gwasanaethu poblogaeth o ryw 535,000, neu tua 33,000 yn fwy o bobl na heddiw. Mae gan y ddinas-ranbarth yn arbennig hanes maith o fod yn agored a chynhwysol, a hi yw'r awdurdod lleol mwyaf amrywiol o ran ethnigrwydd yng Nghymru gydag ychydig dros 15% o'i phoblogaeth yn tarddu o grwpiau duon ac ethnig lleiafrifol.

Mae cyfuniad o ffactorau economaidd ac ymddygiad iechyd yn golygu bod gan Gaerdydd a'r Fro rai o'r anghydraddoldebau iechyd uchaf yng Nghymru, ac y mae'r gwahaniaeth mewn disgwyliad einioes iach rhwng rhai o'n hardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yn 24 mlynedd yng Nghaerdydd. Mae nifer o ffactorau i gyfrif am y bwlch hwn, gan gynnwys ymddygiad sy'n cynyddu'r risg o glefyd, yn enwedig o ran gordewdra, yfed alcohol, smygu a lefelau isel o fwyta'n iach ac ymarfer corff. Mae 'penderfynynnau ehangach' iechyd megis tai, incwm yr aelwyd a lefelau addysg a mynediad at wasanaethau iechyd a gofal iechyd hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at anghydraddoldeb iechyd. Bydd pandemig COVID-19 yn cael effeithiau tymor-hir ar anghydraddoldebau iechyd (gweler y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu, uchod).

Fel Bwrdd Iechyd rydym wedi ymrwymo i gau'r bylchau hyn mewn anghydraddoldeb iechyd trwy amrywiaeth o weithgareddau

gwella iechyd a gwaith gyda sefydliadau sy'n bartneriaid. Yn y tîm iechyd cyhoeddus, mae'r blaenoriaethau yn cynnwys tybaco, brechiadau (gan gynnwys brechu graddfa eang rhag COVID-19), pwysau iach ac amgylchedd iach (gan gynnwys ymateb i'r argyfwng hinsawdd), a gwaith trawsffiniol ar anghydraddoldebau, gan gynnwys tlodi bwyd; ymysg meysydd eraill mae alcohol, atal cwmpo, iechyd rhywiol ac iechyd yn y gwaith.

Hawliau Dynol

Mae gan y Bwrdd Iechyd Bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol sydd yn ymrwymo'r sefydliad i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol o ran cyflogaeth. Mae hefyd yn sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio mewn dull cyfartal.

Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) De Morgannwg

Rydym yn cydweithio'n agos gyda Chyngor Iechyd Cymuned (CIC) De Morgannwg, sefydliad statudol annibynnol sy'n gweithredu fel llais i gleifion a'r cyhoedd. Mae hefyd yn gwneud gwaith gwarchod dros y GIG ar bob agwedd o ofal iechyd.

Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i drafod cyflwyno a datblygu'r gwasanaethau a ddarperir gennym. Byddwn yn croesawu adroddiadau gan y CIC ac yr ydym yn ddiolchgar am eu cyngor, eu her a'u cefnogaeth

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag:

Uned 3, Canolfan Fusnes Pro-Copy
Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd
CF14 5DU

Telephone: 02920 750112

Email: Cavog.chiefofficer@waleschc.org.uk



2.6 Egwyddorion Rhwymediau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn yn llawn y rheoliadau sydd yn cyfarwyddo trin ac ymateb i bryderon (cwynion a digwyddiadau) a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2011. Hefyd, mae agwedd y Bwrdd Iechyd at drin pryderon yn adlewyrchu i raddau helaeth yr 'Egwyddorion Rhwymediau' a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

1. Cael pethau'n iawn

- Rydym yn cydnabod pryd y nodwn bethau y gellid bod wedi eu gwella.
- Byddwn yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol wrth benderfynu ar yr ateb priodol, gan sicrhau tegwch i'r achwynydd a, lle bo hynny'n briodol, i eraill sydd wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r un camweinyddu neu wasanaeth gwael.
- Byddwn yn ymddiheuro ac yn esbonio'r camweinyddu neu'r gwasanaeth gwael.
- Yr ydym yn ceisio deall a rheoli disgwyliadau ac anghenion pobl.
- Byddwn bob amser yn ceisio trin pobl yn broffesiynol ac yn sensitif.

2. Canoli ar y cwsmer

- Rydym yn cydnabod ac yn derbyn cyfrifoldeb am fethiant pan/os bydd yn digwydd
- Byddwn yn esbonio'n glir pam y bu'r methiant ac yn gresynu'n ddidwyll bod unrhyw anghyfiawnder neu galedi wedi deillio o hynny.

3. Bod yn agored ac atebol

- Rydym yn ceisio bod yn agored ac yn dryloyw
- Rydym yn anelu i drin pobl heb ragfarn na chamwahaniaethu anghyfreithlon.

4. Gweithredu'n deg a chymesur

- Byddwn yn ystyried pob ffurf ar rwymedi (megis ymddiheuriad, esboniad, camau unioni, neu iawndal ariannol).

5. Unioni pethau

- Rydym yn canolbwyntio ar ddefnyddio gwybodaeth am y deilliant a themâu o bryderon i wella gwasanaethau.

6. Ceisio gwella'n gyson

- Rydym yn ceisio cynnig ymchwiliad ac ymateb cymesur a rhesymol, gyda'r nod o adnabod cyfleoedd i wella'r gwasanaeth.



2.7 Ein Strategaeth

Llunio ein Lles at y Dyfodol yw'r strategaeth 10-mllynedd ar gyfer trawsnewid a gwella Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Credwn y dylai pawb gael cyfle i fyw bywydau hwy, iachach a hapusach. Ond gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a dulliau o fyw yn newid, mae mwy a mwy o alw ar ein systemau iechyd a gofal.

Mae angen i ni esblygu'n sydyn i wasanaethu anghenion y cyhoedd yn y ffordd orau a gofalu y gallwn gynnig gwasanaethau iechyd cynaliadwy i bawb, waeth beth fo'u hamgylchiadau.

I wneud i hyn ddigwydd, rhaid i ni wella ein system iechyd bresennol er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn gynaliadwy at y dyfodol. Ein strategaeth i wneud hyn yw Llunio ein Lles at y Dyfodol, cynllun 10 mlynedd dros y system gyfan fydd yn trawsnewid ein gwasanaethau er gwell.

Rydym eisiau gofal cydlynus ar sail agwedd 'gartref gyntaf', gan roi'r grym i ddinasyddion Caerdydd a'r Fro deimlo'n gyfrifol dros eu hiechyd eu hunain. Rydym eisiau osgoi niwed, gwastraff ac amrywio yn ein gwasanaethau i'w gwneud yn fwy effeithiol a chynaliadwy at y dyfodol. Rydym eisiau rhoi deilliannau sydd o wir bwys i gleifion a'r cyhoedd, gan sicrhau ein bod oll yn gweithio gyda'n gilydd i greu system iechyd i ymfalchïo ynddi.

Bydd aml i her ar y ffordd; rhaid i ni gymryd agwedd gytbwys i beri newid i'n poblogaeth ar sail blaenoriaethau'r gwasanaeth, cynaliadwyedd a gwerthoedd diwylliannol. Ond rydym wedi ymrwymo i 'Ofalu am Bobl, cadw Pobl yn Iach', gan sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'i dinasyddion lu yn ffynnu, nid yn unig heddiw ond am flynyddoedd i ddod.

2.8 Cynllun Tymor Canol Integredig (CTCI)

Ym mis Mawrth 2020 derbyniodd y Bwrdd Iechyd gadarnhad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, fod modd cymeradwyo ein Cynllun Tymor Canol Integredig (CTCI) tair-blynedd, ond oherwydd Covid-19 fod proses y CTCI wedi ei atal. Dogfen statudol yw'r CTCI ac y mae'n gam sylweddol ymlaen. Dyma'r tro cyntaf mewn tair blynedd i hyn gael ei ystyried fel un i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac, ochr yn ochr â gwella ein sefyllfa o ymyriad wedi'i dargedu i well monitro, yr oedd hyn yn llwyddiant deublyg.

Ym Mawrth 2020, oherwydd pandemig COVID-19, ataliwyd y broses CTCI a chyflwynwyd Fframweithiau Chwarterol i GIG Cymru. Yr oedd gofyn i sefydliadau gynhyrchu cynlluniau chwarterol i ymdrin â'r blaenoriaethau oedd yn cael eu gosod allan yn y fframweithiau hyn.



2.9 Ymchwil, Datblygu, Arloesedd a Phartneriaethau

Un o egwyddorion creiddiol y GIG a strategaeth y Bwrdd Iechyd yw dod â manteision i gleifion trwy Ymchwil a Datblygu (YaD) ac arloesedd. Mae perfformiad YaD effeithiol yn hanfodol os yw'r Bwrdd Iechyd am ateb ei werthoedd a'i amcanion, oherwydd ei fod yn dwyn manteision lu:

Manteision i gleifion:

- Mynediad at y therapiau diweddaraf
- Mynediad at y profion diagnostig a phrognosis diweddaraf
- Mae cleifion a wahoddir i gymryd rhan mewn treialon clinigol yn dangos mwy o foddhad cyffredinol a gwell deilliannau o gymharu â chleifion na chawsant y cyfle hwn
- Mae gan ysbytai â phortffolio YaD cryf well deilliannau hyd yn oed i gleifion nad ydynt mewn treialon.

Manteision i'r staff:

- Mae gweithlu sy'n llythrennog mewn ymchwil yn barod i gymryd rhan yn y broses o newid parhaus a gwella gwasanaeth sy'n angenrheidiol i gwrdd â heriau cyflwyno gofal iechyd modern
- Datblygu staff, sy'n arwain at fwy o frwdfrydedd, symbyliad a recriwtio pobl o ansawdd uchel i'r sefydliad

Manteision i'r Bwrdd Iechyd:

- Cyflawni cyfrifoldebau statudol y Bwrdd Iechyd
- Creu cysylltiadau gyda sefydliadau tebyg yng ngweddill y byd, gan rannu arfer da a chynyddu statws y Bwrdd Iechyd
- Esiampl fel y darparwr gofal iechyd arweiniol yng Nghymru
- Denu a chadw staff
- Cyllid wedi ei osod yn erbyn costau staff (trwy ddarpariaeth incwm YaD), arbedion ar gyffuriau/dyfeisiadau trwy gymryd rhan mewn astudiaethau, mynediad at incwm masnachol trwy gymryd rhan mewn ymchwil a threialon
- Incwm YaD uniongyrchol – Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Bwrdd Iechyd ethos YaD cryf a record hanesyddol. Mae newidiadau i'r modd y cyllidir YaD a'i gymeradwyo yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn heriau o bwys, ond yn gyfle mawr hefyd i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu strwythur sy'n annog cynhyrchu cyllid ac adnoddau ar gyfer YaD.



Rhan 1

Adroddiad am Berfformiad



3. Trosolwg o Berfformiad

Cafodd yr angen i gynllunio ac ymateb i bandemig COVID-19 effaith sylweddol ar y sefydliad, y GIG yn ehangach, a chymdeithas gyfan. Yr oedd angen ymateb deinamig, sydd wedi codi nifer o gyfleoedd yn ogystal â risgiau. Bydd yr angen i ymateb i'r pandemig ac adfer ohono yn parhau i'r sefydliad a chymdeithas ar hyd 2021-2022 a thu hwnt. Golygodd pandemig COVID-19 fod y sefydliad yn wynebu nifer o heriau, a welir yn y datgeliadau a ganlynol yn y wybodaeth am berfformiad.

Ein Perfformiad

3.1. Effaith COVID-19 ar gyflwyno gwasanaethau

Golygodd pandemig COVID-19 fod y sefydliad yn wynebu nifer o heriau, a welir yn y datgeliadau a ganlynol yn y wybodaeth a'r cerdyn sgorio am berfformiad.

Ym Mawrth 2020 ataliwyd y broses CTCL dros dro a chyflwynwyd Fframweithiau Chwarterol i GIG Cymru. Yr oedd gofyn i sefydliadau gynhyrchu cynlluniau chwarterol i ymdrin â'r blaenoriaethau oedd yn cael eu gosod allan yn y fframweithiau hyn.

Hefyd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Gynllun Gwarchod y Gaeaf am 2020-21 ym mis Hydref, ac yr oedd gofyn i sefydliadau ofalu bod eu cynlluniau yn asio gyda'r blaenoriaethau a nodwyd <https://gov.wales/winter-protection-plan-health-and-social-care-2020-2021>. Datblygodd y Bwrdd Iechyd a'r sefydliadau sy'n bartneriaid - awdurdodau lleol, Ymddiriedolaeth Ambiwlans GIG Cymru a'r trydydd sector - a chyhoeddi Cynllun

Gwarchod y Gaeaf Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg am 2021-21: <https://cavuhb.nhs.wales/files/publications/winter-preparedness/cardiff-and-vale-of-glamorgan-regional-partnership-board-winter-protection-plan-2020-21/> ym mis Hydref 2020. Yr oedd y cynllun hwn yn asio gyda'r blaenoriaethau a osodwyd allan yng Nghynllun hollgyffredinol Gwarchod y Gaeaf Llywodraeth Cymru am 2020-21.



Cafodd maint a hyd y pandemig effaith na welwyd mo'i fath o'r blaen ar gyflwyno gwasanaethau. Yn 2020-2021 yr oedd nifer o risgiau i gyflwyno gwasanaethau oedd yn ymwneud ag effaith COVID-19, sef:

- Ansicrwydd ynghylch proffil y galwadau o du grwpiau cleifion COVID-19 a rhai heb fod â COVID-19 – gyda rhai gwasanaethau yn derbyn galwadau trwm, ac eraill lle na fu cymaint o alw,
- Gwasanaethau lle bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ostwng ei lefelau gweithgaredd er mwyn ail-gyfeirio adnoddau i ymateb i COVID-19,
- Llai o effeithiolrwydd o ganlyniad i fesurau ychwanegol Atal a Rheoli Heintiad a roddwyd ar waith i leihau trosglwyddiad COVID-19,
- Amseroedd aros hwy o ganlyniad i lai o weithgaredd cyflwyno,
- Ail-ennyn hyder gweithwyr clinigol a chleifion i ail-gychwyn gweithgareddau pan fydd yn ddiogel gwneud hynny,
- Gweithio ar lefel uwch o gymhlethdod gyda'r angen i wahanu grwpiau o gleifion i leihau'r risg o drosglwyddo'r feirws.



I ymateb i'r heriau hyn, datblygodd a gweithredodd y Bwrdd Iechyd fodel gweithredu diwygiedig fyddai modd ei addasu'n hawdd i drin grwpiau cleifion oedd â COVID-19 a rhai heb. Prif egwyddor y model gweithredu diwygiedig yw bod yn barod am COVID-19. Mae hyn yn cyd-fynd â'r fframwaith cenedlaethol. Prif egwyddor y ddau fframwaith yw'r angen i leihau niwed, gan gydbwysu risgiau ar draws y system a'r pedwar math o niwed; h.y., niwed o COVID-19 ei hun; niwed o ostyngiad mewn gweithgaredd heb fod yn ymwneud â COVID-19; niwed o lethu'r GIG; a niwed o weithredoedd cymdeithasol ehangach/cyfnodau clo.

Mae'r model gweithredu diwygiedig yn golygu bod y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu mewn cylchoedd cynllunio pedair i chwe wythnos, ar sail data a modelu. Gan ragweld y bydd y galw oherwydd COVID-19 yn codi a gostwng, bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ymateb mewn ffyrdd gwahanol dros y flwyddyn a aeth heibio.

Newidiwyd gofynion sicrwydd ac atebolrwydd i fyrdau iechyd i adlewyrchu anghenion diogelwch ar y pryd. Ar ddechrau'r pandemig, newidiodd ffocws y Bwrdd Iechyd i reoli COVID-19 a chynnal gwasanaethau hanfodol, yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Wedyn, datblygwyd cynlluniau chwarterol cynhwysfawr, gyda chanolbwynt yr elfen cyflwyno gwasanaeth y rhain ar reoli'r galw adeg COVID-19, lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 mewn ysbytai, cynnal gwasanaethau hanfodol a chynyddu gweithgaredd trwy ail-gyflwyno gwasanaethau eraill mwy arferol pan oedd yn ddiogel gwneud hynny. Defnyddiwyd data gweithgaredd a pherfformiad yn

erbyn dangosyddion allweddol, yn unol â chanllawiau cenedlaethol, ar gyfer gwybodaeth rheoli, ac i roi sicrwydd yn erbyn cyflwyno cynlluniau chwarterol.

Rheoli digwyddiadau o COVID-19- trwy gydol y pandemig, cafwyd digwyddiadau o a COVID-19 mewn nifer o wardiau ledled y sefydliad. Yr oedd hyn yn arbennig o heriol yn ystod yr ail don. Sefydlwyd Cell Atal a Rheoli Heintiad gyda goruchwyliaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol oedd yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gweithio'n agos gyda'r timau Gweithrediadau i sicrhau diogelwch cleifion a staff ac i gael cynifer ag oedd yn ddiogel bosib o welyau yn yr ysbytai. Yn y cyfnod mwyaf heriol, yr oedd y Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol yn cadeirio cyfarfodydd Atal a Rheoli Heintiad dyddiol gyda'r staff uwch i fonitro'r sefyllfa yn gyffredinol. Agorwyd Adain Glan Llyn gyda gallu ychwanegol ar 27 Rhagfyr 2020 i dderbyn y garfan gyntaf o gleifion i helpu i ymdopi a phwysau COVID-19 yn y Bwrdd Iechyd. Byddai Byrddau Clinigol yn cynnal cyfarfodydd gweithredol er mwyn gofalu bod y meysydd clinigol yn cael eu rheoli'n effeithiol. Yr oedd y rhain yn bwydo i mewn i'r cyfarfodydd am ddigwyddiadau a amlinellwyd uchod. Byddai gwybodaeth o'r Gell AaRhH yn cael ei fwydo i mewn i gyfarfodydd Gweithrediadau COVID-19 ledled y Bwrdd Iechyd, oedd yn cael eu cynnal ddwywaith yr wythnos dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gweithredol. Byddai'r Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol neu ei dirprwy yn rhoi gwybodaeth i'r cyfarfod hwn er mwyn sicrhau agwedd gydlynus a bod cyfathrebu da yn digwydd. Cydymffurfiodd y Bwrdd Iechyd yn llawn â'r trefniadau adrodd dyddiol arferol i Lywodraeth Cymru.



3.2 Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau diogel, effeithiol a safonol am ofal COVID-19 a heb fod yn COVID-19

Trwy'r pandemig, ymatebodd y Bwrdd Iechyd yn sydyn i ail-lunio cyflwyno gwasanaethau clinigol, ail-bwrpasu ac ail-gyflunio'r ôl troed a chreu'r gallu angenrheidiol i gynnal mynediad at wasanaethau hanfodol a darparu gwasanaethau mwy arferol pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

3.3 Ail-ddylunio gwasanaethau gofal sylfaenol i gyflwyno gofal brys yn ystod cyfnod aciwt COVID-19

Mewn Gofal Sylfaenol, newidiodd darparwyr dan gontract mewn Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol eu ffyrdd o weithio er mwyn sicrhau mynediad at ofal brys yn ystod y don gyntaf a'r ail. Llwyddwyd i wneud hyn trwy symud at fodel o glystyrau, gyda chanolfannau GMC COVID-19 yn agor, ac apwyntiadau rhithiol yn ehangu'n gyflym, a phob meddyg teulu yn symud i fodel o frysbenno yn gyntaf dros y ffôn.

Hefyd, sefydlwyd Canolfannau Deintyddol Brys a chanolfannau Optometreg.

Trawsnewidiwyd gwasanaethau fferyllol hefyd yn gyflym, gan barhau i ddarparu gofal trwy reoli meddyginiaethau yn effeithiol yn ogystal â chynnal gwasanaethau

anhwylderau cyffredin a gweithio ar y cyd i sicrhau cyflenwadau effeithiol o feddyginiaethau lliniarol yn y gymuned.

3.4 Dylunio a gweithredu profi am COVID-19 a brechu yn ei erbyn

Profi Olrhain Diogelu (POD)

Sefydlwyd gwasanaethau POD Caerdydd a Bro Morgannwg fel rhan o'r ymateb i bandemig COVID-19, yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Profi Olrhain Diogelu Llywodraeth Cymru. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf ym mis Mai 2020, ac yr oedd y strategaeth yn mynnu bod byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yn gweithio ynghyd i gyflwyno systemau sydd yn 'gwella gwyliadwriaeth iechyd yn y gymuned, yn olrhain cysylltiadau yn effeithiol a helaeth, ac yn cefnogi pobl i hunan-ynysu pan fo angen gwneud hynny' www.gov.wales/test-trace-protect.html.

Llynedd, cafwyd lefel ddigynsail o weithio mewn partneriaeth i gyflwyno hyn, gan greu ymateb cydlynus ac effeithiol ledled y rhanbarth. Ymysg y partneriaid yr oedd Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Cyd-Wasanaethau Rheoleiddio ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), yn ogystal â gwirfoddolwyr lleol a mudiadau gwirfoddol. Mae'r isod yn disgrifio rhai o'r llwyddiannau.

Profi

Dan arweiniad y Bwrdd Iechyd, a chan weithio gyda Microbioleg ICC ac awdurdodau lleol, yn ogystal â Llywodraeth Cymru ac ICC ledled Prydain, cynyddwyd y gallu i brofi yn lleol er



mwyn gallu cynnig profion PCR yr un dydd i unrhyw un sydd ei angen, yn unol â'r Cynllun Profi cenedlaethol. Sefydlwyd safleoedd profi gyrru a cherdded drwodd, ac y mae unedau profi symudol ar gael i'w defnyddio os bydd angen i ymateb i ddigwyddiadau o'r haint. Hefyd, mae tîm o nyrsys arbenigol ar gael i gynnal profion ar bobl yn eu cartrefi eu hunain os na fedrant deithio, neu i ymweld â mannau fel cartrefi gofal. Derbynnir 95% o ganlyniadau profion ymhen 24 awr. Hefyd, sefydlwyd profi Dyfais Llif Ochrol (DLIO) rheolaidd mewn cartrefi gofal, ysgolion ac ysbytai, ac y mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer gweithleoedd eraill.

Olrhain

Cyngor Caerdydd sy'n cynnal y gwasanaeth olrhain cysylltiadau i Gaerdydd a Bro Morgannwg ar ran y bartneriaeth. Hyfforddir staff i roi cyngor ar ynysu i unrhyw un gafodd brawf positif am COVID-19 a nodi â phwy y buont mewn cysylltiad tra'r oeddent yn heintus. Gofynnir i'r bob hyn wedyn hunanynysu gyda'r nod o atal unrhyw drosglwyddo pellach. Mae'r gwasanaeth olrhain cysylltiadau yn rhedeg o 8am tan 8pm, 7 diwrnod yr wythnos, a chafodd ei ehangu'n sylweddol yn yr hydref wrth i nifer yr achosion godi yn ystod yr ail don. Yn fwy diweddar, wrth i nifer yr achosion leihau, estynnwyd olrhain cysylltiadau i edrych yn ôl dros 14 diwrnod cyn i symptomau ymddangos er mwyn nodi ffynonellau posib yr heintiad; mae hyn yn cyfrannu at ostwng nifer yr achosion eto.

Mae'r wybodaeth a gesglir o olrhain cysylltiadau yn cael ei adolygu'n ddyddiol gan dîm amlddisgyblaethol arbenigol, fel bod clystyrau posib o heintiadau yn cael eu nodi, a'r camau priodol yn cael eu cymryd.

Hefyd, sefydlwyd proses gadarn i nodi clystyrau mewn gweithleoedd, ysgolion, mewn gofal iechyd ac ymysg myfyrwyr, er mwyn sicrhau ymateb ac ymyriad amserol; gall ymyriadau olygu rhoi cyngor ar wella mesurau rhag COVID-19 mewn gweithleoedd neu gynnig profion i adnabod pobl a all fod yn cludo'r feirws heb symptomau.

I ategu hyn, datblygwyd system gynhwysfawr o wylidwriaeth leol sy'n cadw llygad ar gyfres o ddangosyddion, gan gynnwys cyfradd achosion newydd, nifer derbyniadau i ysbytai a nifer od digwyddiadau mewn lleoliadau allweddol sydd, ynghyd â data a ddadansoddir yn genedlaethol, yn cael ei ddefnyddio i fod yn sail i'r ymateb ar hyd a lled Caerdydd a Bro Morgannwg. Sefydlwyd trefniadau llywodraethiant cryf fel bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar y cyd gyda'r holl bartneriaid yn rhan o hyn

Diogelu

Arweiniodd y ddau awdurdod lleol waith yng nghyfnodau cynnar y pandemig i gefnogi pobl oedd angen help i gysgodi, trwy wneud yn siwr eu bod yn gallu cael bwyd, meddyginiaeth ac anghenion eraill. Sefydlwyd llinellau cymorth dros y ffôn a threfnwyd system o gludo parseli bwyd. Estynnwyd y mecanweithiau cefnogi hynny i gefnogi'r sawl yr oedd gofyn iddynt hunan-ynysu. Hefyd, gwnaed trefniadau brys i gefnogi grwpiau bregus trwy gydol y flwyddyn, er enghraifft trwy drefnu llety diogel i'r rhai hynny oedd yn cysgu allan.

Yn olaf, sefydlwyd tîm cyfathrebu mewn partneriaeth i sicrhau bod gwybodaeth gyfoes a chywir am bob agwedd o brofi, olrhain cysylltiadau cefnogi a brechu yn cael ei rannu gyda'r bobl sy'n byw ac yn



gweithio yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Lle bo modd, nodir cyfleoedd i ymwneud ag unigolion a grwpiau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cwrdd â'u hanghenion.

Cychwynnodd y Bwrdd Iechyd ar eu rhaglen frechu dorfol ym mis Rhagfyr 2020. Yr oedd pedair canolfan frechu yn gweithredu'n llawn erbyn diwedd Mawrth 2021, yn ogystal â thimau symudol a chanolfannau brechu lleol. Mae'r rhaglen frechu hefyd wedi ei chefnogi gan ofal sylfaenol, gyda 59 practis meddyg teulu yn cefnogi brechu'r boblogaeth leol. Hyd at ddiwedd Mawrth 2021, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno **196,444** dos gyntaf (**50%** o'r holl oedolion yn ein poblogaeth) a **65,155** ail ddos.


Gwrando ar grwpiau na chlywir eu lleisiau yn aml fel rhan o raglen frechu COVID-19. Mae'r term 'grwpiau na chlywir eu lleisiau' yn aml yn cyfeirio at bobl a dangynrychiolir sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Gall llawer o ffactorau gyfrannu at anwybyddu lleisiau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gan gynnwys: anabledd, ethnigrwydd, rhywioldeb, nam cyfathrebu, problemau iechyd meddwl, digartrefedd, pellter daearyddol.

Gan gydweithio â'n partneriaid, rydym wedi datblygu cynlluniau i gyrraedd y grwpiau isod:

- Pobl ddigartref
- Teithwyr
- Ceiswyr lloches
- Cymunedau Du, Asiaidd neu o Leiafrifoedd Ethnig
- Gofalwyr
- Pobl â nam synhwyaidd
- Cymunedau trawsryweddol
- Pobl a rhai cyflyrau iechyd meddwl
- Gweithwyr rhyw

Cyrraedd Trwy Dîm Profiadau'r Cleifion ac ar y cyd â'n partneriaid, buom yn ymwneud â grwpiau na chlywir eu lleisiau yn aml i ddeall eu hanghenion, eu hawydd i gael eu brechu a'r ffyrdd mwyaf priodol o'u cyrraedd. Rydym yn rhoi agweddau wedi eu teilwrio ar waith i bob grŵp – gan dynnu ar y gallu/sianel gweithredol mwyaf perthnasol a thrwy gydweithio â'n partneriaid.

Datblygir y cynlluniau hyn trwy gydweithrediad gyda'n partneriaid



Rydym wedi brechu mewn llochesi i'r digartref, safleoedd teithwyr, y Ganolfan Indiaidd gyda chefnogaeth y Gymdeithas Brydeinig o Ffisegwyr o Darddiad Indiaidd, a sawl Mosg. Rydym wedi sefydlu rhaglenni cyson o sesiynau brechu.

Rydym wedi brechu gweithwyr rhyw trwy glinig galw heibio a gefnogir gan Street Life. Buom yn cysylltu â pharlyrau lleol lle mae gweithwyr rhyw wedi eu lleoli.

Gwnaethom gynnal clinig brechu i ddynion ac i fenywod mewn Mosg dros benwythnos y Pasg.

Rydym wedi adnabod y 1,750 o bobl yng Nghaerdydd a'r Fro sy'n geiswyr lloches ac y mae sesiynau brechu wedi'u targedu ar y gweill.



Rhoesom ffurflen gofalwr di-dâl ar waith, gyda'r dewis o'i gwblhau dros y ffôn trwy ein llinell gymorth frechu torfol 7-diwrnod


Fe wnaethom yn siŵr y gall ein cymuned fyddar gyrchu ein canolfan gyswllt a'r llinellau ffôn brechu torfol trwy rif ffôn arwyddo byw (sy'n darparu cyfieithydd IAP ar y lein).

Ym mhob canolfan frechu torfol mae gennym ddyfeisiadau tabled i roi fersiynau sain o daflenni ym mhob iaith, dehongliad IAP a llinell iaith 24 awr i gyfieithwyr ar gyfer pob gofyniad iaith.



Mae gennym beiriannau adborth ym mhob canolfan Brechu Torfol i ddal profiad y cleifion a manylion eu hethnigrwydd wrth i bobl ddefnyddio'r canolfannau.

Yr oeddem yn cydnabod y gall canolfannau brechu fod yn amgylcheddau anodd iawn i rai pobl ag anableddau dysgu – rydym yn annog cysylltiad â'n tîm os bydd apwyntiad mewn canolfan wedi ei gynllunio yn briodol, a fyddai meddyg teulu neu fferylllydd lleol yn well, neu a oes angen ymweld â'r cartref.



Paratowyd gwybodaeth mewn nifer o ieithoedd i'w gosod mewn siopau a mannau addoli aml-ffydd mewn cymunedau lleol. Wrth i ni symud at garfannau iau, rydym yn cydnabod yr angen i adnabod dylanwadwyr cymdeithasol a chadw mewn cof bwysigrwydd negeseuon am amddiffyn eraill. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i fod yn hyblyg gydag apwyntiadau, gan y bydd llawer yn gweithio neu ag ymrwymïadau gofal plant ac ati.



3.5 Ail-ddylunio gwasanaethau aciwt i roi gofal COVID-19

Rhoddwyd cynllun tri-chyfnod yn ei le ar fyrder gan y Bwrdd Iechyd er mwyn i ymateb i effaith yr ymchwydd disgwylidig yn y galw:

- Cyfnod 1 – Ailbwrpasu a gallu a chreu parthau
- Cyfnod 2 – Comisiynu mwy o allu gweithredol yng nghyfleusterau'r Bwrdd Iechyd
- Cyfnod 3 – Comisiynu gallu 'In extremis' o'r tu allan i gyfleusterau'r Bwrdd Iechyd

Dyma rai llwyddiannau allweddol:

- Ail-bwrpasu dros 300 o welyau ychwanegol ar safleoedd presennol i garfannau cleifion COVID-19,
- Ehangu'r gallu gofal critigol i 85 gwely, cynnydd o 124%,
- Symudwyd nifer o wasanaethau i ganiatáu ehangu gwasanaethau hanfodol, er enghraifft, trosglwyddwyd y clinig toresgyrn yn YAC i YALL,
- Ail-gomisiynwyd dwy ward mewn ysbytai cymuned a chomisiynwyd dwy ardal arall – un yn YAC ac un yn YALL – yn wardiau ychwanegol,
- Comisiynwyd cyfleuster 1,500 gwely yn Ysbyty Calon y Ddraig, ysbyty maes yn Stadiwm y Principality– gyda'r claf cyntaf yn cael ei dderbyn ar 28 Ebrill 2020. Cytunodd y Bwrdd Iechyd gyda Llywodraeth Cymru a'r WRU i ddatgomiynu'r cyfleuster hwn fel Ysbyty Maes o 12 Tachwedd 2020,

- Adeiladu a chomisiynu cyfleuster ymchwydd 400 gwely dros dro – Adain Glan Llyn – ar safle YAC– gyda'r claf cyntaf yn cael ei dderbyn ar 27 Rhagfyr 2020.

Yn Awst 2020, gweithredodd y Bwrdd Iechyd CAV 24/7 – agwedd newydd, arloesol at y ffordd mae cleifion yn mynd at ofal brys. Yn draddodiadol, mae cleifion wedi gallu mynd i'r adran frys trwy gerdded i mewn i'w Huned Frys (UF) leol neu'r adran ddamweiniau. Mae'r **system 'ffonio gyntaf'** yn cymryd lle hyn i achosion heb fod yn rhai brys trwy annog cleifion i ffonio ymlaen llaw, ac os bydd angen, cânt slot amser wedi ei archebu. Ar gyfartaledd, mae' gwasanaeth wedi bod yn derbyn 180 galwad y dydd.





3.6 Cynllunio a chyflwyno diogel, effeithiol a safonol am ofal heb fod yn COVID-19

Cyflwyno camau rheoli heintiad i roi gofal COVID-19 a heb fod yn COVID-19

Trwy gydol y pandemig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd ar ôl dewisiadau er mwyn cynnal gwasanaethau hanfodol a rhai heb fod yn hanfodol. Elfen ganolog i'r ymateb hwn oedd creu parthau unsydd 'gwyrrdd' ac 'oren' ar safle'r ddau ysbyty aciwt i gefnogi gwahanu cleifion oedd â COVID-19 a rhai heb COVID-19, a thrwy hynny leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19. Bwriadwyd datblygu Unedau Llawdriniaethau Dewisol Gwarchodedig (parthau gwyrdd / ULIDG) yn benodol fel 'ysbyty y tu mewn i ysbyty', gan gynnwys mynediad, cyfleusterau, prosesau a staff ar wahân. Cefnogwyd hyn gan broses archwilio clinigol systemaidd i ddal holl ddeilliannau'r cleifion a gafodd lawdriniaeth yn y parth gwyrdd.

Sefydlodd y Bwrdd Iechyd Gell PPE amlldisgyblaethol sef IPaC, Iechyd a Diogelwch, Diogelwch Cleifion, Caffael, ac Uwch-Ymgynghorwyr a Gweithwyr Clinigol o'r gwasanaeth. Dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol, roeddent yn cyfarfod yn wythnosol ar ddechrau'r pandemig, gan drafod materion yn ymwneud a chaffael, atal a rheoli heintiad, profion addasrwydd a hyfforddiant, a monitro pob digwyddiad y cafwyd adroddiad amdano. Yr oedd materion gweithredol o ddydd i ddydd yn cael eu rheoli gan y Tîm Iechyd a Diogelwch i wneud yn siŵr bod yr holl PPE oedd ar gael yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth. Buddsoddodd y Bwrdd yn sylweddol

mewn PPE i'r staff ac ar waethaf yr her o geisio cael rhai cynhyrchion yn rhyngwladol, ni fu erioed brinder PPE i'r staff. Cafodd problemau cychwynnol gyda dosbarthu doeth eu trin, a bu'r Gell PPE yn fforwm effeithiol ac effeithlon i oruchwyllo caffael, defnyddio a dosbarthu PPE yn ddiogel. Derbyniodd y Bwrdd adroddiad llawn am ddarpariaeth PPE yn eu cyfarfod ar Fai 2020. Mae'r Gell PPE yn parhau i gyfarfod.

3.7 Cyflwyno gwasanaethau hanfodol

Trwy gydol y pandemig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal mynediad at wasanaethau brys ac argyfwng hanfodol gan gynnwys llawdriniaethau brys ac argyfwng, gofal y llygaid, triniaethau canser, gofal annisgwyl ac iechyd meddwl.

Cadwodd y Bwrdd Iechyd fynediad at lawdriniaethau brys ac argyfwng trwy Unedau Llawdriniaethau Dewisol Gwarchodedig, gyda bron i 5,000 o driniaethau yn cael eu cynnal yn y naw mis hyd at Ragfyr 2020, gyda chyfradd ganslo is o lawer (6% am Fawrth i Ragfyr 2020 o gymharu ag 18% am yr un cyfnod yn 2019) a dim heintiadau. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd hefyd y defnydd mwyaf o allu'r sector annibynnol, gan gynnwys ysbytai lleol yn y sector annibynnol, defnydd mewnol o endosgopi a defnyddio sganiwr MRI symudol. Cafodd 10,074 o gleifion eu gweld a'u trin yn Spire Health o Ebrill i Ragfyr 2020. Achosion canser oedd 43% o'r achosion gafodd lawdriniaeth, a'r 57% yn llawdriniaethau brys. Yr oedd dros 90% o gleifion allanol a welwyd yn Spire Caerdydd yn gleifion offthalmoleg brys, haematoleg



glinigol a chanser y fron. Dechreuodd y Bwrdd Iechyd gael adnoddau mewnol endosgopi ym mis Ionawr 2021 - gan drin rhwng 200-300 o achosion y mis.

Seiliwyd blaenoriaethu cleifion ar y brys clinigol yn hytrach na thargedau seiliedig ar amser. I gleifion oedd yn aros am lawdriniaethau, defnyddiodd y Bwrdd Iechyd Ganllaw Clinigol Coleg Brenhinol y Llawfeddygon ar flaenoriaethu llawdriniaethol yn ystod y pandemig i gefnogi neilltuo lefelau blaenoriaeth ac amserlenni ar gyfer pob triniaeth lawfeddygol.

Bu digidol yn alluogwr allweddol o gyflwyno gwasanaethau yn ystod y pandemig gyda'r Bwrdd Iechyd yn cyflymu'r defnydd o weithio rhithiol trwy fabwysiadu a chyflwyno "AttendAnywhere", llwyfan ymgynghori fideo, ac apwyntiadau dros y ffôn. Mae traean o weithgaredd cleifion allanol yn awr yn digwydd yn rhithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyflwyno Consultant Connect, llwyfan i gefnogi cyngor a chanllawiau mwy amserol rhwng gweithwyr clinigol gofal sylfaenol ac eilaidd i 22 o feysydd arbenigol hyd yma.

Mae See on Symptoms a dilyniant a sbardunir gan gleifion, modelau amgen o ofal yn hytrach na'r agwedd draddodiadol at gleifion allanol, wedi eu cyflwyno yn gynt i leihau apwyntiadau dilynol diangen a sicrhau bod dilyniant amserol yn digwydd i'r cleifion hynny sydd angen eu gweld. Dros y misoedd diwethaf, trosglwyddwyd dros 4,000 o gleifion y mis i'r model gofal hwn.

Mae'r agwedd a amlinellir uchod wedi sicrhau bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno cymaint o weithgaredd dewisol heb fod yn ymwneud â COVID-19 ag sydd modd. Dyma rai dangosyddion gweithgaredd allweddol:

- Mae gweithgaredd cleifion allanol ar 84% o lefelau cyn COVID-19 wedi gostyngiad cychwynnol i 29% yn Ebrill 2020,
- Mae derbyniadau cleifion mewnol dewisol ac achosion dydd ar 72% o lefelau cyn COVID-19 wedi gostyngiad cychwynnol i 27% yn Ebrill 2020,
- Dychwelodd gweithgaredd radioleg i ryw 90% o lefelau cyn COVID-19 ac y mae endoscopi ar 85%.

Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal mynediad at wasanaethau gofal cynlluniedig hanfodol trwy gydol y pandemig a gwasanaethau heb fod yn hanfodol pan mae'n ddiogel gwneud hynny, mae'r effaith cyffredinol o ran atal neu leihau gweithgaredd yn arwyddocaol. Er nad yw rhestrau aros wedi cynyddu'n esbonyddol, mae cleifion yn awr aros yn hwy cyn cael eu gweld a'u trin, yn enwedig y rhai ar lwybr Amser Cyfeirio at Driniaeth, llwybr dilynol cleifion allanol, a llwybr diagnostig. Fel ar ddiwedd Mawrth 2021:

- Yr oedd 92,286 o gleifion ar y rhestr aros CAD, gyda 32,938 o gleifion yn aros mwy na 36 wythnos – cynnydd o 29,423 ers diwedd Mawrth 2020 pan oedd 3,515 o gleifion yn aros mwy na 36 wythnos,



- Cynyddodd nifer y cleifion oedd yn aros dros 8 wythnos am brawf diagnostig o 782 ym Mawrth 2020 i 4,547 ar ddiwedd Mawrth 2021,
- Tra bod swm y cleifion oedd yn aros am apwyntiad dilynol ar ddiwedd Mawrth 2021 wedi gostwng i 170,453 (183,412 ar ddiwedd Mawrth 2020), cafodd 49,862 o gleifion oedi o 100% – cynnydd o 5,343 o gymharu â Mawrth 2020 (44,519 o gleifion).

Parhaodd y Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau gofal llygaidd hanfodol trwy gydol y pandemig. Ar ddiwedd Mawrth 2021, yr oedd gan 96.4% o lwybrau cleifion a aseswyd fel Ffactor Risg Iechyd R1 ddyddiad targed wedi ei neilltuo ac yr oedd 60.4% a aseswyd fel R1 yn aros o fewn eu dyddiad targed neu o fewn 25% y tu hwnt i'w dyddiad targed. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cydymffurfio R1 wedi amrywio rhwng 50.4% a 60.4%.

Yr oedd cyfeiriadau cleifion yr amheuwyd fod cancer arnynt wedi gostwng yn sylweddol ar gychwyn y pandemig, ond yn dilyn ymgyrch gyfathrebu ragweithiol dan arweiniad gofal sylfaenol, maent wedi cynyddu'n raddol. Am y cyfnod Ebrill 2020 i Chwefror 2021, mae cyfeiriadau ar 81% o lefelau disgwylidig. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynnal gweithgaredd cancer trwy gydol yr amser, ac o Ragfyr 2020, yn unol â gweddill Cymru, symudwyd i'r Llwybr Cancer Unigol (LICU) yn unig. Mae lefelau triniaeth eleni ar 90% o lefelau cyn COVID-19, gyda 160 triniaeth y mis. Er y llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gynnal gweithgaredd triniaeth a chyfraddau cyfeirio, mae'r gwaith oedd wedi cronni ac amser

triniaethau, yn ystod rhai misoedd, wedi golygu bod cydymffurfio â thargedau cancer wedi gostwng. Mae cydymffurfio â'r LICU am Ebrill 2020 at Chwefror 2021 wedi amrywio o 53.9% i 81.2%.

Er bod y niferoedd ddaeth i'n Hunedau Brys wedi gostwng yn sylweddol ar ddechrau'r pandemig, maent bellach wedi cynyddu'n sylweddol - er i lefelau is na'r hyn oeddent yn flaenorol. Yn 2020/21, daeth 106,324 o gleifion i'n Huned Frys o gymharu â 149,874 yn 2019/20. Cafodd 81.42% o'n cleifion eu gweld, eu derbyn neu eu rhyddhau ymhen 4 awr a bu'n rhaid i 1,456 o gleifion aros mwy na 12 awr. Gostyngodd amseroedd oedi cyn trosglwyddo o'r ambiwlans o gymharu â llynedd, gyda 1,949 yn aros dros awr, o gymharu â 4,333 y flwyddyn flaenorol.

Mae gwasanaethau iechyd meddwl wedi parhau. Yn gynnar yn y pandemig, cynhaliodd y gwasanaeth waith i adolygu'r twf disgwylidig wrth i effeithiau seicolegol y pandemig ddod yn amlwg, ac yr oedd hyn yn sail i'r ymateb. Yr oedd hyn yn galw am ffyrdd newydd o weithio, ac ehangu gwasanaethau o gwmpas y model gwasanaeth haen is er mwyn caniatáu'r isafswm ymyriad mor gynnar ag oedd modd.



Yr oedd yr ymateb yn cynnwys agwedd seiliedig ar yr holl boblogaeth yn ogystal â rhai gwasanaethau arbenigol wedi eu targedu, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ofal sylfaenol. Cymerodd y gwasanaeth hefyd at weithio rhithiol gyda'r gwasanaeth yn gwneud y defnydd mwyaf o ymgynghoriadau fideo "AttendAnywhere" yn y Bwrdd Iechyd.


I ddechrau, cafwyd llai o gyfeiriadau iechyd meddwl. O fis Mai ymlaen, dechreuodd y gwasanaeth weld mwy o alw am gyfeiriadau, ac o fis Awst ymlaen, mae'r galw wedi codi i lefelau digynsail. Arweiniodd hyn at bwysau ar wasanaethau iechyd meddwl. Bu hyn yn ffactor a gyfrannodd at ddirywiad mewn cydymffurfio â mynediad 28-diwrnod at wasanaethau iechyd meddwl.

4. Unioni Pethau (UP)

Mae'r Tîm Pryderon canolog wedi parhau i weithio yn unol â'r Rheoliadau Unioni Pethau (UP).

Ar ddechrau'r pandemig, ysgrifennodd y Tîm Pryderon at bawb oedd â phryder oedd ar waith i ddweud wrthynt er, yn ystod yr amser hwn, y gall ein hymatebion gymryd mwy o amser nag y buasem yn dymuno, roeddem eisiau tawelu meddyliau pobl nad oeddem wedi eu hanghofio a'n bod yn dal yn ymrwymedig i ymateb i'w pryderon.

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021 gwnaethom dderbyn 3,210 pryder, sy'n gynnydd o 3,166 o'i gymharu â 2019-2020. Dylid nodi, ar gychwyn y pandemig, fod gostyngiad mewn pryderon; fodd bynnag, gwelwyd cynnydd yn y duedd:



Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cau 3,142 o bryderon yn ystod y cyfnod.


Mewn rhyw 30 o achosion, nodwyd methiannau, gyda 12 yn tanio rhan 6 y rheoliadau a pharheir i'w rheoli dan y cynllun Gwneud lawn. Pan gwblhawyd ymchwilio i 4 achos lle nodwyd methiannau mewn gofal a'u bod wedi eu hystyried allan o werth, dywedwyd wrth achwynwyr mai'r peth gorau iddynt fuasai cychwyn hawliad sifil.

- Cyfeiriwyd 0.6 % (19) o achosion at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) (yr Ombwdsmon) yn ystod y cyfnod hwn,
- Cadarnhawyd 1 yn rhannol gan yr Ombwdsmon,
- Mae 4 yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan yr Ombwdsmon.


Ni wnaeth yr Ombwdsmon i'r 14 achos arall am eu bod yn Gynamserol ac na chafodd y BI gyfle i ymateb yn llawn i bryderon cyfredol a godwyd gyda'r Ombwdsmon.

Perfformiad

Er nad oes unrhyw ddata meincnodi wedi ei gyhoeddi ynghylch perfformiad pryderon ledled Cymru, pleser yw nodi, ar waethaf y galwadau ar y Bwrdd Iechyd, ein bod yn gyson yn cadw at berfformiad 30 diwrnod gwaith, sy'n well na tharged Llywodraeth Cymru o 75%.



Themâu Pryder



Mae cleifion yn lleisio pryderon am oedi mewn apwyntiadau dilynol a thriniaethau a gynlluniwyd, yn enwedig llawdriniaethau dewisol penodol. Mewn ymgais i geisio rheoli disgwyliadau'r cleifion, mae'r Gyfarwyddiaeth Trawma ac Orthopedig wedi cysylltu â chleifion ar y rhestr aros i ymddiheuro am yr oedi a rhoi cyfoesiad. Gwnaed rhai triniaethau yn y Spire. Trwy'r gwaith Cynadsefydlu at Adsefydlu, rydym

wedi cysylltu â chleifion ar restrau aros dewisol a rhoddwyd rhif ffôn cyswllt Profiad y Cleifion iddynt i siarad ag aelod o'r tîm petae ganddynt unrhyw ymholiadau. Bu'r adborth yn gadarnhaol iawn, ac yr oedd cleifion yn gwerthfawrogi'r ffaith nad oeddent wedi eu hanghofio a'u bod ar restr aros. Mae'r rhaglen yn rhoi gwybodaeth am wella a chynnal dull iach o fyw tra'u bod yn aros am lawdriniaeth. Y canolbwynt yw ar bobl yn gweld rhestr aros fel rhestr baratoi ac annog pobl i fod mor iach ag sydd modd ar gyfer llawdriniaeth os bydd angen.

Cafwyd cryn gynnydd yn nifer y pryderon am gyfathrebu gwaeth, yn enwedig o ran diffyg gwybodaeth pan fo teuluoedd yn poeni am eu hanwyliaid, anallu i gysylltu'n uniongyrchol â wardiau dros y ffôn a diffyg cyfathrebu ynghylch trefniadau rhyddhau.

Er mwyn ymdrin â phryderon neu eu lleihau a gwella cyfathrebu, rhoes y Tîm Pryderon fodel gweithio 7 diwrnod ers Mawrth 2020 i gefnogi/hwyluso cyfathrebu rhwng wardiau a pherthnasau.

Mae Tîm Profiadau'r Cleifion hefyd wedi cefnogi Ymweld Rhithiol sydd wedi helpu i liniaru pryderon ynghylch perthnasau yn methu ymweld yn ystod y cyfnod anodd iawn hwn. Er mwyn hwyluso ymweld lle bo modd, mae'r Tîm Pryderon yn darparu llinell gymorth archebu 7 diwrnod i gefnogi hyn – ar gyfartaledd, rydym yn derbyn dros 100 o alwadau y dydd.

Oherwydd nifer uchel yr ymholiadau, rhyw 120 galwad y dydd, ynghylch rhaglen frechu COVID-19, mae'r Tîm Pryderon ar hyn o bryd yn cynnal y llinell ymholiadau am frechu 7 diwrnod yr wythnos. Mae hyn yn gyfle i dawelu meddyliau aelodau'r cyhoedd ynghylch pryd i dderbyn y brechiad, i gael

eu cyfeirio yn briodol a hwyluso trefniadau i gleifion ag anghenion mwy cymhleth.

Mae ymwelwyr a staff yn mynegi pryderon am staff yn peidio â chadw at reolau ymbellhau cymdeithasol. I ymdrin â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i amlygu pwysigrwydd ymbellhau cymdeithasol yn y CEO Connects ac ar bosteri a arddangosir ar draws pob safle. Mae'r Uwch Swyddogion a'r Tîm Cyfathrebu yn parhau i atgoffa pobl o bwysigrwydd ymbellhau cymdeithasol trwy'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau eraill. Bydd y Tîm Cyfathrebu yn anfon negeseuon atgoffa am ymbellhau cymdeithasol trwy bob cyfrwng sydd ar gael.

5. Cyflwyno mewn Partneriaeth

Rhoddodd COVID-19 straen enfawr ar ein darpariaethau gwasanaeth iechyd, gan roi prawf ar ein gallu i ymaddasu, gwneud penderfyniadau sydyn a darganfod ffyrdd newydd do weithio i amddiffyn poblogaeth cleifion Caerdydd a Bro Morgannwg.

Rydym wedi esblygu, wedi dod ynghyd ac fe gareu fynegi ein gwerthfawrogiad, diolchgarwch ac edmygedd di-ben-draw i staff y GIG sydd wedi ein galluogi i roi ymateb digynsail ac wedi dangos gwaith tîm, gwytnwch a chydweithio gyda'n gilydd. Rydym yn wir wedi ein hysbrydoli gan ymrwymiad personol ein gweithlu i wneud gwahaniaeth yn ystod yr amseroedd heriol hyn a'r enghreifftiau o ddarganfod ffyrdd o fod yn hyblyg, gwneud pethau'n wahanol, a gwella'n gyson sydd yn gwneud i ni deimlo mor falch. #DiolchGIG

Mae'n bwysig hefyd talu teyrnged i'r modd

y mae gwasanaethau cenedlaethol a lleol wedi cydweithio i'n cefnogi i ymateb i heriau COVID-19, gan gynnwys staff o ofal cymdeithasol, cartrefi nyrsio, iechyd cyhoeddus, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a chymunedol, myfyrwyr a phrifysgolion. Rydym wedi gweld cyfeillgarwch wrth gyflawni tasgau a chyflwyno pethau gwyh mewn partneriaeth a thrwy arwain ar y cyd.

6. Rheolaeth a Lles y Gweithlu

Wynebodd y Bwrdd Iechyd un o'i heriau staffio mwyaf sylweddol yn ystod y pandemig COVID-19 oherwydd, yn ogystal ag wynebu ei gyfraddau salwch uchaf erioed, sef 8.39%. Yr oedd llawer iawn o staff yn methu dod i'r gwaith am eu bod yn hunan-ynysu neu'n cysgodi. Yr oedd ein ffynonellau arferol o staff dros dro megis ein banc nyrsys ac asiantaethau allanol hefyd yn wynebu problemau tebyg, ynghyd â galw na welwyd erioed mo'i fath o bob sector o ofal iechyd. Her arall oedd y cynnydd a ragwelwyd mewn cleifion COVID-19 a'r staff ychwanegol fyddai eu hangen i ddarparu gofal yn ysbyty maes Calon y Ddraig.

Ar waethaf yr heriau hyn, datblygodd y Bwrdd Iechyd gynllun clir i sicrhau y buasem yn parhau i ddarparu **lefelau staffio diogel** i'n cleifion. Gwnaed hyn fel a ganlyn:

- Adnabod yr aelodau hynny o staff y gellid eu symud i ofalu am y cleifion COVID-19. Yr oedd hyn yn cynnwys staff mewn meysydd lle'r oedd gweithgaredd dewisol naill ai wedi gostwng neu ei atal.
- Defnyddio nyrsys nad ydynt ar wardiau i wardiau yn dilyn hyfforddiant gloywi ar rybudd byr iawn, er enghraifft, Nyrsys Clinigol Arbenigol



- Apelio at y gweithwyr clinigol hynny oedd wedi ymddeol ac a allai ddychwelyd i waith dros dro.
- Datblygu canolfan gweithlu yn un swydd i recriwtio nifer fawr o staff mewn cyfnod byr iawn. Hyd yma, recriwtiwyd dros 2,000 aelod o staff, ac y mae llawer ohonynt wedi cael swyddi parhaol yn y Bwrdd Iechyd.
- Rhaglen dreigl o recriwtio nyrsys.
- Defnyddio myfyrwyr nyrsio a meddygol fel cronfa dros dro o staff.
- Defnyddio staff meddygol lle'r oedd yr angen clinigol fwyaf.

Bu adegau yn ystod y 12 mis a aeth heibio lle'r oedd darparu digon o staff i gynnal lefelau diogel o ofal yn heriol dros ben; fodd bynnag, yr oedd ymdrechion y sawl oedd yn gweithio yn y meysydd hyn ac yn eu rheoli wedi sicrhau bod popeth wedi ei wneud i gadw ein cleifion yn ddiogel.



6.1 Nodi a hyfforddi staff i ymgymryd â swyddogaethau newydd

Ym Mawrth 2020 nododd trafodaethau gyda'r gweithlu, arweinwyr nyrsio proffesiynol a gweithwyr iechyd cysylltiedig angen am addysg frys i ymateb i don gyntaf y pandemig.

Dyma'r grwpiau staff allweddol oedd angen hyfforddiant:

- Nyrsys heb fod ar y wardiau (e.e. nyrsys clinigol arbenigol, nyrsys ymchwil a nyrsys clinig) oedd yn cael eu hail-gyfeirio at waith ward
- Gweithwyr Cefnogi Gofal Iechyd (GCGI) newydd eu recriwtio i nyrsio trwy recriwtio torfol a chymorthyddion GIPC newydd eu recriwtio
- Nyrsys y Bwrdd Iechyd oedd yn cael eu hail-gyfeirio at ofal critigol. Yn ystod y don gyntaf, gweithiodd Prifysgol Caerdydd hefyd gyda'r Nyrs Ymgynghorol dros Ofal Critigol gan ddarparu addysg arbenigol mewn gofal critigol i'r grŵp hwn
- Nyrsys tramor oedd wedi ymuno â chofrestr dros dro y CNB
- Gwirfoddolwyr Brigâd Ambiwylans Sant Ioan oedd yn cefnogi Ysbyty Maes Calon y Ddraig ac Adain Glan Llyn
- Nyrsys cofrestredig oedd wedi ymuno â chofrestr dros dro y CNB i gefnogi'r Bwrdd Iechyd yn ystod y pandemig
- Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Cysylltiol (GIPC) oedd yn cefnogi fel GCGI ar wardiau neu'r tîm gofal critigol (Nyrsys deintyddol, awdiolegwyr a phodiatriyddion)
- Nyrsys pediatrig, llawfeddygol ac iechyd meddwl oedd wedi eu hail-gyfeirio i feysydd meddygol oedolion
- 430 o fyfyrwyr nyrsio a ddewisodd ymuno a'r Bwrdd Iechyd fel gweithwyr dan safonau Addysg Argyfwng y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB)



Parhaodd yr hyfforddiant trwy'r don gyntaf a'r ail, ac yr oedd yn golygu:

Cynefino i Weithwyr Cefnogi Gofal Iechyd	Rhaglen gynefino fyrrach 2.5-diwrnod GCGI yn ymdrin â sylfeini gofal, i gefnogi recriwtio torfol ac ail-gyfeirio GIPC i waith mewn wardiau
Trin â Llaw	Datblygwyd a chyflwyno gweithdy hanner diwrnod ar drin â llaw gan yr Uned Hyfforddi Iechyd a Diogelwch i ofalu bod gan y staff y sgiliau iawn
Rhaglen sgiliau hanfodol dau-gyfnod	I nyrsys cofrestredig. Cyflwynwyd ar y cyd â'r Timau Dadebru, Peirianeg Feddygol, Gofal Lliniarol a Phrofi ar Bwynt Gofal. Darparodd Prifysgol Caerdydd hefyd diwtoriaid sgiliau clinigol i helpu gyda'r hyfforddiant a rhyddhawyd Ymgynghorydd Diogelwch Cleifion o'r Bwrdd Iechyd i roi cefnogaeth.
Gweithdai Cynefino i Fyfirwyr	Darparu addysg hanfodol cysylltiedig â COVID-19. Gweithiodd y tîm LED gyda'r Cyfarwyddwyr Nyrsio i leoli'r myfirwyr gan weithio gyda'r gweithlu a Phrifysgol Caerdydd ar faterion cyhoeddi contractau myfirwyr, defnyddio a therfynu contractau.
Ambiwlans Sant Ioan	Gweithdai gofal sylfaenol – cyflwynwyd fel rhan o hyfforddiant cynefino GCGI.
ProffonFit	Gweithiodd LED hefyd ar y cyd â'r timau Nyrsio Corfforaethol ac Addysg Feddygol i gynnal profion fit ac y maent yn dal i gefnogi'r Uned Hyfforddi Iechyd a Diogelwch gyda'r swyddogaeth hwn.

Yn 2020 cyflwynodd y llywodraeth ddeddfwriaeth frys i ganiatáu i gyrff proffesiynol greu **cofrestr COVID-19** dros dro. Golygodd y ddeddfwriaeth y gallai cyrff fel y CMC a'r CNB fel cam dros dro ail-gofrestru unigolion cymwys, addas a phrofiadol, fel bod modd iddynt helpu gyda'r pandemig coronafeirws petaent am wneud hynny. Yr oedd hyn yn cynnwys staff oedd wedi ymddeol ond yn dymuno dychwelyd i weithio dros dro. Cysylltodd y CNB a phob nyrs yr oedd eu cofrestriad wedi dod i ben yn ystod y 3 blynedd a aeth heibio i holi a fuasent yn dymuno cael eu hail-gofrestru ar y gofrestr COVID-19 dros dro. Cysylltodd y Canolfannau Gweithlu Meddygol a Nyrsio â phawb yn lleol oedd wedi cofrestru, ac arweiniodd hyn at recriwtio 4 Meddyg Ymgynghorol a 10 nyrs oedd wedi ymddeol. Aeth yr holl nyrsys i weithio yn Uned Brofi Caerdydd a/neu'r Rhaglen Brechu Dorfol.

Yn ychwanegol at y rhai cofrestredig oedd wedi ymddeol, recriwtiodd y Ganolfan Gweithlu Meddygol 25 o feddygon Ymgynghorol a 214 meddyg iau, a thrwy weithio'n agos gyda Phrifysgol Caerdydd ac Addysg feddygol, medrodd y ganolfan gymryd 138 o fyfirwyr meddygol. Ym mis Mawrth 2021 yr oedd 75 o feddygon yn gweithio dros dro ar Frechu Torfol.

Llynedd, rhoddodd y Bwrdd Iechyd flaenoriaeth i amrywiaeth o adnoddau i gefnogi **iechyd a lles ein gweithlu** yn ystod COVID-19, a rhoi hyn ar waith. Mae'r gwaith hwn yn dal yn flaenoriaeth, am ein bod yn cydnabod pwysigrwydd parhau i gefnogi ein staff a'u hanghenion lles.

Yn ystod y don gyntaf, llethwyd y Bwrdd Iechyd gan roddion o anrhegion, bwyd a diod gan y cyhoedd a mudiadau eraill, a



dderbyniwyd ac a ddosbarthwyd i'r staff ar draws pob safle gan Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro. Dosbarthodd yr elusen dros 70,000 o brydau i staff fel rhan o'u hymgyrch Lledaenu'r Cariad.

Yr oedd grŵp Lles strategol dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Gweithlu wedi galluogi i benderfyniadau a chymau gael eu cymryd ar frys er lles y staff.

Yr oedd lles meddyliol y staff yn ganolbwynt arbennig i'r Bwrdd Iechyd yn ystod ymchwydd y pandemig. Er mwyn cefnogi cymaint o aelodau staff ag oedd modd, gweithiodd Dr Julie Highfield, seicolegydd clinigol yn BIP Caerdydd a'r Fro ar y cyd â'r gwasanaeth lles mewnol i ddatblygu cyfres o daflenni ffeithiol gyda syniadau i'r staff reoli eu hiechyd meddwl yn well yng nghydestun sefyllfaoedd penodol yn ymwneud a coronafeirws. Ymysg enghreifftiau yr oedd rhestr wirio lles ar ddiwedd shift, canllawiau penodol i reolwyr ynghylch galar a phrofedigaeth, a syniadau am les i staff oedd yn gweithio o gartref. Cynyddodd y Bwrdd Iechyd hefyd allu ei Wasanaeth Lles Gweithwyr wrth i seicolegwyr ac aelodau eraill o staff o adrannau eraill fynd i weithio yno; gweithredodd gefnogaeth seicolegol dros y ffôn i staff.

Gweithiodd y tîm iechyd galwedigaethol gyda'r adran dermatoleg i greu llwybr sydyn i'r staff oedd a chyflyrau ar y croen cysylltiedig â defnyddio PPE a golchi dwylo yn amlach. Cydnabuwyd y darn hwn o waith fel arfer da yn y BMJ 2020.

Er mwyn ateb anghenion staff y Bwrdd Iechyd yn ystod COVID-19, trefnodd y Bwrdd Iechyd nifer o newidiadau i'w safleoedd. Trefnodd i atal cyfyngiadau parcio ar ei

safleoedd fel y gallai staff barcio yn unrhyw le oedd ar gael, boed ganddynt drwydded neu beidio. Oherwydd bod ymwelwyr a chleifion wedi peidio â dod i'r ysbyty yn rheolaidd, sicrhodd y fenter hon fod parcio ar y safle mor rhwydd a chyfleus ag oedd modd i'r staff ac na fuasent yn cael eu cosbi am barcio mewn llefydd i ymwelwyr. Ymhellach, trefnodd tîm Cyfalaf, Stadau a Chyfleusterau'r Bwrdd Iechyd i fwyd poeth gael ei ddarparu am 24 awr ym mwyty Ysbyty Athrofaol Cymru, Y Gegin, a'r bwyty yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau. Yr oedd y tîm hefyd wedi cynllunio a gosod cyfleusterau cawod yn YAC ac YALL fel y gallai'r staff gael cawod cyn gadael y safle ar ôl eu shift. Gwnaed cyfleusterau newid ar gael i staff hefyd ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd. Hefyd, darparodd y Bwrdd Iechyd wasanaeth archebu llety i staff oedd angen rhywle i aros ar frys wedi iddynt weithio yn yr ysbyty neu os oedd ganddynt aelodau bregus o'r teulu, oedd yn golygu na allent ddychwelyd adref ar ôl gofalu am gleifion COVID-19.

Yn fwy diweddar, o ganlyniad i rodd elusennol gan Gareth Bale a'i deulu, gwnaed Hafan i'r Staff yn rhan o ysbyty ymchwydd Adain Glan Llyn. Mae hyn yn rhoi lle tawel i'r staff orffwys, ymlacio ac ymryddhau o straen ar ôl gweithio. Agorwyd hafanau ychwanegol i'r staff yn YAC ac YALL gyda bariau coffi Aroma gerllaw.



Dyma rai enghreifftiau eraill o fentrau a roddodd y Tîm Lles ar waith yn ystod 2020/21:

- gweithio gyda rheolwyr ac uwch-reolwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael i gefnogi eu lles eu hunain a'u staff
- datblygu rhestr wirio lles uwch-reolwyr i roi cyfarwyddyd am beth i'w ystyried yn eu meysydd i gefnogi eu staff
- mireinio adnoddau yn becyn i reolwyr, ond gellir eu defnyddio hefyd gan unigolion i gefnogi anghenion penodol
- gweithio ar y cyd â thîm y Gaplaniaeth i sicrhau y gall y staff fynd at gefnogaeth fugeiliol
- y Pennaeth Iechyd a Lles Gweithwyr yn ymweld â wardiau COVID-19 i siarad â'r staff, cynnig cefnogaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael
- gweithredu sesiynau lles galw heibio rhithiol ddwywaith yr wythnos sydd yn agored i'r holl staff
- gweithio gyda Remploy i gynnig cefnogaeth iechyd meddwl galwedigaethol, cefnogaeth un-i-un, dros gyfnod o 9 mis
- gweithio ar y cyd â Choleg Adfer Caerdydd i gynnig hyfforddiant a chefnogaeth iechyd meddwl i'r holl staff
- gweithio gydag Amser i Newid Cymru i helpu i hyfforddi pencampwyr lles fel y gall staff gyrchu cyngor ar les a chyfeirio at y cymorth hwn yn y gweithlu
- cynllun peilot ap clicio a chyflwyno fydd yn galluogi staff clinigol i archebu lluniaeth i'w hadrannau, gan alluogi staff

i gael bwyd a diod yn ystod eu shifftiau

- adolygu gallu'r llwybr Cyrchu Trawma Sydyn i staff y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau ei fod yn ddigonol i gwrdd â'r galw cynyddol

Ystyr '**Cysgodi**' yw gwarchod y bobl hynny sy'n **Glinigol Eithriadol Fregus** ac yn agored i gymhlethdodau difrifol coronafeirws oherwydd bod ganddynt gyflwr iechyd presennol eisoes. Derbyniodd yr unigolion hyn lythyr cysgodi gan Lywodraeth Cymru (neu lythyr cyfatebol gan eu meddyg teulu/ arbenigwr) yn eu cyngori i gysgodi yn eu cartref. Efallai bod rhai aelodau staff wedi derbyn y llythyr hwn am eu bod yn gofalu am rywun a ystyrir yn glinigol eithriadol fregus (h.y., cysgodi aelod o'r teulu). Anfonwyd llythyrau'r don gyntaf ar 24 Mawrth 2020 ac yr oeddent yn ymdrin â chyfnod o 12 wythnos a estynnwyd yn nes ymlaen at 16 Awst 2020. Yn ystod yr ail don, ail-gyflwynwyd cysgodi o 20 Rhagfyr 2020 tan 31 Mawrth 2021.

Ar frig y don gyntaf, yr oedd 637 o staff (517.64 clla) yn cysgodi.

Dengys yr adroddiad absenoldeb am Fawrth 2021 fod nifer y staff oedd yn cysgodi wedi gostwng i 270. Dylid nodi nad yw Cysgodi yn golygu bod yr unigolyn yn wael, ond eu bod yn agored i'r feirws, ac yr oedd cyfran uchel o'r rhain yn gweithio o gartref.

Sefydlwyd grŵp bychan i weithio mewn partneriaeth, i ystyried Cysgodi a rhoi mewnwelediad o wahanol safbwyntiau. Yr oedd yn cael ei gydnabod, ar y dechrau o leiaf, fod diffyg dealltwriaeth am Gysgodi ac y dylai rheolwyr gael canllawiau a chefnogaeth i sicrhau cysondeb, a'u helpu i



ddod o hyd i waith ystyrion i'r unigolion dan sylw, a gofalu bod lles yr unigolyn yn cael ei ystyried bob amser.

Erfyn allweddol i gefnogi'r holl all staff, ond hefyd y sawl oedd yn cysgodi, oedd **Erfyn Asesu Risg Gweithlu** COVID-19 Cymru Gyfan. Datblygwyd hwn i helpu unigolion a'u rheolwyr ddeall eu bod a risg uwch o ddatblygu symptomau mwy difrifol petaent yn dod i gysylltiad â feirws COVID-19 a chytuno ar y camau iawn iddynt, ar sail lefel eu risg. Ym Mawrth 2021 cofnodwyd 1083 cofnod asesiad risg yn ESR; fodd bynnag, nid oedd cofnodi'r asesiad risg yn orfodol, na chwaith gofnodi'r deilliannau yn ESR i'r sawl oedd yn ei gwblhau.

Yn ychwanegol at asesiad risg Cymru Gyfan, datblygodd y Bwrdd Iechyd Asesiad Risg ar wahân i Staff Beichiog a all Wynebu Coronafeirws i'w gwblhau gan reolwyr ynghyd â'u gweithwyr beichiog o leiaf ddwywaith yn ystod y beichiogrwydd (h.y., cyn ac ar ôl 28 wythnos).

6.2 Marwolaethau staff oherwydd COVID-19

Yn ystod y pandemig, gwaetha'r modd yr ydym wedi colli sawl aelod o staff o adrannau a swyddogaethau gwahanol ar draws y Bwrdd Iechyd a fu farw wedi dal COVID-19. Mae'r Cadeirydd yn ysgrifennu'n uniongyrchol at deuluoedd yr holl staff i gydymdeimlo ac i gynnig unrhyw help y gallwn roi. Yr ydym hefyd yn cydnabod ei bod yn anodd iawn i staff sydd wedi colli cydweithwyr, a rhan o rôl y tîm Profiad y Cleifion/caplaniaeth yw cefnogi staff yn ogystal â chleifion. Yn y cyfnod trist hwn, bu'r caplaniaid yn cefnogi staff pan fu

cydweithiwr wedi marw.

Gyda chydysyniad y teulu agos, rydym wedi bod yn ffrydio angladdau yn fyw ar sawl safle, mewn mwy nag un lle yn aml, fel y gall cydweithwyr weld y gwasanaeth angladdol a thalu eu teyrngedau mewn dull diogel o bellter cymdeithasol. Os bydd teulu yn galw am gefnogaeth Caplan ysbyty yn y gwasanaeth ei hun, mae hyn yn cael ei gynnig. Rydym wedi cytuno gyda'r holl deuluoedd y cawn wasanaeth coffa y bydd croeso iddynt oll ddod iddo a chwrdd â chydweithwyr eu hanwyliaid pan fydd modd i ni ymgasglu mewn lle priodol a chyfleus.

6.3 Fforwm Partneriaeth Lleol a Grwpiau Eraill yn Ymwneud â'r Gweithwyr

Fforwm Partneriaeth Lleol (FfPLL)

Mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd statudol i "ystyried sylwadau a wneir gan bobl sy'n cynrychioli buddiannau'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu." Gwneir hyn yn rhannol gan dri o **Grwpiau Ymgynghorol** i'r Bwrdd ac y mae'r Fforwm Partneriaeth Lleol (FfPLL) yn un o'r rhain.

Mae'r FfPLL yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Gadeirydd Cynrychiolwyr y Staff a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a DG. Yr aelodau yw cynrychiolwyr y staff (gan gynnwys yr Aelod Annibynnol dros Undebau Llafur), y Tîm Gweithredol a'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithlu a DG a'r Pennaeth Llywodraethiant Gweithlu. Mae'r Fforwm yn cwrdd 6 gwaith y flwyddyn.



Y FfPLL yw'r mecanwaith ffurfiol i'r Bwrdd Iechyd a chynrychiolwyr yr Undebau Llafur/ Sefydliadau proffesiynol i weithio ynghyd i wella gwasanaethau iechyd. Mae ei bwrpas, fel sy'n cael ei osod allan yn y Cylch Gorchwyl, yn dod dan bedair **thema**: cyfathrebu, ystyried, ymgynghori a thrafod, a mantoli.

Ymysg materion arwyddocaol a ystyriwyd gan y Fforwm Partneriaeth Lleol yn ystod 2019-20 mae:

- Adolygu'r ymateb cychwynnol i COVID-19 gan gynnwys Ysbyty Calon y Ddraig
- Cysgod i'r gweithlu
- Gweithio o bell/hybrid
- Trawsnewid gofal brys (CAV 24/7)
- Cynllunio strategol (cynllunio am adfer, cynllunio Chwarter 3-4, CTCI)
- Canllawiau Pellter Gweithredol i'r Bwrdd Iechyd
- Cyfoesiadau gweithredol
- Iechyd a Lles yn y gweithle (ymateb i COVID-19)
- Dysgu o COVID-19
- Rhaglen frechu graddfa eang
- Recriwtio a Hwb y Gweithlu
- Arolwg Staff y GIG
- Strategaeth Gwasanaethau Clinigol ac YAC2
- Adroddiad blynyddol AIC - ail-ddychmygu heneiddio at y dyfodol

Mae'r FfPLL hefyd yn derbyn cyfoesiadau yn rheolaidd ar 'bynciau o bwys' gan y Prif Weithredwr ac adroddiadau sefydlog ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol GDS,

cyllid ac ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion.

Mae gan y FfPLL 3 is-grŵp - Grŵp Partneriaeth y Gweithlu, yr Is-Grŵp Polisiâu Cyflogaeth a Grŵp Buddion y Staff :

Cyd-gadeiryddion **Grŵp Partneriaeth y Gweithlu (GPG)** yw Cadeirydd Cynrychiolwyr y Staff a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a DG (GDS). Yr aelodau yw uwch-gynrychiolwyr y tîm GDS, Cynrychiolwyr Staff Bwrdd Clinigol Arweiniol, Cynrychiolydd Arweiniol y Staff dros Iechyd a Diogelwch ac Ysgrifennydd Ochr y Staff. Hefyd, mae gwahoddiad sefydlog i'r Aelod Annibynnol - Undebau Llafur fynychu. Fel rheol, mae'r GPG yn cwrdd 6 gwaith y flwyddyn, ar yn ail â'r FfPLL, ond oherwydd pandemig COVID bu'r GPG yn cwrdd yn fwy rheolaidd ers Mehefin 2020.

Mae'r GPG yn fforwm i'r Bwrdd Iechyd a'r Undebau Llafur (gan gynnwys Sefydliadau Proffesiynol a Chymdeithasau Staff) weithio gyda'i gilydd ar faterion datblygu gwasanaeth, ymwneud a chyfathrebu yn benodol fel y maent yn effeithio ar y gweithlu. Mae tair thema i'w bwrpas, fel sy'n cael ei osod allan yn y Cylch Gorchwyl: cyfathrebu, ystyried a thrafod materion sy'n effeithio ar y gweithlu. Mae'r eitemau a drafodir yn dueddol o fod yn fwy gweithredol a manwl na'r rhai a ddygir i'r FfPLL, ac y mae'r FfPLL yn rheolaidd yn cyfeirio materion at y GPG i'w dilyn i fyny a'u hystyried ymhellach.



Ymysg materion arwyddocaol a ystyriwyd gan y GPG yn ystod 2020/21 mae:

- Iechyd a Lles Gweithwyr
- Arolwg Staff
- Egwyddorion Ymddeol a Dychwelyd
- Cynnydd Tâl
- Cynllun Gweithlu Chwarter 3 a 4
- Cynllun Setlo UF (oblygiadau a chefnogaeth i'r staff)
- Adolygu Perthynas Waith Iach
- Cynllun Mewnol Datblygu Gyrfa
- Swydd-Ddisgrifiadau Generig
- Mantoli Seiliedig ar Werthoedd
- Proses Penodiadau Mewnol
- Cyfoesiadau COVID cyffredinol
- AL a seibiannau yn ystod COVID
- Gweithgaredd Hwb Gweithlu
- Polisi a Hyfforddiant MAAW
- Gweithgaredd Cysylltiadau Gweithwyr
- Polisi Parch a Datrys

Mae'r **Is-Grŵp Polisi Cyflogaeth (IGPC)** wedi ei ffurfio o gynrychiolwyr y gweithlu a DG a'r Undebau Llafur a'r cyd-gadeiryddion yw'r Rheolwr Llywodraethiant Gweithlu a chynrychiolydd o'r Undebau Llafur. Yr IGPC yw'r brif fforwm i ddatblygu ac adolygu polisiau, gweithdrefnau a chanllawiau cyflogaeth. Mae fel arfer yn cwrdd 6 gwaith y flwyddyn ond oherwydd pwysau gwaith yn sgil COVID-19 gostyngwyd hyn yn 2020/21.

Dros y flwyddyn a aeth heibio, datblygwyd neu adolygwyd a chymeradwyo'r dogfennau a ganlyn:

- Gweithdrefn Cam-drin Domestig
- Gweithdrefn Ymddeol a Dychwelyd
- Gweithdrefn Absenoldeb Heb Awdurdod
- Gweithdrefn Mantoli Seiliedig ar Werthoedd
- Gweithdrefn Ail-gyfeirio
- Polisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol
- Gweithdrefn Rheoli Honiadau Diogelu (staff)
- Gweithdrefn Gwylliau Blynyddol
- Canllawiau Cefnogi Gofalwyr

Mae'r **Grŵp Buddion Staff** yn ymchwilio ac yn cyd-gordio gostyngiadau a buddion a gynigir gan gyrff allanol i weithwyr y Bwrdd Iechyd. Mae'r grŵp yn sicrhau ac yn cytuno ar y 'bargeinion gorau' i staff ac yn adrodd am eu gwaith i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a'r Fforwm Partneriaeth Lleol.

Mae'r Grŵp Buddion Staff yn cwrdd bob deufis a dyma'r aelodaeth:

- Cynrychiolydd Uwch-Reolwyr
- Uwch-Gynrychiolydd Elusennau Iechyd
- Uwch-Reolwr Gweithlu
- Cynrychiolydd ochr y staff
- Cynrychiolydd cyfathrebu
- Rheolwr Teithio Cynaliadwy
- Cynrychiolydd Caffael



Gwahoddir busnesau a chyflenwyr sydd eisiau darparu nwyddau wasanaethau ar ddisgownt i staff i e-bostio'r Tîm Cyfathrebu, Celfyddydau, Elusennau Iechyd ac Ymwneud, a chymerir cynigion newydd at y Grŵp Buddion Staff i'w trafod a'u cymeradwyo ac yna maent yn cael eu hysbysebu ar dudalen y wefan Buddion Staff.

Yr oedd cynnydd yn gyfyngedig yn 2020-2021 oherwydd COVID-19. Fodd bynnag, daliodd y grŵp ati i gynnal cyfarfodydd rhithiol a bwrw ymlaen â'r canlynol:

- Adolygu'r Cylch Gorchwyl i gynnwys arweinydd Cyfarwyddwr Gweithredol,
- Cael noddwyr i helpu gyda lles y staff yn ystod COVID-19 ac annog cefnogaeth gyson i gynlluniau buddion staff,
- Adolygu'r Cynlluniau Aberthu Cyflog,
- Rhoi ffurf derfynol ar y memorandwm dealltwriaeth rhwng Nathaniel Car Sales a'r Bwrdd Iechyd (Tachwedd 2020),
- Adolygu'r tudalennau gwe buddion staff / Ap Staff Connect,
- Cynhyrchu cynllun gwaith blynyddol/ cynlluniau a noddwyd gan yr undebau,
- Cael cynlluniau buddion staff ychwanegol ar gyfer y Nadolig gan siopau mawr,
- Derbyn ac adolygu addasrwydd cynlluniau newydd am fuddion staff.

Ar lefel fwy lleol, mae gan bob **Bwrdd Clinigol** hefyd Fforymau Partneriaeth Lleol misol neu ddeufisol sy'n galluogi tîm arweiniol y Bwrdd Clinigol i ymwneud a chynrychiolwyr yr undebau llafur ar faterion lleol. Ataliwyd y rhain oherwydd pwysau COVID-19 mewn rhai ardaloedd, a rhoi yn eu lle drafodaethau mwy anffurfiol gyda Chynrychiolwyr Arweiniol y Clinigol y Bwrdd, ond y maent naill ai wedi ail-gychwyn neu ar fin gwneud hynny yn gynnar yn 2021/22.

6.4 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd, dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gynhyrchu **Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)** bob tair blynedd. Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw dogfennu'r camau y mae'r sefydliad yn gymryd i gyflawni ei Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Wrth baratoi ac adolygu ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd ymwneud yn briodol a chadw mewn cof y wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb.

Mae gan y CCS Gofalu am Gynhwysiant 2020-2024 nifer o amcanion cyflwyno allweddol ac fe'i seilir ar wreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol, a'r iaith Gymraeg, ym mhrosesau busnes y Bwrdd Iechyd. Mae'r CCS wedi asio'n agos â'n strategaeth dengmlynedd, 'Llunio ein Lles at y Dyfodol', ein Cynllun Tymor Canol Integredig yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Dyma flwyddyn gyntaf y Cynllun pedair-blynedd cyfredol.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i geisio cwrdd â'n hymrwymadau cyfreithiol a mynd y tu hwnt iddynt, a chymhwyso'r egwyddorion sydd yn Neddf Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector (DCSC) i'n holl feddwl, cynllunio a phenderfyniadau. Mae hyn wedi cynnwys cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) a adolygwyd yng ngoleuni digwyddiadau diweddar yn 2020 ynghylch materion anghydraddoldeb. Mae gostwng anghydraddoldeb iechyd yn nod strategol i'r sefydliad fel sydd wedi ei osod allan yn ein

¹ <http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1143/10%20-%20UHB%20Shaping%20Our%20Future%20Wellbeing%20Strategy%20Final.pdf>



Strategaeth 'Llunio ein Lles at y Dyfodol'.

Fel sefydliad, yr ydym ni, fel gweddill GIG Cymru, wedi wynebu ac yn dal i wynebu heriau, o ran ein rôl fel cyflogwr a darparwr gwasanaeth. Daethom dan bwysau enfawr o ran galw am rai o'n gwasanaethau a chafwyd effaith sylweddol ar ein staff.

Mae cyhoeddi Adroddiad Is-Grŵp Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig Cymdeithasol-Economaidd COVID-19 wedi rhoi cyfle i ni adlewyrchu a dysgu tra bod y sefydliad yn gweithio ar ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol - Gofalu am Gynhwysiant. Er enghraifft, ym mis Gorffennaf 2020, derbyniodd ein Rheoli Gweithredol gyflwyniad gan y Rheolwr Cydraddoldeb a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu'r Sefydliadol i osod allan rai o'r camau cyntaf mewn "Gwelliant er mwyn Cynhwysiant". Cydnabuwyd a derbyn nad oes modd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn ddiofal na chan fentrau ysbeidiol, digyswllt: fod angen i'n gweithredoedd gael eu cynllunio'n dda, fod yn strategol, cynaliadwy a'u cymryd o ddifrif.

Penderfynodd y sefydliad y bydd pob Cyfarwyddwr Gweithredol yn noddi ac yn cefnogi nodwedd warchodedig benodol wrth i'r gwaith hwn ddatblygu. Mae ein prif Weithredwr, i ddangos ei ymrwymiad personol i'r gwaith hwn yn arwain ar y nodwedd warchodedig Hil.

Mae adolygiad pellach o'n polisïau cyflogaeth wedi arwain at ddatblygu Polisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol newydd. Mae'r Bwrdd Iechyd eisiau ennill enw da am ddangos arferion eithriadol ym maes cysylltiadau cyflogaeth a chyflwyno gwasanaethau, ac fe fyddwn yn gweithio i wneud yn siwr fod egwyddorion cydraddoldeb, cynhwysiant, amrywiaeth a hawliau dynol yn cael eu

perchenogi, y rhoddir gwerth arnynt a'u harddangos gan bawb yn y sefydliad - y Bwrdd, aelodau staff a'r sawl sy'n darparu gwasanaethau ar ran y sefydliad.

Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes hirfaith o weithio'n gryf mewn partneriaeth. Yr ydym am weithio gydag eraill i gryfhau gwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Er enghraifft, yr ydym yn arwain ar Ffrwd Waith Iechyd Cyngor Caerdydd i ddatblygu Tasglu Cydraddoldeb Hil.

Ar raddfa partneriaethau ehangach, datblygwyd ein CCS gyda chyrrff cyhoeddus eraill. Yr oedd ein partneriaeth gyda chyrrff cyhoeddus yn cynnwys y canlynol: Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), Comisiynydd yr iaith Gymraeg, Awdurdod refeniw Cymru, Gwella Addysg Iechyd Cymru (GAIC), ESTYN, Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Felindre. Ein nod yw sicrhau y bydd ein Hamcanion Cydraddoldeb am 2020-2024 yn ymdrin â'r heriau iechyd a osodir allan yn '[A Yw Cymru'n Decach?](#)' 2018. Yr oedd y cyrrff cyhoeddus hyn yn awyddus i gymryd camau i gytuno ar amcanion ar y cyd ac eisiau cydweithio i rannu adnoddau, mewnwelediad ac arbenigedd. Mae'r agwedd hon yn hyrwyddo gweithio clyfrach ac yn creu'r gallu i ehangu ymwneud rhanddeiliaid a'r gymuned. Mae gan uno y tu ôl i amcanion a rennir y potensial i ddylanwadu ar fwy o weithio ar y cyd a rhannu arferion, hyrwyddo mwy o effaith ar draws y sector cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a'r 'agenda atal'. Yr oedd canolbwynt hefyd ar sicrhau mai'r amcanion



eu hunain, a'r nodau tymor-hir y byddant yn cyfrannu atynt, yw'r rhai iawn.

Er nad yw iaith yn nodwedd warchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 - hyrwyddir amddiffyn yr iaith Gymraeg dan ddeddfwriaeth ar wahan (Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau Cysylltiedig) - cydnabuwyd ers amser fod yr agenda cydraddoldeb a pholisïau'r iaith Gymraeg yn ategu ei gilydd. Fe'i cefnogir ymhellach trwy Nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu. Ein nod yw cynnal a chryfhau'r egwyddor hon trwy ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a gofalu eu bod yn hyrwyddo ac yn gwarchod y Gymraeg.

6.5 Rheoliadau iaith Gymraeg – Rheoliadau Safonau'r iaith Gymraeg 2018

Cyfeirir at baragraff 13.3 yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

6.6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (DLCD) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LLCD) yn mynnu bod cyrff statudol a enwir, gan gynnwys BIP Caerdydd a'r Fro i sicrhau yr atebir anghenion y boblogaeth gyfredol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain. Mae'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' yn mynnu bod y sefydliad fel mater o drefn yn dilyn y pum ffordd o weithio o'r Ddeddf (atal, tymor-

hir, cydweithredu integreiddio, ymwneud), a chyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol.



Cyflwynodd y Ddeddf nifer o ddyletswyddau statudol penodol i'r Bwrdd Iechyd, gyda chyfrifoldebau fel sefydliad unigol ac mewn partneriaeth fel aelod o'r ddau Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) yng Nghaerdydd a'r Fro.

Trefniadau llywodraethiant yn BIP Caerdydd a'r Fro

Mae Grŵp Llywio LLCD BIP Caerdydd a'r Fro, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, yn pennu ac yn gweithredu'r camau sydd eu hangen i wreiddio'r gofynion yn y Bwrdd Iechyd, a chefnogi'r newid diwylliant sydd angen i'r Bwrdd Iechyd weithredu fel mater o drefn yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Er mwyn canolbwyntio ar yr ymateb llym i'r pandemig, ataliwyd cyfarfodydd rheolaidd y grŵp hwn yn ystod 2020-2021, ond byddant yn ail-gychwyn o Ebrill 2021 ymlaen.



Mae'r Grŵp Llywio yn cynnal ac yn asesu cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu, ac yn adrodd i Bwyllgor Strategaeth a Chyflwyno'r Bwrdd. Cadeirydd y Bwrdd yw Pencampwr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'r Bwrdd. Byddwn yn cynnal deialog barhaus â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ym maes partneriaeth, rydym yn cyfrannu at y Cynlluniau Llesiant statudol (un i Gaerdydd; un i'r Fro) trwy gymryd rhan yn y BGC a chyflwyno camau allweddol y Cynlluniau, yn unigol a chyda sefydliadau sy'n bartneriaid.

Ein hamcanion lles

Yn y Bwrdd Iechyd, amcanion ein strategaeth deng-mllynedd ([Llunio ein Lles at y Dyfodol](#)) yw amcanion lles statudol y sefydliad dan Ddeddf LLCD, ac fe'u rhestrir isod. Mae'r amcanion hyn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol. Gweithredir y Strategaeth trwy'r cynllun tair blynedd a gyfoesir yn flynyddol, ein cynllun tymor canol integredig (CTCI).

1. Lleihau anghydraddoldebau iechyd
2. Cyflwyno deilliannau sydd o bwys i bobl
3. Pawb i gymryd cyfrifoldeb dros wella ein hiechyd a'n lles
4. Cynnig gwasanaethau sy'n rhoi i'n poblogaeth yr iechyd y mae gan ein dinasyddion hawl i'w ddisgwyl
5. Bod â system gofal annisgwyl (brys) sy'n rhoi'r gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn, y tro cyntaf
6. Bod â system o ofal cynlluniedig lle mae'r galw a'r gallu yn gytbwys
7. Bod yn lle gwych i weithio a dysgu

8. Gweithio'n well gyda phartneriaid i roi gofal a chefnogaeth ar draws sectorau gofal, gan wneud y defnydd gorau o'n pobl ac o dechnoleg
9. Lleihau niwed, gwastraff ac amrywiadau yn gynaliadwy gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni
10. Rhagori mewn dysgu, ymchwil, arloesedd a gwelliant, a darparu amgylchedd lle mae arloesedd yn ffynnu

Mae'r CTCI yn integreiddio ac yn dangos y pum ffordd o weithio a'r camau yn erbyn y nodau llesiant ledled y cynllun. Mae atal wedi ei wreiddio trwy ein gwaith i gyd, gydag ymyriadau iechyd cyhoeddus arbenigol ychwanegol yn cael eu disgrifio yng [Nghynllun iechyd cyhoeddus lleol Caerdydd a'r Fro](#).

Mewn ymateb i bandemig COVID-19 ataliwyd yr agwedd gynllunio a'r rhythm traddodiadol i GIG Cymru. Trwy gydol 20-21 gofynnwyd i sefydliadau ddatblygu cynlluniau strategol, ac ar gyfer 2021-22 cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru oedd y dylai GIG Cymru symud at gylch cynllunio gyda'r angen i ddatblygu cynllun 12 mis. Yr oedd fframwaith cynllunio 21-22 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gynllunio cyson am bandemig COVID-19. Yr oedd y fframwaith cynllunio hefyd yn cadarnhau na fyddai angen cadarnhau cynlluniau 21-22 (neu beidio) yn ffurfiol. O'r herwydd, mae'r newid hwn yng nghanolbwynt y cynllun yn golygu na chafodd yr amcanion llesiant eu hadolygu'n ffurfiol gan y Bwrdd Iechyd, yr oedd y rhai y cytunwyd arnynt fel rhan o 20-21 yn bodoli a'u hadlewyrchu yn llawn yn y cynllun blynyddol. Byddwn yn ailgychwyn ein hadolygiad blynyddol arferol o'n hamcanion llesiant yn ystod 2021-22.



Cynnydd yn erbyn ein hamcanion lles

Oherwydd mai ein hamcanion corfforaethol yw ein hamcanion lles, dangosir cynnydd yn erbyn ein hamcanion lles trwy ein hadrodd arferol am berfformiad yn erbyn in CTCI a'n strategaeth deng-mllynedd. Gallwch ddod i wybod mwy am ein perfformiad, a lle'r adroddir amdano yn y Crynodeb o'n perfformiad a'r adran llwyddiannau allweddol.

Gallwch ddarllen mwy am brosiectau penodol a gwblhawyd gennym sy'n dangos ein hymrwymiad i'r Ddeddf ar [dudalennau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) ar ein gwefan.

Datblygiadau eraill

Er, yn ystod 2020-2021, fod y Bwrdd lechyd wedi canolbwyntio ar ei ymateb i'r pandemig, rydym wedi ceisio gwneud hynny mewn ffordd sy'n asio gyda'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys:

- Gweithio dyddiol helaeth mewn partneriaeth yn uniongyrchol gyda phartneriaid statudol, yn sefydlu'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu (POD) yng Nghaerdydd a'r Fro. Bu hyn yn ymdrech wirioneddol mewn partneriaeth, gyda thimau o staff o bob cwr o'r bartneriaeth yn arwain ar strategaeth a gwyliadwriaeth trwedd at olrhain cysylltiadau. Mae staff a chyllidebau wedi eu rhannu trwy weithio'n llawn integredig yn ddyddiol
- Gweithio gyda'n cymunedau du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig ac arweinwyr cymunedol i ymwneud mwy a lleihau effeithiau anghyfartal COVID-19

- Cynllunio a gweithredu rhaglen frechu dorfol yn gynnar, i atal achosion pellach o COVID-19
- Galluogi cynnydd mewn ymgynghoriadau clinigol o bell
- Cynnal symudiad sydyn at weithio o gartref lle bo modd i'r staff, ac edrych i weld sut y gellir gwreiddio manteision hyn yn y tymor hir. Mae hyn yn cyfrannu at well hyblygrwydd i'r staff, ynghyd â gostyngiad mewn allyriadau carbon o gymudo
- Yr oedd rhai o'r ddarpariaeth 'cymorth cilyddol' a gwasanaethau rhanbarthol y bwriwyd ymlaen a hwy gyda Byrddau lechyd gerllaw nid yn unig wedi sicrhau yr ymdriniwyd â rhai bygythiadau i gynaliadwyedd y gwasanaeth yn ystod y pandemig, ond buont yn gatalydd hefyd i gyflymu'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda Byrddau lechyd i ddarganfod atebion gwasanaeth cynaliadwy tymor hir

Ymysg camau eraill yn ystod y flwyddyn mae:

- Wedi datgan argyfwng hinsawdd ym mis Ionawr 2020, datblygodd y Bwrdd lechyd Gynllun Gweithredu Cynaliadwyedd uchelgeisiol, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol
- Y Bwrdd lechyd yn llofnodi Siarter Hinsawdd y Fro
- Y Bwrdd lechyd yn ymuno â'r rhwydwaith Ysbytai Gwyrdd ac Iach Byd-eang
- Ymwneud a'r cyhoedd i Lunio ein Gwasanaethau Clinigol– ystyriaeth am sut y mae modd cyflwyno gwasanaethau clinigol yn y dyfodol ar draws ein system wrth i anghenion gofal iechyd ein poblogaeth esblygu. Bydd y pwyslais ar gyflwyno



gwasanaethau integredig gartref neu mor agos at y cartref ag sydd modd, canoli ar les ac atal a defnyddio gwasanaethau ysbytai yn unig lle'r oedd angen

- Datblygu a chyflwyno i Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2021 achos busnes dros raglen Llundain ein Hysbytai at y Dyfodol. Olynydd i Ysbyty Athrofaol Cymru fydd hwn, fydd yn cyflwyno'r gwasanaethau newydd fel rhan o Lunio ein Gwasanaethau Clinigol gydag egwyddorion adeiladu cynaliadwy wrth ei ganol.
- Cafodd rhaglen Ail-ffitio'r Bwrdd Iechyd lle nodir mesurau sylweddol i leihau ynni a charbon, a'u gweithredu, ei chychwyn ym Mawrth 2020. Cyflwynwyd Cyfnod 1a sydd yn cynnwys y gwaith isod. Bydd rhaglen Cyfnod 1a yn arwain at amcangyfrif o ostyngiad blynyddol mewn allyriadau CO2 erbyn 700 tunnell. Datblygwyd Cyfnodau 2 a 3 o'r rhaglen Ail-ffitio ac os cânt eu cymeradwyo, bydd y cyfnodau hyn yn cychwyn yn ystod 2021/22.
 - Rhoi LED yn lle 7,000 o leuadau presennol
 - Rhoi unedau effeithlonrwydd uchel yn lle moduron awyru 100
 - Darparu hanner kilometr o insiwleiddio pibelli
- Mae gan y Bwrdd Iechyd system Rheoli Amgylcheddol gan gynnwys ardystiad ISO14001 gan BSI. Yn 2020/21 darparwyd parhad o'r ardystiad gan y BSI a daeth yr archwiliad allanol ym mis Ionawr 2021 i ben heb nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfio.

- Prynwyd 3 cerbyd trydan yn 2020/21 i Stadau a Diogelwch yn lle cerbydau tanwydd ffosil. Gosodwyd pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn Nhŷ Woodland, ac ystyrir unedau gwefrio i ardaloedd eraill.

7. Gwneud penderfyniadau a llywodraethiant

Yn ystod argyfwng COVID-19, bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gynllunio'n wahanol, gweithio yn wahanol, rheoli ei adnoddau yn wahanol, a llywodraethu'n wahanol i ymdrin â heriau a phwysau digynsail y pandemig.

- **Llywodraethiant Strategol** - Yng nghydestun COVID-19 bu llywodraethiant strategol y sefydliad yn ystwyth.
 - gwnaethom gynnal cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau mwy effeithiol ac effeithlon
 - sicrhau ffocws clir ar fusnesau hanfodol a risgiau a materion cysylltiedig â COVID-19 ;
 - bod yn agored a chynnal tryloywder trwy gynnal cyfarfodydd rhithiol ar-lein;
 - sicrhau ymwneud effeithiol gyda'r cyhoedd a'u partneriaid; a gwnaed
 - penderfyniadau yn fwy sydyn.
- **Llywodraethiant Clinigol** - Ym Mawrth 2020, oherwydd pandemig COVID-19, ataliwyd proses y CTCL a chyflwynwyd Fframweithiau Chwarterol i GIG Cymru. Cynhyrchodd y Bwrdd Iechyd gynlluniau chwarterol i drin y blaenoriaethau allweddol. Galluogodd hyn y Bwrdd Iechyd i ganiatáu ail-gyfeirio'r holl adnoddau at gynnal gwasanaethau allweddol.



- **Llywodraethiant Ariannol** - Mae nifer o ofynion y mae'n rhaid eu hystyried o ran 'busnes fel arfer' yn ogystal â systemau ychwanegol i gofnodi gwariant yn ymwneud â COVID19. Erys egwyddorion allweddol llywodraethiant ariannol da, a chynhaliwyd deialog reolaidd a Llywodraeth Cymru ar wariant COVID-19
- **Llywodraethiant Adnoddau Dynol** - rhoddwyd cryn bwyslais ar allu, galluoedd a gwytnwch y gweithlu i gwrdd â heriau COVID-19. Gallodd y Bwrdd lechyd wneud penderfyniadau yn sydyn, sicrhau parhad diogelwch a gwytnwch gwasanaethau, yn ogystal â chynnal cofnodion i gefnogi gwariant penodol i COVID-19 .
- **Llywodraethiant Gwybodaeth** - erys y gofynion llywodraethiant gwybodaeth allweddol, a dylai'r sefydliad barhau i weithredu y tu mewn iddynt.
- **Cyfyngau Sifil a Chynllunio Argyfwng** – parhaodd y Bwrdd lechyd i gyflwyno gofal diogel, safonol ac ymatebol i gleifion yn ystod hinsawdd heriol COVID-19,
- **Gweithio amlasiantaethol** – mae'r Bwrdd lechyd wedi gweithio ar y cyd ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i drawsnewid gwasanaethau ers cychwyn y pandemig:
 - *o barhau i ddarparu gwasanaethau dan y cyfyngiadau cloi oedd yn cefnogi pobl i aros gartref,*
 - *i weithio gyda'r sector preifat i gynyddu'r gwelyau oedd ar gael ar draws y system fel bod modd trin cleifion gyda'r anghenion mwyaf mewn lleoliadau aciwt,*
 - *mae'r trawsnewidiadau a gyflwynwyd yn dangos ymateb rhyfeddol a thrugarog cenedlaethol a rhanbarthol traws-sectorol i'r heriau oedd yn wynebu poblogaeth Caerdydd a'r Fro,*
 - *Ymatebodd sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a chwmnïau'r sector preifat oll yn ardderchog i gais Llywodraeth Cymru am fwy o gydweithio, yn enwedig cynhyrchu a defnyddio cyfarpar gwarchod personol (PPE) hanfodol i staff iechyd a gofal a olygodd fod gan y GIG ddigon o'r cyfarpar hwn*

Mae gwybodaeth bellach ar wneud penderfyniadau a llywodraethiant yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.



8. Adroddiad Cynaliadwyedd

Dywed Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) nad yw'r adroddiad cynaliadwyedd yn orfodol ar gyfer 2020-21, ond dylai cyrff adrodd ar eu gwefan pan fydd metrigau ar gael. Felly mae modd cael y wybodaeth ar ein gwefan.

Llofnodwyd gan: 

Len Richards
Prif Weithredwr a Swyddog Atebol

Dyddiad: 10/06/2021



Rhan 2a

Adroddiad Atebolrwydd



Pennod 2a

Adroddiad Atebolrwydd

Cwmpas yr Adroddiad Atebolrwydd

Pwrpas adran atebolrwydd yr adroddiad blynyddol yw cwrdd â'i gofynion atebolrwydd allweddol i Lywodraeth Cymru, ac y mae'n rhoi trosolwg o'r llywodraethiant, trefniadau atebolrwydd a strwythurau oedd ar gael ar hyd y Bwrdd Iechyd yn ystod 2020-2021.

Mae'n cynnwys:

- Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol
- Adroddiad Tâl a Staff
- Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

9. Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol

9.1 Adroddiad y Cyfarwyddwyr

9.1.1 Cyfansoddiad y Bwrdd

Mae Rhan 2 Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn gosod allan pwy ddylai fod yn aelodau o Fyrddau Byrddau Iechyd Lleol, penodiad a gofynion cymhwysra aelodau, termau Aelodau Annibynnol ac Aelodau Cysylltiol yn eu swydd. Yn unol â'r Rheoliadau hyn, mae gan Fwrdd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) 19 aelod a all bleidleisio, gyda 3 aelod arall na chânt bleidleisio, gan gynnwys:

- Cadeirydd;
- Is-Gadeirydd;
- Aelodau sy'n Swyddogion;
- Aelodau annibynnol; ac
- Aelodau cysylltiol.

Mae'r Bwrdd yn rhoi arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad ac y mae'n gyfrifol am lywodraethiant, craffu ac atebolrwydd cyhoeddus, gan sicrhau bod ei waith yn agored a thryloyw trwy gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus. O ganlyniad i'r risg i iechyd cyhoeddus cysylltiedig â'r pandemig, ataliodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (LLC) gynulladau cyhoeddus o fwy na dau o bobl ac felly ni fu modd i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd ein Bwrdd a'n Pwyllgorau ers Mawrth 2020.

Adwaenir aelodau'r Bwrdd gyda'i gilydd fel "y Bwrdd" neu "aelodau'r Bwrdd"; cyfeirir at yr Aelodau sy'n Swyddogion ac Aelodau Annibynnol (sydd yn cynnwys y Cadeirydd) fel Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol. Mae gan yr holl Aelodau Annibynnol ac Aelodau sy'n Gyfarwyddwr Gweithredol hawliau pleidleisio llawn.

Mae gan y Bwrdd Iechyd 11 Aelod Annibynnol (gan gynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd), sydd oll wedi eu penodi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae 8 Cyfarwyddwr Gweithredol.

Hefyd, gall Gweinidogion Cymru benodi hyd at 3 Aelod Cysylltiol. Nid oes gan Aelodau Cysylltiol hawliau pleidleisio. Hefyd, mae 2 swydd Cyfarwyddwr sef Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol a'r Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol (PSGG) sy'n



ffurfio rhan o'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd ond nid oes ganddynt hawliau pleidleisio.

Cyn i unigolyn allu cael ei benodi fel aelod neu aelod cysylltiol, rhaid iddo ateb y gofynion cymhwyster perthnasol, a osodir allan yn Atodlen 2 Rheoliad Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009, a pharhau i ateb y gofynion perthnasol trwy gydol yr amser y maent yn y swydd.

Gellir cyrchu'r Rheoliadau trwy'r ddolen ganlynol:

<http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/regulations-constitution-membershipand->

9.1.2 Aelodau o'r Bwrdd a Gaiff Bleidleisio yn ystod 2020-2021

Gweler paragraph 12.15 yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

9.1.3 Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd

Dyma oedd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn ystod 2020-2021, oedd yn darparu'r arbenigedd angenrheidiol:

Enw	Rôl	Dyddiadau
AELODAU ANNIBYNNOL		
John Union	Cadeirydd y Pwyllgor	Ebrill 2020 - Mawrth 2021
Eileen Brandreth	Is-Gadeirydd y Pwyllgor	Ebrill 2020 - Mawrth 2021
Dawn Ward	Aelod Annibynnol Undebau Llafur	Ebrill 2020 - Ionawr 2021

9.1.4 Datgan Buddiannau

Mae manylion am gyfarwyddiaethau cwmnïau a buddiannau arwyddocaol eraill a ddelir gan aelodau'r Bwrdd a all wrthdaro â'u cyfrifoldebau yn cael eu cadw a'u cyfoesi yn rheolaidd. Mae Cofrestr o Fuddiannau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd trwy glicio ar ddolen a ganlyn <https://cavuhb.nhs.wales/about-us/our-board/register-of-interests/> neu gellir cael copi caled gan Ysgrifennydd y Bwrdd o wneud cais.

9.1.6 Digwyddiadau yn Ymwneud â Data Personol

Mae manylion am wybodaeth am ddigwyddiadau sy'n ymwneud a data personol yr adroddwyd amdanynt yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a "digwyddiadau anffodus difrifol" sy'n golygu colli data neu dorri cyfrinachedd a manylion sut y rheolir y risgiau i wybodaeth yn adran 13.10 ar dudalen 95 y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

9.1.7. Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol

Mae'r rhain wedi eu cynnwys ar 13.5 Materion Amgylcheddol. Cymdeithasol a Chymunedol ar dudalen 91 o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.



9.1.8 Datganiad Deiliaid Gwybodaeth Sector Cyhoeddus

Mae hwn yn adran 19.3 Rheoli Arian Cyhoeddus (tudalen 129) yr Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol.

Llofnodwyd gan



Len Richards,
Prif Weithredwr a Swyddog Atebol

Dyddiad: 10 Mehefin 2021

10. Datganiad o Gyfrifoldebau Swyddogion Atebol

Cyfarwyddodd Gweinidogion Cymru mai'r Prif Weithredwr fydd Swyddog Atebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y maent yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion cywir, wedi eu gosod allan ym Memorandwm y Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gallaf gadarnhau:

- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro heb wybod amdano, a fy mod wedi cymryd yr holl gamau y dylid bod wedi eu cymryd i beri fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac wedi sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.
- Mae adroddiad a chyfrifon blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar y cyfan yn deg, cytbwys a dealladwy, a chymeraf gyfrifoldeb personol dros yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol a'r farn sydd ei angen er mwyn pennu eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, yr wyf wedi cyflawni'n gywir y cyfrifoldebau a osodir allan yn fy llythyr penodiad fel Swyddog Atebol.

Llofnodwyd gan:



Len Richards,
Prif Weithredwr a Swyddog Atebol

Dyddiad: 10 Mehefin 2021



11. Datganiad o Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr Parthed y Cyfrifon

Mae gofyn i'r cyfarwyddwr dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cenedlaethol (Cymru) 2006 baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cyfarwyddo bod y cyfrifon hyn yn rhoi golwg gywir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Caerdydd ac o incwm a gwariant Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae gofyn i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- gymhwyso ar sail gyson egwyddorion cyfrifo a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys
- gwneud barn ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol a darbodus
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys ai peidio, yn amodol ar unrhyw yriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y cyfrif.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo cywir sydd yn datgelu yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr awdurdod a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd a grybwyllwyd uchod gan Weinidogion Cymru.

Trwy Orchymyn y Bwrdd

Llofnodwyd:

Cadeirydd,

Charles Janczewski: 

Dyddiedig: 10 Mehefin 2021

Prif Weithredwr a Swyddog Atebol,

Len Richards: 

Dyddiedig: 10 Mehefin 2021

Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid,

Catherine Phillips: 

Dyddiedig: 10 Mehefin 2021



Rhan 2a

Datganiad Llywodraethiant Blynyddol



12. Datganiad Llywodraethiant Blynyddol

12.1 Cwmpas Cyfrifoldeb

Mae'r Bwrdd yn atebol am Lywodraethiant, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol. Fel Prif Weithredwr y Bwrdd, mae gennyf gyfrifoldeb am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethiant priodol yn ogystal â system gadarn o reolaeth fewnol sydd yn cefnogi cyrraedd polisiau, nodau ac amcanion y sefydliad, gan ddiogelu ar yr un pryd y cronfeydd cyhoeddus ac asedau'r sefydliad yr wyf i'n bersonol gyfrifol amdanynt. Gweithredir y rhain yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd gan Swyddog Atebol GIG Cymru.

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol hwn yn rhoi manylion y trefniadau sydd ar gael yn ystod 2020-2021 i gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Prif Swyddog Gweithredol y Bwrdd lechyd, ac i reoli adnoddau'r Bwrdd lechyd. Mae hefyd yn rhoi manylion am y graddau y mae'r sefydliad yn cydymffurfio â'i drefniadau llywodraethiant, sydd yn bodoli er mwyn gwneud yn siwr bod hyn yn cyflawni ei bwrpas cyffredinol, sef ei fod yn gweithredu'n effeithiol ac yn cyflwyno gofal safonol a diogel i gleifion, trwy arweiniad clir, stiwardiaeth gref, atebolrwydd clir, craffu a herio cadarn, ymddygiad moesegol a glynu at ein gwerthoedd a'n hymddygiad. Bydd yn gosod allan rai o'r heriau a'r risgiau a ddaeth i'n rhan a'r sawl y byddwn yn parhau i'w hwynebu at y dyfodol.

Adeg paratoi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol hwn, mae'r Bwrdd lechyd a'r GIG yng Nghymru yn canolbwyntio ar y cyfnod adfer wedi wynebu pwysau digynsail a chynyddol ar gynllunio a darparu

gwasanaethau i gwrdd ag anghenion y sawl yr effeithiodd COVID-19 arnynt, a chynllunio ar yr un pryd i ail-gychwyn gweithgareddau eraill lle cafwyd effaith hefyd.

Mae'r ymateb oedd ei angen yn golygu y bu'n rhaid i'r holl sefydliad weithio'n wahanol iawn yn fewnol a chyda'n staff, partneriaid a rhanddeiliaid, a bu'n rhaid adolygu'r ffordd y cyflawnir y fframwaith llywodraethiant a gweithredol. I gydnabod hyn, ysgrifennodd Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/ Prif Weithredwr GIG Cymru at holl Brif Weithredwyr y GIG yng Nghymru, am "COVID-19 - Gwneud Penderfyniadau a Chanllawiau Ariannol". Yr oedd y llythyr yn cydnabod y byddai sefydliadau yn debyg o gymryd penderfyniadau a allasai fod yn anodd ar gyflymder a heb sylfaen gadarn o dystiolaeth na chefnogaeth unigolion allweddol a fyddai ar gael dan amgylchiadau arferol.

Serch hynny, mae gofyn i'r sefydliad o hyd ddangos y gwnaed penderfyniadau effeithiol ac y bydd yn pasio'r prawf craffu o ran cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a dangos Gwerth am Arian wedi i argyfwng COVID-19 ddod i ben a bod y sefydliad yn dychwelyd i amodau gweithredu mwy normal.

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn rhoi manylion am y trefniadau sydd ar gael i gyflawni cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr i reoli adnoddau'r Bwrdd lechyd yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021 Mae hefyd yn gosod allan y trefniadau llywodraethiant sydd yn eu lle i sicrhau cywirdeb, fod cynllunio strategol a chyflwyno yn eu lle, risgiau'n cael eu lliniaru a bod gennym gamau rheoli priodol i reoli



sefyllfaoedd corfforaethol a chlinigol.

Erys cynllunio yn hyblyg ac yn ymatebol i ddata sy'n dod i mewn, ac y mae'r Bwrdd lechyd yn awr yn addasu ei ragdybiaethau cynllunio wrth ddod i mewn i'r cyfnod adfer ac yn rhagfynegi'r galw posib am ofal critigol a gwelyau sydd ar gael dros y 12 mis nesaf. Ni wyddom eto beth fydd amseriad na graddfa hyn. Adroddir am unrhyw wriad oddi wrth y gweithdrefnau gweithredu normal wrth y Bwrdd a'r Pwyllgorau perthnasol. Felly mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu cynlluniau gofalus i ail-gychwyn gwasanaethau normal ar sail blaenoriaeth glinigol gan gadw'r holl wasanaethau hanfodol, ochr yn ochr â rheoli'r galwadau cyson sy'n codi o COVID-19, a deall effeithia gwasanaethau a ataliwyd/gwtogwyd ar gyflwyno, ansawdd a diogelwch, cyllid a pherfformiad.

12.2 Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd

Ym mis Hydref 2020 cadarnhaodd y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddwn yn cynnal ein graddio 'trefniadau arferol', ar gyngor Cyfarwyddwr Cyffredinol lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru gyda thrafodaethau'r Grŵp Tridarn yn sail iddynt. Y Grŵp yw swyddogion Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth lechyd Cymru (AIC) ac Archwilio Cymru). Cydnabu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru hefyd y ffordd broffesiynol ac ystyrlon yr ymatebodd y GIG a'r BIP i amgylchiadau eithriadol yr ymateb i'r pandemig.

Yn ystod y cyfnod 2020-2021, ac eithrio am effaith pandemig COVID-19, ni nodwyd unrhyw broblemau difrifol fyddai'n effeithio ar gyflwyno gan y GIG, ansawdd a diogelwch gofal ac effeithiolrwydd sefydliadol, a pharhawyd i fonitro'r Bwrdd lechyd trwy "drefniadau arferol" ers mis Rhagfyr 2019².

12.3 Cynlluniau Tymor Canol Integredig (CTCI)

Cyflwynodd y Bwrdd lechyd ei Gynllun Tymor Canol Integredig (CTCI) am 2020-2023 erbyn terfyn amser diwygiedig Llywodraeth Cymru o 31 Ionawr 2020. Nododd Llywodraeth Cymru fod y cynllun yn barod i'w gymeradwyo, ond oherwydd COVID-19, ataliwyd proses y CTCI. Dogfen statudol yw'r CTCI ac y mae'n gryn gam ymlaen. Dyma'r tro cyntaf mewn tair blynedd iddo gael ei ystyried yn barod i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac ochr yn ochr â gwella ein sefyllfa o ymyriad wedi'i dargedu at fwy o fonitro, yr oedd hyn yn llwyddiant dwbl.

Ym Mawrth 2020, oherwydd pandemig COVID-19, talwyd y broses CTCI, a chyflwynwyd Fframweithiau Chwarterol i GIG Cymru. Yr oedd gofyn i sefydliadau gynhyrchu cynlluniau chwarterol i ymdrin â'r blaenoriaethau a osodwyd allan yn y fframweithiau hyn. Galluogodd hyn y Bwrdd lechyd i ganiatáu ail-gyfeirio'r holl adnoddau tuag at gynnal gwasanaethau allweddol.

Mae monitro ei gynnydd wedi ei wreiddio yn ein hagwedd at reoli perfformiad a llywodraethiant ar draws y Bwrdd lechyd.

² [Datganiad Ysgrifenedig: Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd \(7 Hydref 2020\) | LLYW.CYMRU](#)



Ein Fframwaith Llywodraethiant

12.4 Rheolau Sefydlog a Chynllun Cadw'n Ôl a Dirprwyo

Ar lefel leol, rhaid i Fyrddau lechyd yng Nghymru gytuno ar Reolau Sefydlog i reoleiddio trafodaethau a busnes. Fe'u bwriadwyd i drosi'r gofynion statudol a osodir allan yn Rheoliadau BILL (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn arfer gweithredol o ddydd i ddydd, ac, ynghyd â mabwysiadu cynllun o faterion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd; Cynllun Dirprwyo i swyddogion ac eraill; a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, hwy yw'r fframwaith rheolaethol i gynnal busnes y Bwrdd lechyd ac sy'n diffinio ei 'ffyrdd o weithio'. Y dogfennau hyn, ynghyd â'r ystod o bolisiâu corfforaethol a osodwyd gan y Bwrdd, yw'r Fframwaith Llywodraethiant. Mae'r rhain ar gael o <https://cavuhb.nhs.wales/about-us/policies-procedures-and-guidelines/>. Cymeradwyodd y Bwrdd Fodel Rheolau Sefydlog Cymru, Cadw a Dirprwyo Pwerau ar gyfer Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (CAS) yng nghyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 27 Mai 2021. Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff i wneud penderfyniadau corfforaethol gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol yn aelodau cyfartal, gan rannu cyfrifoldeb corfforaethol am bob penderfyniad a chwarae rhan allweddol mewn monitro perfformiad yn erbyn amcanion a chynlluniau strategol.

Prif rôl y Bwrdd yw arfer arweiniad, cyfeiriad a rheolaeth effeithiol, gan gynnwys:

- Gosod cyfeiriad strategol cyffredinol y Bwrdd lechyd,
- Sefydlu a chynnal lefelau uchel o lywodraethiant ac atebolrwydd corfforaethol gan gynnwys rheoli risg a chamu rheoli mewnol,
- Sicrhau y cyflenwir nodau ac amcanion y Bwrdd lechyd trwy herio a chraffu'n effeithiol ar berfformiad ar draws pob maes cyfrifoldeb,
- Sicrhau y cyflwynir gofal diogel ac o'r safon uchaf i gleifion,
- Adeiladu capasiti a gallu yn y gweithlu i adeiladu ar werthoedd y Bwrdd lechyd a chreu diwylliant cryf o ddysgu a datblygu
- Arfer stiwardiaeth ariannol effeithiol trwy sicrhau bod y Bwrdd lechyd yn cael ei weinyddu yn ddarbodus ac yn economaidd gydag adnoddau yn cael eu defnyddio'n briodol ac effeithlon,
- Cyfathrebu'n effeithiol rhwng y Bwrdd lechyd a'i gymuned i sicrhau bod ei wasanaethau wedi eu cynllunio a'u bod yn ymatebol i anghenion a nodwyd.

Mae gofyn i'r Bwrdd, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau a all gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru, wneud trefniadau priodol i rai swyddogaethau gael eu gweithredu ar ei ran er mwyn i fusnes beunyddiol y Bwrdd lechyd gael ei gynnal yn effeithiol, ac mewn modd sy'n sicrhau cyrraedd ei nodau a'i amcanion.



Fel rhan o'i ymateb i COVID-19, cytunodd Grŵp Llywodraethiant y Bwrdd ar yr agwedd ym mis Ebrill, gyda'r Bwrdd yn cadarnhau'r trefniadau ym Mai 2020 er mwyn sicrhau lefel briodol o oruchwyliaeth a chraffu gan y Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol, a chydabod ar yr un pryd realiti canolbwynt y Bwrdd Gweithredol a'r cyfyngiadau amser arnynt. Yr oedd rhan o'r ymateb yn ymwneud â ffyrdd o weithio, y bu'n rhaid eu haddasu'n gyson yn ystod pandemig o'r fath; fodd bynnag, yr oedd rhan o'r ymateb yn galw am amrywiad dros dro o'i Rheolau Sefydlog (RhS) a Chadw'n Ôl a Dirprwyo Pwerau. Er mwyn sicrhau y gallai'r Bwrdd Iechyd hwyluso gwneud penderfyniadau yn gyflym a lleihau biwrocratiaeth ddiangen, heb beryglu llywodraethiant cryf, cytunodd i amrywiad dros dro i rannau o'r Rheolau Sefydlog. Cytunodd y Bwrdd i'r rhain yn eu cyfarfod ar [28 Mai 2020](#).

12.5 Y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Cyfansoddwyd y Bwrdd Iechyd er mwyn cydymffurfio â Rheoliad Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Yn ychwanegol at gyfrifoldebau ac atebolrwydd a osodir allan yn y telerau ac amodau penodi, mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cyflawni nifer o swyddogaethau fel Pencampwyr lle maent yn gweithredu fel llysgenhadon i'r materion hyn.

Mae'r Bwrdd yn rhoi arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad ac y mae'n gyfrifol am lywodraethiant, craffu ac atebolrwydd cyhoeddus. Mae'n sicrhau bod ei waith yn agored a thryloyw trwy gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus a lle cynhelir cyfarfodydd preifat, mae agenda'r cyfarfod hefyd yn cael ei gyhoeddi. Cefnogir y

Bwrdd gan nifer o Bwyllgorau, pob un dan gadeiryddiaeth Aelod Annibynnol. Cyfansoddwyd yr holl Bwyllgorau er mwyn cydymffurfio â Chanllaw Arfer Da Llywodraeth Cymru - Pwyllgorau Bwrdd Effeithiol. Mae'r Pwyllgorau, sy'n cyfarfod yn gyhoeddus (ac eithrio am y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth), yn darparu eu cofnodion ac adroddiad ysgrifenedig gan Gadeirydd y Pwyllgor i bob cyfarfod o'r Bwrdd. Mae hyn yn galluogi i holl Aelodau'r Bwrdd gael golwg o'r holl brif bynciau a chyfrannu at asesiad o sicrwydd a darparu craffu yn erbyn cyflwyno amcanion strategol.

Mae papurau'r Bwrdd fel arfer yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd 10 diwrnod cyn pob cyfarfod; fodd bynnag, adolygwyd hyn a'i ostwng i 7 diwrnod yn ystod cam cyntaf pandemig COVID-19. Fodd bynnag, ers hynny, cyhoeddwyd Papurau'r Bwrdd 10 diwrnod calendr cyn y cyfarfod ac yn unol â gwybodaeth bellach yn y Rheolau Sefydlog – gweler adran 12.7 Cyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn ystod COVID-19 – tudalen 64.

Cedwir log o dorri rheolau i gofnodi unrhyw wryiad oddi wrth yr amseroedd hyn ac adegau pan fo adroddiadau wedi eu hoedi neu heb eu derbyn. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys crynodeb o gyfrifoldebau a Chylch Gorchwyl pob Pwyllgor. Mae pob cam sydd ei angen o du'r Bwrdd a'i Bwyllgorau ar Log Gweithredu ac ym mhob cyfarfod, mae cynnydd yn cael ei fonitro. Mae'r Logiau Gweithredu hefyd wedi eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd. Gellir cyrchu'r papurau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd [yma](#) a phapurau am gyfarfodydd Pwyllgorau [yma](#). Mae pob Pwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith yn flynyddol er mwyn cefnogi busnes y Bwrdd. Ymhellach,




yn unol â'r Rheolau Sefydlog, bydd pob Pwyllgor yn cynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd; gellir cyrchu'r adroddiadau am 2020-2021 ar: [Adroddiadau Blynyddol](#).

Mae Pwyllgorau hefyd yn gweithio gyda'i gilydd ar ran y Bwrdd er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gynllunio'n gydlynus a'i fod yn canolbwyntio ar y materion risg mwyaf

fyddai'n ein hatal rhag cwrdd â'n cenhadaeth a'n hamcanion. Er mwyn sicrhau cysondeb a chysylltiadau rhwng Pwyllgorau, mae gan y Bwrdd lechyd Grŵp Cydgordio Llywodraethiant, dan gadeiryddiaeth Cadeirydd y Bwrdd lechyd.

Amlinellir isod strwythur Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd lechyd fel yr oedd yn ystod 2020-2021.



12.6 Llywodraethiant Effeithiol yn ystod Pandemig COVID-19

Ym Mawrth 2020, canolbwyntiodd y Bwrdd lechyd ar fusnes hanfodol yn unig, gan sefydlu Strwythur Llywodraethiant Gorchymyn a Rheoli COVID 19 i hwyluso'r cynllunio a'r paratodau am y pandemig COVID-19 byd-eang oedd yn dod i'r amlwg. Cefnogwyd hyn gan Grŵp Llywodraethiant

COVID-19 y Bwrdd, a chytunodd y Bwrdd â'r trefniant hwn ar 28 Mai 2020 - <https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2020-21/26-05-2020-final-board-published-pdf/>




Yr oedd y Bwrdd yn cydnabod, mewn pandemig fel COVID-19 oedd yn symud mor gyflym, fod yn rhaid cryfhau trefniadau llywodraethiant er mwyn cael sicrwydd ar faterion allweddol megis:

- parodrwydd y gwasanaeth a'r ymateb i'r pandemig,
- arweiniad clinigol,
- ymwneud a pherchenogaeth datblygu cynlluniau,
- iechyd a lles y staff,
- cyfathrebu rhagweithiol, ystyrlon ac effeithio gyda'r staff ar bob lefel; a
- parodrwydd systemau iechyd a gofal.

Roedd y Bwrdd wedi ystyried a chytuno ar ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau lefel briodol goruchwyllo a chraffu gan y Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol, a chydabod ar yr un pryd yr hyn yr oedd yn rhaid i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ganolbwyntio a chyfyngiadau amser, a'i anallu i gyfarfodydd yn gyhoeddus oherwydd cyflwyno mesurau ymbellhau cymdeithasol a chyfyngiadau ar gynulliadau cyhoeddus.

Mae'r ffigwr isod yn amlinellu'r Trefniadau Llywodraethiant a Chyflwyno ar gyfer Rheoli COVID-19:



Sefydlwyd Grŵp Llywodraethiant COVID-19 y Bwrdd yn Ebrill 2020 er mwyn sicrhau bod craffu a llywodraethiant priodol dros y broses o wneud penderfyniadau yn ystod cyfnod COVID-19 a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod hyn yn digwydd. Gallodd Grŵp Llywodraethiant y Bwrdd gadarnhau gweithredoedd y Cadeirydd ynghyd â phenderfyniadau arwyddocaol fyddai fel arfer yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd.

Yr oedd Grŵp Llywodraethiant COVID-19 y Bwrdd yn cyfarfod yn wythnosol, a rhannwyd y cofnodion, y camau yn deilio ohonynt a log penderfyniadau'r cyfarfod hwnnw gyda'r Bwrdd cyfan. Aelodaeth y Grŵp oedd Cadeirydd Interim, yr Is-Gadeirydd Interim, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol perthnasol. Yr oedd y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol hefyd yn bresennol i gefnogi a rhoi cyngor ar wneud penderfyniadau.

Yr oedd y Grŵp Strategol COVID-19 yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr gyda swydd yr Is-Gadeirydd yn cael ei gymryd gan y Cyfarwyddwr Meddygol. Yn y cyfarfod hefyd yr oedd yr holl Gyfarwyddwyr Gweithredol, y Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwybodaeth, y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu. Gwnaeth y Grŵp benderfyniadau am faterion strategol a ddaliwyd trwy'r cofnodion, a log gweithrediadau. Cyflwynwyd y log penderfyniadau o'r Grŵp Strategol i'r Grŵp Llywodraethiant COVID-19 am benderfyniadau nad oedd gan y Grŵp Strategol awdurdod i'w caniatáu.

Yr oedd y Grŵp Gweithredol yn cyfarfod yn ddyddiol, gan gadeiryddiaeth y Prif swyddog Gweithredol. Yn bresennol yr oedd y Triawd o'r Byrddau Clinigol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Yr oedd yn adrodd i'r Grŵp Strategol ac yn cymryd penderfyniadau at y Grŵp a oedd angen awdurdod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Symudodd y Strwythur Gweithredol dros dro ymaith oddi wrth Strwythur y Bwrdd Clinigol oherwydd COVID-19, gan esblygu i strwythur ar safle, pob un dan arweiniad Canolfan Cydgordio Leol oedd ar agor 7 diwrnod yr wythnos o 8am – 8pm. Dyma oedd y pedwar maes:

- Ysbyty Athrofaol Cymru
- Ysbyty Athrofaol Llandochoau
- Ysbyty'r Ymchwydd
- Y Gymuned

Yr oedd gan y safle driawd dan arweiniad Cyfarwyddwr y Bwrdd Clinigol.

Cymeradwywyd nifer o newidiadau i drefniadau llywodraethiant y Bwrdd Iechyd gan Grŵp Llywodraethiant y Bwrdd ym Mawrth 2020, a chawsant eu cymeradwyo yn ôl-weithredol gan y Bwrdd ym Mai 2020, gan gynnwys:

- cytuno i newidiadau dros dro i rannau o'r Rheolau Sefydlog,
- cyflwyno fframwaith awdurdodi yn gosod allan y trefniadau dirprwyo gwariant refeniw a gwariant cyfalaf yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Bwrdd Iechyd, y Rheolau Sefydlog, a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (ac eithrio ysbyty maes Calon y Ddraig); ac,



- ymrwymiad i gadw agendâu cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau mor fyr ag sydd modd,
- cafodd y penderfyniadau cyflym a gymerwyd gan Grŵp Llywodraethiant y Bwrdd a'r Grŵp Strategol i'r Bwrdd fel rhan o Adroddiad y Cadeirydd i graffu arnynt a'u cymeradwyo yn ôl-weithredol,
- Ni wnaed unrhyw newidiadau i Gynllun Dirprwyo'r Bwrdd Iechyd. O'r herwydd, daliodd y Bwrdd Iechyd i weithredu ar y sail y byddai'r dirprwyon yn gweithredu yn absenoldeb yr Arweinwyr Gweithredol a Chadeiryddion Pwyllgorau.

Wrth adolygu ei drefniadau llywodraethiant, ni chyfeiriodd y Bwrdd Iechyd at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyflawni cyfrifoldebau Pwyllgorau'r Bwrdd yn ystod COVID-19³ oherwydd na chawsant eu cyhoeddi tan ddiwedd Ebrill 2020.

Sefydlodd y Cadeirydd Grŵp WhatsApp unsydd i hwyluso cyfathrebu a rhannu gwybodaeth gyda'r Aelodau Annibynnol yn ystod the pandemig. Gwnaeth y Cadeirydd yn siwr hefyd fod cofnodion y Grŵp Llywodraethiant y Bwrdd yn cael eu rhannu gyda hwy yn amserol. Defnyddiwyd dyddiau Datblygu'r Bwrdd i roi gwybodaeth i'r Aelodau Annibynnol am amrywiaeth o bynciau yn ymwneud â'r pandemig.

O fis Tachwedd 2020 ymlaen, symudodd y Bwrdd o gyfarfodydd cyhoeddus bob deufis i gwrdd yn ffurfiol bob mis er mwyn sicrhau bod y Bwrdd a'r cyhoedd yn llawn ymwybodol o'r trafodaethau oedd yn digwydd yng nghyswllt COVID-19.

³ Canllawiau i Fyrdau'r GIG ar gyfrifoldebau pwyllgor yn ystod COVID-19 Rheoli'r GIG | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

12.7 Cyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn ystod COVID-19

Ym Mawrth 2020, canolbwyntiodd y Bwrdd Iechyd ar fusnes hanfodol yn unig, gan sefydlu Strwythur Llywodraethiant Gorchymyn a Rheoli COVID 19 i hwyluso'r cynllunio a'r paratodau am y pandemig COVID-19 byd-eang oedd yn dod i'r amlwg.

Cyflwynwyd y papur isod i'r Bwrdd ar 28 Mai 2020 yn rhoi manylion am yr egwyddorion llywodraethiant a gynlluniwyd i helpu i ganolbwyntio ar ystyried materion llywodraethiant yn ystod pandemig COVID-19, y Strwythur llywodraethiant diwygiedig, cylch gorchwyl Grŵp Llywodraethiant COVID-19, atodlen ddiwygiedig cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau, a pharhau â'r amrywiad i'r Rheolau Sefydlog <https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/board-2020-21/26-05-2020-final-board-published-pdf/>

I hwyluso cymaint o dryloywder a natur agored ag oedd modd, sicrhodd y Bwrdd Iechyd y canlynol:

- I ddechrau, cyfarfu'r Bwrdd ar sail cworwm yn unig, gyda chyfyngiadau cyhoeddus. Yna symudodd yr holl gyfarfodydd i fod yn rhithiol fel y gallai pawb fynychu'r Bwrdd a sicrhau eu bod yn agored a thryloyw,
- Defnyddiwyd amrywiaeth o lwyfannau fideo ar-lein i alluogi aelodau'r cyhoeddus i arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd o fis Gorffennaf 2020 ymlaen, trwy hynny sicrhau eu bod yn agored a thryloyw. Cyhoeddwyd dolenni a recordiadau ar ein gwefan,



- Cadwyd agendâu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn fyr, a chytunwyd arnynt rhwng y Cadeirydd a'r Arweinwyr Gweithredol yn ôl y trefniadau normal,
- Cyhoeddwyd pob agenda o fewn 10 diwrnod o'r cyfarfod,
- Roedd cyfoesiadau llafar a roddwyd mewn cyfarfodydd wedi eu rhoi yn y cofnodion,
- Gwnaed drafft o gofnodion cyhoeddus y Bwrdd ar gael o fewn 1 wythnos o'r cyfarfod,
- Gwnaed darpariaeth i gwestiynau ysgrifenedig gael eu cymryd gan Aelodau'r Bwrdd nad oedd yn medru mynychu cyfarfod y Bwrdd, ac yr oedd modd rhoi ateb yn syth wedi'r cyfarfod,
- Yr oedd tudalennau ein gwefan a'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn dangos fod gwybodaeth wedi ei gyhoeddi,
- Cyfoeswyd tudalen gyfarfodydd y Bwrdd ar y wefan (sef ein hysbysiad swyddogol o gyfarfodydd y Bwrdd) i esbonio pam nad oedd y Bwrdd yn cyfarfod yn gyhoeddus, a bod yr holl gyfarfodydd yn rhithiol.

Fel Swyddog Atebol, o ystyried sefyllfa barhaus COVID-19, adolygir yr agwedd hon yn gyson gan y Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Bwrdd, a dygir amrywiadau pellach i sylw'r Bwrdd, wrth i ni barhau i ymateb i COVID-19 a cheisio cynnal busnes normal trwy gydol y flwyddyn.

12.8 Cyfansoddiad y Bwrdd

Cyfeiriwch at baragraff 9.1.1 yn y Datganiad Llywodraethiant Corfforaethol.

Ymysg eitemau a ystyriwyd gan y Bwrdd yn 2020-2021 yr oedd:

- Cymeradwyo Cyfrifon Blynyddol 2019-2020,
- Adroddiadau Atebolrwydd a Thâl am 2019-2020,
- Cynllun Cyfalaf 2019-20,
- Adroddiadau Coronafeirws misol,
- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB),
- Cynllun Strategol Gwasanaethau Clinigol,
- Llawdriniaethau Thorasig,
- Storïau cleifion,
- Perfformiad ariannol,
- Adroddiadau rheoliad am Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad,
- Adroddiadau perfformiad o ran adroddiadau cenedlaethol a lleol allweddol,
- Adroddiadau sicrwydd gan Bwyllgorau a Grwpiau Ymgynghorol y Bwrdd, Cylchoedd Gorchwyl a Chynlluniau Gwaith,
- Deddf Lefelau Staffio Nyrsys (Cymru).

Yn ychwanegol at y cyfrifoldebau a'r atebolrwydd a osodir allan yn y telerau ac amodau penodi, mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cyflawni nifer o swyddogaethau fel Pencampwyr lle maent yn gweithredu fel llysgenhadon i faterion megis gofalmwyr a hen bobl. Cyflwynir aelodau a rolau Pencampwyr y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn ystod 2020-2021 er gwybodaeth yn **Atodiad 1** i'r datganiad hwn.



Bu rhai newidiadau i gyfansoddiad y Bwrdd dros y 12 mis a aeth heibio, gan gynnwys penodi Is-Gadeirydd i safle'r Cadeirydd gwirioneddol ym Mehefin 2020. Cymerodd yr Aelod Annibynnol (Cyfreithiol) rôl Is-Gadeirydd dros dro tan 31 Mawrth 2021.

Ffarweliodd y Bwrdd Iechyd a dau aelod oedd wedi gwasanaethu, gan estyn croeso cynnes i dri aelod Annibynnol newydd:

- Gadawodd Dawn Ward, Aelod Annibynnol, Undebau Llafur ar 31 Ionawr 2021, ac yn ei lle daeth Mike Jones, Aelod Annibynnol, Undebau Llafur a gychwynnodd ar ei ddyletswyddau ar 1 Mawrth 2021,
- Gadawodd Eileen Brandreth, Aelod Annibynnol TGCh, ar 31 Mawrth 2021 a chychwynnodd David Edwards, Aelod Annibynnol TGCh ei ddyletswyddau ar 1 Ebrill 2021,
- Ymgwymerodd yr Athro Ceri Phillips a swydd Is-Gadeirydd o 1 Ebrill 2021 ymlaen.

Croesawodd y Bwrdd Iechyd hefyd y bobl ganlynol i'r Tîm Gweithredol:

- Catherine Phillips, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid o 1 Mawrth 2021,
- Rachel Gidman, Cyfarwyddwr Gweithredol Interim Gweithlu a Datblygu'r Sefydliad (GDS) o 1 Mawrth 2021.

12.9 Pwyllgorau

Yn unol ag Adran 2 Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd sy'n dweud y "Gall y Bwrdd, a lle mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn cyfarwyddo hynny, rhaid penodi Pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd naill ai i ymgymryd â swyddogaethau penodol ar ran y Bwrdd neu i roi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd wrth arfer ei swyddogaethau", mae'r Bwrdd wedi sefydlu strwythur Pwyllgorau gyda phobl Pwyllgor Statudol wedi ei gadeirio gan Aelod Annibynnol. Ar ran y Bwrdd, maent yn darparu, yn datblygu trafodaethau, asesu risgiau cyfredol a monitro perfformiad yng nghyswllt sbectwm eang o swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd a'i rolau a'i gyfrifoldebau.

Oherwydd y pwysau cysylltiedig â COVID-19, ataliodd y Bwrdd Iechyd rai o gyfarfodydd ei Bwyllgorau, ac eithrio am y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Cymeradwywyd y cam hwn gan Grŵp Llywodraethiant y Bwrdd a ddisgrifir isod ac fe'i cadarnhawyd yng nghyfarfod y Bwrdd ar 28 Mai 2020.



Yr oedd Pwyllgorau canlynol y Bwrdd yn eu lle yn ystod 2020-2021:

Pwyllgor	Eitemau a Ystyriwyd
Pwyllgor Archwilio Rôl y Pwyllgor Archwilio yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol ynglŷn ag a oes trefniadau effeithiol ar gael i'w cefnogi wrth gymryd penderfyniadau ac wrth fod yn atebol yn unol â'r safonau llywodraethiant da a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru.	• Cyflwynwyd Cynlluniau Archwilio Mewnol i bob cyfarfod gan roi manylion am ddeilliannau, canfyddiadau allweddol a chasgliadau; • Adroddiadau Archwilio Cymru am archwiliadau cyfredol a rhai sydd ar y gweill; • Adroddiadau Datgan Buddiannau; • Adroddiadau Orlhain Cydymffurfio Rheolaethol; • Adroddiadau Orlhain Archwilio Mewnol ac Allanol; • Adroddiadau Dilysu wedi Taliad a Gwrth-Dwyll ; • Adroddiadau Cyfrifon Blynyddol, Atebolrwydd a Thâl am for 2019-2020; • Colledion a Thaliadau Arbennig.
Pwyllgor Cronfeydd Elusennol Pwrpas y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yw gwneud a monitro trefniadau i reoli Cronfeydd Elusennol y BIP Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yw'r elusen swyddogol sy'n cefnogi holl waith y BIP. Crëwyd yr Elusen ar 3 Mehefin 1996 trwy ddatganiad Ymddiriedolaeth,, ac yn dilyn ad-drefnu gwasanaethau iechyd, fe'i diwygiwyd trwy Weithred Atebol ar 12 Gorffennaf 2001 a 2 Rhagfyr 2010. Y BIP yw'r Ymddiriedolwr Corfforaethol i'r Elusen. Mae'r BIP yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am reoli'r cronfeydd i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol Nod yr Ymddiriedolwr Corfforaethol (Ymddiriedolwr) yw codi a defnyddio arian elusennol i roi'r budd mwyaf i gleifion y BIP a gwasanaethau iechyd lleol cysylltiedig yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, trwy ategu talu am wasanaethau craidd y GIG, ond nid trwy gymryd lle cyllid y llywodraeth.	• Adroddiad i'r Panel Bidiau i'r Cronfeydd Elusennol • Adroddiad Monitro Cyllid • Adroddiad Grŵp Buddion Staff • Ceisiadau newydd i'r Cronfeydd Elusennol • Strategaeth cronfeydd elusennol • Adroddiad blynyddol elusen iechyd • Adroddiad blynyddol celfyddydau • Cyfoesiad am fuddsoddiadau
Pwyllgor Gwybodaeth Iechyd Digidol Pwrpas y Pwyllgor yw rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod: • Prosesau a systemau priodol yn eu lle ar gyfer data, rheoli a llywodraethiant gwybodaeth i ganiatáu i'r BIP gwrdd â'i amcanion fel y'u datganwyd, ei gyfrifoldebau statudol ac unrhyw ofynion a safonau angenrheidiol a bennir ar gyfer y GIG yng Nghymru; • Mae gwella parhaus yn digwydd o ran llywodraethiant gwybodaeth yn y BIP ac yr ydym yn rheoli'n briodol y risgiau sy'n deillio o hyn; • Mae cyfathrebu, ymwneud a hyfforddiant effeithiol yn ei le ar draws y BIP am Lywodraethiant Gwybodaeth.	• Gofynion gwarcheidwaid Caldicott ; • Rhyddid Gwybodaeth; • Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR); • Adroddiadau am dorri rheolau data; • Polisiau a gweithdrefnau
Pwyllgor Cyllid Pwrpas y Pwyllgor hwn yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd o ran cyflawni ei gyfrifoldebau o ran ei sefyllfa, perfformiad a chyflwyno ariannol presennol a'r hyn a ragwelir.	• CTCI; • Rhaglen Lleihau Cost; • Cofrestr Risgiau Cyllid; • Adroddiadau Monitro Ariannol; • Ysbyty Calon y Ddraig



Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Pwrpas y Pwyllgor yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol ynglŷn ag a oes trefniadau effeithiol ar gael i sicrhau bod y sefydliad cyfan yn cydymffurfio â Pholisi Iechyd a Diogelwch y BIP, cymeradwyo a monitro cyflwyno yn erbyn y Cynllun Gwella Blaenoriaeth Iechyd a Diogelwch, a sicrhau cydymffurfio â'r safonau perthnasol i Wasanaethau Iechyd yng Nghymru.	• Gorfodaeth Tân; • Archwiliadau Iechyd Amgylchedd; • Archwiliadau asiantaethau gorfodi; • Cydymffurfio ym maes rheoli gwastraff; • Dyfeisiadau i weithwyr ar eu pennau eu hunain • Adroddiad olrhain cyrff rheoleiddio ac adolygu; • Cofrestr Risg
Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a Galluedd Meddyliol Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd am unrhyw feysydd pryder ynghylch cyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl, a rhoi sicrwydd ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau statudol dan y ddeddfwriaeth berthnasol.	• Adroddiadau Monitro'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ac Iechyd Meddwl • Adroddiadau Archwilio Camau Diogelu Gwadu Rhyddid Mesur Iechyd Meddwl; • Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc; • Ymweliad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Pwrpas y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yw rhoi cyngor i'r Bwrdd am ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd a phrofiad cleifion, gan gynnwys iechyd cyhoeddus, hyrwyddo iechyd a gweithgareddau gwarchod iechyd.	• Adroddiadau Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) • Storiâu Cleifion • Fframwaith profiad y cleifion • Datganiad Ansawdd Blynyddol 2019-2020 • Adroddiadau a Chynnydd AIC • Adroddiad Pryderon blynyddol • Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon
Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth Pwrpas y Pwyllgor yw rhoi cyngor i'r Bwrdd ar dâl a thelerau gwasanaeth i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol ac aelodau uwch eraill o'r staff o fewn y fframwaith a osodir gan Lywodraeth Cymru; a sicrwydd i'r Bwrdd o ran trefniadau'r Bwrdd Iechyd am dâl a thelerau gwasanaeth, gan gynnwys trefniadau contractaidd, i'r holl staff, yn unol â'r gofynion a safonau a bennwyd i'r GIG yng Nghymru.	• Materion tâl a thelerau gwasanaeth
Pwyllgor Strategaeth a Chyflwyno Pwrpas y Pwyllgor hwn yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd am ddatblygu a gweithredu strategaeth gyffredinol y BIP, "Llunio ein Lles at y Dyfodol", a chynlluniau galluogi allweddol. Mae hyn yn cynnwys pob agwedd o gyflwyno'r strategaeth trwy'r CTCL ac unrhyw risgiau a all rwystro cyrraedd yr amcanion a osodir allan yn y strategaeth, gan gynnwys camau lliniaru yn eu herbyn.	• Adroddiadau Cynnydd Llunio ein Lles at y Dyfodol; • Cynllun Cyfalaf; • Cynllun Gwasanaethau Clinigol; • Cymru Iachach; • Datblygiadau Masnachol; • Polisiau Cyflogaeth; • Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Sefydliad; • Cynllun Gweithlu; • CTCL.



Cyhoeddir adroddiadau, cynllun gwaith a chylch gorchwyl y [Pwyllgorau ar ein gwefan Pwyllgorau and Grwpiau Ymgynghorol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro \(nhs.wales\)](#).

Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn gosod allan fanylion y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol ac yn cadarnhau aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgorau am 2020-2021, cyfarfodydd a fynychwyd yn ystod tymor yr unigolyn mewn swydd ac unrhyw rolau pencampwr a wnaed. Mae'r tabl ar dudalen 134 yn gosod allan ddyddiadau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau am 2020-2021.

Bydd Cadeirydd pob Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd ar weithgareddau'r Pwyllgorau yn amlinellu'r risgiau allweddol ac yn amlygu meysydd y mae angen eu dwyn i sylw'r Bwrdd er mwyn cyfrannu at ei asesiad o sicrwydd a chraffu yn erbyn cyflwyno amcanion. Mae'r Pwyllgorau, yn ogystal ag adrodd i'r Bwrdd, hefyd yn gweithio ynghyd ar ran y Bwrdd i sicrhau, lle bo angen, fod croes-adrodd ac ystyriaeth yn digwydd ac y darperir sicrwydd a chyngor i'r Bwrdd a'r sefydliad ehangach. Ymhellach, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, cynhyrchodd pob Pwyllgor adroddiad blynyddol am 2020/2021, oedd yn rhoi crynodeb fuddiol o'i waith.

Mae'r holl Bwyllgorau wedi cynnal adolygiad o'u Cylch Gorchwyl yn 2020-2021, copïau o bapurau a chofnodion y Pwyllgor a chrynodeb o gyfrifoldebau a Chylch Gorchwyl pob Pwyllgor ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd:

<https://cavuhb.nhs.wales/about-us/our-board/committees-and-advisory-groups/>

Mae pob Pwyllgor yn cynnal log gweithrediadau sy'n cael ei fonitro ym mhob cyfarfod. Cefnogir pob un o brif Bwyllgorau'r Bwrdd gan strwythur is-bwyllgorau sy'n adlewyrchu cwrdd ei rôl a'i gyfrifoldebau.

12.10 Grwpiau Ymgynghorol a Chydbwyllgorau

Wrth gefnogi'r Bwrdd, mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd hefyd fod â thri Grŵp Ymgynghorol.

Mae'r Grwpiau Ymgynghorol a'r Cydbwyllgorau hyn yn cynnwys:

Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCRh)

Mae'r GCRh wedi ei ffurfio o amrywiaeth o sefydliadau sy'n bartneriaid o bob cwr o ardal y Bwrdd Iechyd. Ei rôl yw rhoi cyngor annibynnol ar unrhyw agwedd o fusnes y Bwrdd Iechyd. Mae'n hwyluso ymwneud llawn a thrafodaeth fywiog ymysg rhanddeiliaid o'r cymunedau a wasanaethir gan y Bwrdd Iechyd, gyda'r nod o gyflwyno safbwynt cytbwys a chydlynus y rhanddeiliaid fel gwybodaeth i gynllunio a gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Iechyd.

Gall hyn gynnwys:

- Ymwneud cynnar a bod yn rhan o bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y Bwrdd Iechyd,
- Darparu cyngor ar gynigion penodol i wella'r gwasanaeth cyn ymgynghori yn ffurfiol,
- Adborth ar effaith gweithrediadau'r Bwrdd Iechyd ar y cymunedau mae'n wasanaethu.



Ymysg materion arwyddocaol yr oedd y GCRh yn ymwneud a hwy yn ystod 2020-2021:

- Cynllun Gwasanaethau Trydyddol,
- Y Cynllun Strategol Cydraddoldeb,
- Cynllun Tymor Canol Integredig 2020-23
- Gosod Blaenoriaethau,
- Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Iach 2020-23,
- Datganiad Ansawdd Blynyddol
- Ysbyty Athrofaol Cymru 2

Fforwm Partneriaeth Lleol (FfPLI)

Mae'r [Fforwm Partneriaeth Lleol \(FfPLI\)](#) yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn a dyma'r mecanwaith ffurfiol i'r Bwrdd Iechyd a Chynrychiolwyr yr Undebau Llafur/ Mudiadau Proffesiynol i weithio ynghyd i wella gwasanaethau iechyd. Ei bwrpas, fel sy'n cael ei osod allan yn y Cylch Gorchwyl, yn dod dan bedair them gyffredinol: cyfathrebu, ystyried, ymgynghori a thrafod, a mantoli.

Cyd-gadeirydd y FfPLI yw Cadeirydd Cynrychiolwyr y Staff a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu'r Sefydliad. Ymysg yr aelodau mae cynrychiolwyr y staff (gan gynnwys yr Aelod Annibynnol dros Undebau Llafur), y Tîm Gweithredol a'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol, y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Gweithlu a Datblygu'r Sefydliad a Phennaeth Llywodraethiant y Gweithlu.

Mae'r FfPLI yn derbyn adroddiadau, i'w nodi, adroddiadau gan yr is-grŵp Polisi Cyflogaeth a Grŵp Buddion y Staff.

Fforwm Gofal Iechyd Proffesiynol (FfGIP)

Ar y Fforwm Gofal Iechyd Proffesiynol (FfGIP) mae cynrychiolwyr o blith amrywiaeth o broffesiynau clinigol a gofal iechyd yn y Bwrdd Iechyd ac ar draws gofal sylfaenol. Mae wedi rhoi cyngor i'r Bwrdd ar faterion proffesiynol a materion clinigol sydd yn eu barn hwy yn briodol. Mae'r Grŵp Ymgynghorol hwn ar hyn o bryd yn cael ei adolygu ac nid yw felly wedi cyfarfod yn ystod 2020-2021. Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o fecanweithiau i geisio cyfraniadau clinigol, er enghraifft, yr oedd cynrychiolydd o'r corff ymgynghorol yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, gan fwydo i mewn sylwadau o ymgynghori gan Feddygon Ymgynghorol ar faterion allweddol megis trawma mawr a llawdriniaeth thorasig. Mae Cylch Gorchwyl a chofnodion yr holl Grwpiau Ymgynghorol ar gael trwy'r ddolen a ganlyn: <https://cavuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/committees-and-advisory-groups/>

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC)

Sefydlwyd PGIAC yn 2010 gan y saith Bwrdd Iechyd i sicrhau bod gan y boblogaeth fynediad teg a chyfartal at amrediad lawn y gwasanaethau arbenigol. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg sy'n cynnal hwn, a chynrychiolir y bwrdd iechyd ar y cydbwyllgor gan y Prif Weithredwr ac y mae'r bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd.



Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (PGAB)

Mae PGAB yn gydbwyllgor o'r saith bwrdd iechyd, gyda'r tair ymddiriedolaeth GIG yn aelodau cysylltiol, ac fe'i sefydlwyd ym mis Ebrill 2014. Mae ganddo gyfrifoldeb dros gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ambiwlans brys ledled Cymru. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg sy'n cynnal hwn, a chynrychiolir y bwrdd iechyd ar y cydbwyllgor gan y Prif Weithredwr ac y mae'r bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd.

Pwyllgor Partneriaethau Cyd-Wasanaethau GIG Cymru (PCGC)

Sefydlwyd y Pwyllgor PCGC gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae'n edrych ar ôl y cyd-swyddogaethau i GIG Cymru, megis caffael, recriwtio a gwasanaethau cyfreithiol. Cynrychiolydd y bwrdd iechyd yw'r Cyfarwyddwr Gweithlu a DG ac y mae'r bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd.



12.11 Partneriaethau a Gwasanaethau Cymru Gyfan

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno ystod o wasanaethau Cymru Gyfan gan gynnwys:

- Canolfan Ffibrrosis Cystig Oedolion;
- Gwasanaethau Aelodau Artiffisial ac Offer;
- Gwasanaeth Geneteg Feddygol;
- Cyn-filwyr GIG Cymru

Daw llawer o'r cyllid i'r gwasanaethau hyn o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Hefyd, mae gan y Bwrdd Iechyd a Phrifysgol Caerdydd record hir a sefydledig o weithio gyda'i gilydd i gyflwyno gwasanaethau eithriadol trwy arloesedd blaengar. Mae gweithio mewn partneriaeth fel hyn wedi arwain at sefydlu Canolfan Feddygol Caerdydd, deorfa fusnes i egin-fusnesau biodechnoleg a thechnoleg feddygol, a'r Bartneriaeth Arloesedd Clinigol.

12.12 Penodiadau Cyhoeddus

Ar 23 Mawrth 2020 ataliodd Llywodraeth Cymru bob ymgyrch Penodiadau Cyhoeddus Gweinidogol yn syth. Fodd bynnag, codwyd hyn ym Medi 2020 ac fe wnaethom ail-gychwyn y broses benodiadau, ac estynnwyd croeso cynnes i dri aeloda Annibynnol newydd:

- Cychwynnodd Mike Jones, Aelod Annibynnol, Undebau Llafur ar ei ddyletswyddau ar 1 Mawrth 2021,
- Cychwynnodd David Edwards, Aelod Annibynnol TGCh ar ei ddyletswyddau ar 1 Ebrill 2021,
- Ymgwymerodd yr Athro Ceri Phillips a rôl Is-Gadeirydd, gan gychwyn ar 1 Ebrill 2021.



12.13 Datganiad Budd Cyhoeddus

Mae pob Aelod o'r Bwrdd wedi datgan yn ysgrifenedig eu bod wedi cymryd yr holl gamau y dylasant fod wedi eu cymryd fel Cyfarwyddwr i wneud archwilyr yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol. Mae pob Aelod o'r Bwrdd a'r Uwch-Reolwyr ac aelodau eu teuluoedd agos (gan gynnwys Cyfarwyddwyr yr holl sefydliadau cynnal) wedi datgan unrhyw fuddiannau ariannol a safleoedd o awdurdod a allai arwain at wrthdaro gyda'r cyfrifoldebau. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau perthnasol yn ystod 2020-2021, ac y mae cofrestr lawn o fuddiannau am 2020-2021 ar gael o wneud cais at y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol.



12.14 Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd a Phwyllgorau 2020-2021

Cyfansoddwyd y Bwrdd i gydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Yn ychwanegol at y cyfrifoldebau ac atebolrwydd a osodir allan yn y telerau ac amodau penodiad, mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cyflawni nifer o swyddogaethau fel Pencampwyr lle maent yn gweithredu fel llysgenhadon dros y materion hyn. Mae'r tabl isod yn amlinellu aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor a chofnod eu presenoldeb am y cyfnod Ebrill 2020-Mawrth 2021.

Yn ystod 2020-2021, cafwyd tair swydd wag am aelodau annibynnol dros Undebau Llafur, TGCh a'r Is-Gadeirydd, a llenwyd hwy oll yn llwyddiannus.

Yn ystod 2020-2021, cafwyd dwy swydd wag am Gyfarwyddwyr Gweithredol, a lenwyd fel a ganlyn:

- Catherine Phillips, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid o 1 Mawrth 2021,
- Rachel Gidman Cyfarwyddwr Gweithredol Interim Gweithlu a Datblygu'r Sefydliadol (GDS) o 1 Mawrth 2021



Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau a chofnod presenoldeb am y cyfnod Ebrill 2020-Mawrth 2021

Enw	Safle a Dyddiadau	Maes Arbenigedd/ Rôl Gynrychioli	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd a Chofnod Presenoldeb	Rôl fel Pencampwr
Charles Janczewski	Cadeirydd Interim Ebrill 2020 – Mehefin 2020 Cadeirydd Mehefin 2020 – Presennol	Cadeirydd	• Bwrdd 7/8 • Bwrdd Ymddiriedolwyr 5/5 • Deddfwriaeth Iechyd a Galluedd Meddyliol (DIGM) 1/3 • Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (ADPh) 1/5 • Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd 2/7 • Pwyllgor Gwybodaeth Digidol am Iechyd (PGDI) 2/3 • Cyllid 11/12 • Tâl a Thelerau Gwasanaeth (TThG) 4/5 • Strategaeth a Chyflwyno 3/5	Nodwedd warchodedig anabled
Michael Imperato	Is-Gadeirydd Interim Ebrill 2020 – Mawrth 2021	Cyfreithiol	• Bwrdd 7/8 • Bwrdd Ymddiriedolwyr 5/5 • Iechyd a Diogelwch 3/4 • DIGM 3/3 • ADPh 5/5 • Archwilio 1/7 • PGDI 3/3 • TThG 4/5 • Strategaeth a Chyflwyno 4/5	Nodwedd warchodedig oedran
Yr Athro Gary Baxter	Aelod Annibynnol – Ebrill 2020 – Presennol	Prifysgol	• Bwrdd 5/8 • Bwrdd Ymddiriedolwyr 2/5 • ADPh 2/5 • PGDI 1/3 • Strategaeth a Chyflwyno 3/5	
Eileen Brandreth	Aelod Annibynnol Ebrill 2020 – Mawrth 2021	Gwybodaeth, Cyfathrebu a Thechnoleg	• Bwrdd 6/8 • Bwrdd Ymddiriedolwyr 4/5 • DIGM 3/3 • Archwilio 7/7 • PGDI 3/3 • TThG 2/5	Arwain ar Blant a Phobl Ifanc a Mamolaeth Nodwedd warchodedig oedran
Cynghorydd Susan Elsmore	Aelod Annibynnol Ebrill 2020 – Presennol	Awdurdod Lleol	• Bwrdd 6/8 • Bwrdd Ymddiriedolwyr 4/5 • Cronfeydd Elusennol 2/5 • ADPh 4/5 • TThG 0/5	Nodwedd warchodedig trawsrywedd
Akmal Hanuk	Aelod Annibynnol Ebrill 2020 – Presennol	Y Gymuned Leol	• Bwrdd 7/8 • Bwrdd Ymddiriedolwyr 3/5 • Cronfeydd Elusennol 4/5 • Iechyd a Diogelwch 3/4 • DIGM 2/3 • ADPh 2/5 • TThG 1/5	Nodwedd warchodedig hil



Enw	Safle a Dyddiadau	Maes Arbenigedd/ Rôl Gynrychioli	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd a Chofnod Presenoldeb	Rôl fel Pencampwr
Sara Mosely	Aelod Annibynnol Ebrill 2020 – Presennol	Trydydd Sector (Gwirfoddol)	- Bwrdd 6/8 - Bwrdd Ymddiriedolwyr 4/5 - Cronfeydd Elusennol 2/5 - DIGM 3/3 - TThG 3/5 - Strategaeth a Chyflwyno 4/5	Pencampwr Iaith Gymraeg, Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Dr Rhian Thomas	Aelod Annibynnol Ebrill 2020 – Presennol	Cyfalaf a Stadau	- Bwrdd 7/8 - Bwrdd Ymddiriedolwyr 4/5 - Cyllid 11/12 - Iechyd a Diogelwch 2/3 - TThG 4/5 - Strategaeth a Chyflwyno 5/5	Nodwedd warchodedig crefydd
John Union	Aelod Annibynnol Ebrill 2020 – Presennol	Cyllid	- Bwrdd 6/8 - Bwrdd Ymddiriedolwyr 2/5 - Cronfeydd Elusennol 2/5 - Cyllid 12/12 - Archwilio 7/7 - TThG 4/5	Nodwedd warchodedig rhyw/rhywedd
Geoffrey Simpson	Aelod Cysylltiol 25 Mawrth 2020 – 23 Medi 2020	Cadeirydd Interim, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	Bwrdd 0/8	
Sam Austin	Aelod Cysylltiol 24 November 2020 – Mawrth 2021	Cadeirydd Interim, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	Bwrdd 0/8	
Sue Bailey	Aelod Cysylltiol Ebrill 2020 – 10 Chwef 2021	Cadeirydd, Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol	Bwrdd 2/8	
Lance Carver	Aelod Cysylltiol Ebrill 2020 – Presennol	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg	Bwrdd 2/8	
Len Richards	Prif Weithredwr Ebrill 2020 – Presennol	PW	- Bwrdd 7/8 - Bwrdd Ymddiriedolwyr 1/5 - PGDI 1/3 - TThG 4/5	Nodwedd warchodedig hil
Robert Chadwick	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Ebrill 2020 – Medi 2020	Cyllid	- Bwrdd 7/8 - Bwrdd Ymddiriedolwyr 5/5 - Cronfeydd Elusennol 5/5 - ADPh 1/5 - Archwilio 7/7 - PGDI 3/3	



Enw	Safle a Dyddiadau	Maes Arbenigedd/ Rôl Gynrychioli	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd a Chofnod Presenoldeb	Rôl fel Pencampwr
Christopher Lewis	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Interim 1 Medi 2020 – 28 Chwefror 2021	Cyllid	- Bwrdd 7/8 - Bwrdd of Ymddiriedolwyr 5/5 - Cronfeydd Elusennol 5/5 - ADPh 1/5 - Archwilio 7/7 - PGDI 3/3	
Catherine Phillips	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid 1 Mawrth 2021 – 31 Mawrth 2021	Cyllid	- Bwrdd 1/1 - Bwrdd Ymddiriedolwyr - Cronfeydd Elusennol 1/1 - Archwilio - PGDI - Cyllid 1/1	
Dr Stuart Walker	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol Ebrill 2020 – Presennol	Meddygol / Ansawdd a Diogelwch	- Bwrdd 7/8 - Bwrdd Ymddiriedolwyr 1/5 - ADPh 4/5 - Archwilio 1/7 - Strategaeth a Chyflwyno 5/5	
Ruth Walker	Cyfarwyddwr Gweithredol Nysio Ebrill 2020 – Presennol	Nysio / Ansawdd a Diogelwch	- Bwrdd 7/8 - Bwrdd Ymddiriedolwyr 3/5 - Cronfeydd Elusennol 4/5 - Iechyd a Diogelwch 1/4 - ADPh 5/5 - DIGM 3/3 - Strategaeth a Chyflwyno 2/5	Nodwedd warchodedig trawsrywedd
Steve Curry	Prif Swyddog Gweithrediadau Ebrill 2020 – Presennol	Gweithrediadau	- Bwrdd 7/8 - Bwrdd Ymddiriedolwyr 2/5 - DIGM 2/3 - ADPh 1/4 - Archwilio 1/7 - Strategaeth a Chyflwyno 3/5 (Dirprwy am un)	Nodwedd warchodedig oedran
Abigail Harris	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol Ebrill 2020 – Presennol	Stadau a Chynllunio	- Bwrdd 8/8 - Bwrdd Ymddiriedolwyr 5/5 - Strategaeth a Chyflwyno 4/5	Pencampwr laith Gymraeg
Dr Fiona Jenkins	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd (<i>rhannu'r rôl 50:50 gyda BI Cwm Taf o 2 Tach 2020</i>) Ebrill 2020 – Presennol	Therapïau a Gwyddorau Iechyd	- Bwrdd 7/8 - Bwrdd Ymddiriedolwyr 5/5 - Cronfeydd Elusennol 4/5 - ADPh 2/5 - Strategaeth a Chyflwyno 1/5	Nodwedd anabledd



Enw	Safle a Dyddiadau	Maes Arbenigedd/ Rôl Gynrychioli	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd a Chofnod Presenoldeb	Rôl fel Pencampwr
Martin Driscoll	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a DG Ebrill 2020 - 28 Chwef 2020	Gweithlu	- Bwrdd 7/8 - Bwrdd Ymddiriedolwyr 5/5 - Iechyd a Diogelwch 1/4 - Archwilio 1/7 - TThG 4/5 - Strategaeth a Chyflwyno 5/5	Nodwedd warchodedig crefydd
Rachel Gidman	Cyfarwyddwr Gweithredol Interim Gweithlu a DG 1 -31 Mawrth 2021	Gweithlu	- Bwrdd 1/1 - Iechyd a Diogelwch 0/1 - Strategaeth a Chyflwyno 1/1	Nodwedd warchodedig crefydd
Fiona Kinghorn	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Ebrill 2020 – Presennol	Iechyd Cyhoeddus	- Bwrdd 8/8 - Bwrdd Ymddiriedolwyr 4/5 - ADPh 2/5 - Strategaeth a Chyflwyno 5/5 - Iechyd a Diogelwch 1/5	Nodwedd warchodedig rhyw/rhywedd
Dawn Ward	Aelod Annibynnol Ebrill 2020 – Ionawr 2021	Undebau Llafur	- Bwrdd 6/8 - Iechyd a Diogelwch 2/4 - ADPh 4/5 - Archwilio 5/8	
Mike Jones	Aelod Annibynnol 1 Mawrth 2021- 31 Mawrth 2021	Undebau Llafur	- Bwrdd 1/1 - Iechyd a Diogelwch 1/1	

Enw	Safle a Dyddiadau	Maes Arbenigedd/ Rôl Gynrychioli	Aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd a Chofnod Presenoldeb	Rôl fel Pencampwr
Aelodau Heb Bleidlais				
Nicola Foreman	Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol	Llywodraethiant	- Bwrdd 8/8 - Bwrdd Ymddiriedolwyr 5/5 - Cronfeydd Elusennol 4/5 - Iechyd a Diogelwch ¾ - DIGM 2/3 - ADPh 5/5 - Archwilio 7/7 - PGDI 3/3 - TThG 4/5 - Strategaeth a Chyflwyno 5/5	Nodwedd anabledd
Allan Wardhaugh	Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol	Digidol	Bwrdd 5/8	





12.15 Pwrpas y System Reolaeth Fewnol

Cynlluniwyd y system o reolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg; felly gall roi sicrwydd am effeithiolrwydd rhesymol yn hytrach nag absoliwt.

Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses gyson a fwriadwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau ar y ffordd i gyrraedd y polisiau, nodau ac amcanion, i werthuso tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny, a'r effaith petaent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd. Bu'r system o reolaeth fewnol yn ei lle am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

12.16 Gallu i drin risg

Bwriadwyd systemau'r Bwrdd Iechyd o reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg; felly gall roi sicrwydd am effeithiolrwydd rhesymol yn hytrach nag absoliwt.


Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses gyson a fwriadwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau ar y ffordd i gyrraedd y polisiau, nodau ac amcanion, i werthuso tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny, a'r effaith petaent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd. Bu'r system o reolaeth fewnol yn ei lle am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddatblygu a gweithredu system o Reoli Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB) sydd yn adnabod, dadansoddi, gwerthuso a rheoli'r risgiau sy'n bygwth cyflwyno ei amcanion strategol. Defnyddir Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Iechyd (FfSB) gan y Bwrdd i adnabod, monitro a gwerthuso risgiau sy'n cael effaith ar Amcanion Strategol ac fe'i hystyrir ochr yn ochr ag arfau rheoli allweddol eraill, megis y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, dangosfyrddau perfformiad ac ansawdd ac adroddiadau ariannol, i roi darlun cyflawn i'r Bwrdd o broffil risg y sefydliad.

Mae Strategaeth Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd ("y Strategaeth") yn gosod allan gyfrifoldebau rheoli risgiau strategol a gweithredol i'r Bwrdd a'r staff ledled y sefydliad ac yn disgrifio'r gweithdrefnau i'w defnyddio i ddadansoddi, gwerthuso a rheoli risgiau i gyflwyno'r amcanion strategol.

Risgiau strategol yw risgiau arwyddocaol a all effeithio ar gyflwyno Amcanion Strategol ac fe'u codir a'u monitro gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd. Risgiau gweithredol yw risgiau allweddol sy'n effeithio ar Fyrddau Clinigol a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol unigol ac a reolir yn y Byrddau Clinigol a'r Cyfarwyddiaethau Corfforaethol ac, os bydd angen, cânt eu huwchgyfeirio trwy strwythur y Bwrdd Iechyd i adrodd am risgiau.





Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB) yn rhan annatod o'r system o reolaeth fewnol ac y mae'n diffinio'r risgiau eithafol posib (15 ac uwch) sy'n cael effaith ar gyflwyno'r Amcanion Strategol. Mae hefyd yn crynhoi'r camau rheoli a sicrwydd sydd ar gael neu gynlluniau i'w lliniaru. Mae'r FfSB yn asio prif risgiau, camau rheoli a sicrwydd allweddol ar y camau ochr yn ochr â phob un o amcanion strategol y Bwrdd Iechyd.

Nodir bylchau lle nad yw'r camau rheoli a'r sicrwydd allweddol yn ddigonol i leihau'r risg o beidio â chyflawni'r amcanion. Mae hyn yn rhoi bod i gynllun gweithredu i gau'r bylchau a lliniaru'r risgiau sydd yn ei dro yn cael ei fonitro gan y Bwrdd o ran gweithredu.

Mae'r Strategaeth yn gymwys i'r aelodau hynny o'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r sawl y mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyfrifoldeb drostynt ac fe'i bwriedir i ymdrin â'r holl risgiau posib y gallai'r sefydliad wynebu.

Gallwch weld copi o'r Strategaeth ar y [ddolen](#) a ganlyn.

Amcanion y Strategaeth yw:

- lleihau effaith risgiau, digwyddiadau andwyol, a chwynion trwy adnabod risgiau yn effeithiol, eu blaenoriaethu, eu trin a'u rheoli
- cynnal fframwaith rheoli risg, sydd yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod risgiau strategol a risgiau gweithredol yn cael eu rheoli yn effeithiol;
- cynnal agwedd gydlynus at lywodraethiant corfforaethol a rheoli adnoddau rheoli risg yn effeithiol;
- sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o ddiwylliant Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro;
- lleihau colledion ariannol y mae modd eu hosgoi, neu gost trosglwyddo risg trwy strategaeth ariannol gadarn;

- sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cwrdd â'i rwymedigaethau parthed lechyd a Diogelwch.

Ar ddechrau 2020/2021 cynhaliodd y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB) ac mewn ymateb i bandemig COVID-19, dogfen ar wahan gan y FfSB am COVID-19 oedd yn nodi'r risgiau mwyaf i gyflwyno Strategaeth y Bwrdd Iechyd 'Llunio ein Lles at y Dyfodol' yn gyffredinol a hefyd o safbwynt COVID-19. Yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Iechyd ym Mai 2020 cytunwyd y byddid yn defnyddio un ddogfen unedig gan y FfSB at y dyfodol fyddai'n cynnwys risgiau oedd wedi codi yn dilyn COVID-19 yn hytrach na chadw dwy ddogfen ar wahan.

O Fawrth 2021 ymlaen, nodwyd y risgiau a ganlyn fel y bygythiadau mwyaf i gyflwyno amcanion strategol y Bwrdd Iechyd:

1. Gweithlu
2. Cynaliadwyedd Ariannol
3. Gofal Sylfaenol a Chymunedol Cynaliadwy
4. Diogelwch Cleifion
5. Diwylliant Cynaliadwy
6. Asedau Cyfalaf
7. Profi, Olrhain a Diogelu
8. Risg gallu annigonol i roi gofal cynlluniedig
9. Risg Cyflwyno'r CTCl

Ochr yn ochr â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cadw Cofrestr Risgiau Corfforaethol sy'n nodi'r risgiau gweithredol eithafol (y rhai sy'n sgorio 15/25 neu'n uwch) a wynebwr gan y Bwrdd Iechyd.

Yn dilyn cyflwyno'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ym mis Tachwedd 2019 aeth y ddogfen trwy gyfnod arwyddocaol o ddatblygu, ac yn dilyn adolygu a chraffu yn nifer o gyfarfodydd preifat y Bwrdd, rhannwyd y Gofrestr yn ffurfiol gyda'r cyhoedd yng nghyfarfod Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn Ionawr 2021.

O Fawrth 2021, ymlaen, rhoddwyd manylion am 25 risg eithafol ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol gyda'r proffil sgorio isod:

- 7 risg wedi'u graddio ar 15/25,
- 8 risg wedi'u graddio ar 16/25; a
- 10 risg wedi'u graddio ar 20/25.

Mae manylion y risgiau hyn ac Adroddiad Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Bwrdd Iechyd a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Iechyd a'r adroddiad sy'n ymdrin â hwy am Ebrill 2021 i'w gweld trwy ddilyn y ddolen isod:

<https://cavuhb.nhs.wales/files/board-and-committees/audit-and-assurance-committee-2021-22/06-04-2021-audit-and-assurance-committee-pdf/>





CYMRU
DI-FWG
SMOKE-FREE
WALES

UNED ACHOSION BRYS

EMERGENCY UNIT

AMBULANCE
ACCESS
POINT

12.17 Rheoli Risg

Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol dros y Strategaeth Rheoli Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn gorwedd gyda'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol sydd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros reoli datblygiad a gweithredu'r Strategaeth Rheoli Risg a Fframwaith Sicrwydd. Mae trefniadau ar gael i asesu a rheoli risgiau yn effeithiol ar draws y sefydliad, sydd yn cynnwys parhau i adolygu a chyfoesi Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol fel bod y Bwrdd yn gallu cael golwg glir ar risgiau strategol a gweithredol allweddol y Bwrdd Iechyd. Yn ystod 2020/21 sefydlodd y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol Dîm Risg a Rheoleiddio'r Bwrdd Iechyd (sef y Pennaeth Risg a Rheoleiddio a dau Swyddog Risg a Rheoleiddio) i ddatblygu mwy ar Strategaeth Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd a'i wreiddio ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol yn cadw rheolaeth dros y FfSB a bydd yn cyfarfod yr Arweinwyr Gweithredol dros risgiau FfSB bob deufis i ofalu bod y risgiau y rhoddir manylion amdanynt yn y FfSB yn cael eu cyfoesi'n rheolaidd i gynnwys risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg i feysydd gwasanaeth fel bod y cofnodion yn adlewyrchu yn gywir ac yn gyfoes y risgiau a wynebier gan y Bwrdd Iechyd.

Mae'r FfSB hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd er mwyn craffu a chymeradwyo bob deufis, ac y mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, fel un o is-bwyllgorau'r Bwrdd, yn goruchwyllo'r broses o roi sicrwydd i'r Bwrdd yng nghyswllt rheoli'r FfSB.

Mae'r Tîm Risg a Rheoleiddio yn monitro ac yn cynnal y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Mae gan bob Adran Gorfforaethol a Bwrdd Clinigol gyfrifoldeb i gynnal cofrestr risgiau corfforaethol fydd yn sail i'r risgiau a adlewyrchir yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae'r Tîm Risg a Rheoleiddio yn cwrdd yn rheolaidd ag arweinwyr risg y Bwrdd Clinigol a'r Adran Gorfforaethol i adolygu a monitro cofrestr risg eu Bwrdd Clinigol/Adran Gorfforaethol a lefelau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cofnodi'n gywir y risgiau y daw eu hardaloedd ar eu traws ac i helpu'r meysydd hynny i risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg i'w gwasanaeth. Yn dilyn yr ymarferiad hwnnw, mae risgiau gweithredol eithafol, y rhai sy'n sgorio 15/25 neu'n uwch, yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'u hadrodd i'r Bwrdd er mwyn craffu a chymeradwyo bob deufis (yn gyhoedd ers Ionawr 2021). Mae unrhyw risgiau a nodir fel rhai sydd â'r potensial i effeithio ar Amcan Strategol y Bwrdd Iechyd yn cael eu hychwanegu at y FfSB. Mae manylion am bob risg ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol hefyd yn cael eu cysylltu i ddolen strategol sydd yn yr FfSB er mwyn sicrhau bod risgiau yn cael eu monitro a'u huwchgyfeirio'n briodol.

Mae'r risgiau allweddol y rhoddir manylion amdanynt ar yr FfSB a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol hefyd yn cael eu rhannu ar lefel is-bwyllgor y Bwrdd priodol er mwyn craffu a thrafodaeth bellach.

Cyfeirir y cofnodion ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol at y Pwyllgorau hynny a enwir ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Mae'r tîm Iechyd a Diogelwch yn hyfforddi staff i reoli prosesau ac asesiadau rheoli risg yn y gweithle. Mae Hyfforddiant Rheoli Risgiau Corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn cael ei reoli gan y Tîm Risg a Rheoleiddio.



Mae'r Tîm Risg a Rheoleiddio yn cynnig sesiynau hyfforddi i arweinwyr risg trwy raglenni hyfforddi wedi eu targedu, a sail o wybodaeth i hyn yw ymwneud rheolaidd y tîm â byrddau clinigol ac adrannau corfforaethol. Ochr yn ochr â hyn, mae'r tîm, ers Mawrth 2021, wedi cynnig sesiwn hyfforddi ar-lein wythnosol ar Reoli Risg sydd ar gael i holl aelodau'r staff. Bwriadwyd cynllun hyfforddi'r Tîm Risg a Rheoleiddio i wreiddio agwedd gyson at reoli, sgorio a chofnodi risg o'r wardiau i'r byrddau ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae'r risgiau y rhoddir manylion amdanynt yn yr FfSB a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael eu hystyried wrth bennu awch y Bwrdd Iechyd am risg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad oes modd cyflwyno gofaliachd oni chymerir risgiau, yn ogystal ag ystyried y canlyniadau a chamau lliniaru. Mae hefyd yn gwneud yn siwr nad yw risgiau yn cael eu hystyried ar eu pennau eu hunain a'u bod yn cael eu cymryd wedi ystyried yr holl risgiau sy'n llifo drwy'r sefydliad.

Yn sesiwn Datblygu'r Bwrdd ar 29 Hydref 2020 cytunodd y Bwrdd i ddefnyddio Matrics Awch Risg y Sefydliad Llywodraethiant Da (GGI) i osod ei awch risg (cyfredol- (Gwyladwrs) a 'gweithio tuag at' safbwyntiau (Agored).

Yn sesiwn Datblygu'r Bwrdd ar 17 Rhagfyr 2020 cyflwynodd y Cyfarwyddwr o'r Llywodraethiant Corfforaethol ddulliau amgen o ddisgrifio Awch Risg a'u harchwilio gan y Bwrdd a phenhwyd byddai ychwanegu is-elfennau at Fatrics GGI (yn enwedig y rhai sy'n rhoi mwy o bwyslais ar gleifion a'r gweithlu) fyddai'n galluogi gosod ei awch risg yn well ar lefel weithredol. Datgelwyd esiampl o is-elfennau posib i'r Bwrdd ar

17 Rhagfyr 2020 a rhannwyd drafft pellach o Fatrics Awch Risg y Bwrdd Iechyd gyda'r tîm Rheolwyr Gweithredol gyda golwg ar ddefnyddio'r ddogfen fel rhan o gynllun cyflwyno Awch Risg y Bwrdd Iechyd am 2021/22.

Mae cyfathrebu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid a phartneriaid mewnol ac allanol, fel sy'n briodol, ar bob cyfnod o'r broses o reoli risg ac ymwneud â'r broses yn bwysig iawn. Bydd amllder cyfathrebu yn amrywio yn dibynnu ar ddifrifoldeb y risg, a chaiff ei drafod a chytunir arno gyda'r rhanddeiliaid a'r partneriaid yn ôl y galw. Arweinir y broses hon gan y sawl a enwebir i arwain ar reoli'r risg, ac i gyfathrebu â rhanddeiliaid allanol, y cyfarwyddwr gweithredol a bennir i arwain ar risg fydd hwn/hon. Fel arweinydd dynodedig Rheoli Risg, mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol hefyd yn mynychu Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Bwrdd Iechyd i roi gwybodaeth i rhanddeiliaid cyhoeddus am weithgareddau'r Bwrdd gan gynnwys rheoli risg.

Lle nodir gwendidau yn y system, caiff y rhain eu hadolygu a'u trafod yn lleol ar lefel bwrdd clinigol a chyfarwyddiaeth, a lle bo hyn yn briodol, fe'u cyfeirir at y Tîm Risg a Rheoleiddio i'w hystyried a'u hanfon ymlaen at y Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Bwrdd Rheoli Systemau Iechyd ar gyfer craffu a chamau pellach.



12.18 Rheoli Risgiau yn ystod COVID-19

O ganlyniad i ymateb i bandemig COVID-19, ail-werthusodd y bwrdd iechyd eu hagwedd weithredol er mwyn gwneud yn siwr y gallai gwrdd â'r galwadau cynyddol newidiol ar y gwasanaeth yn sgîl y pandemig. Yn ystod 2021/2021 ail-drefnwyd strwythurau gweithredu cyfarwyddiaethau Byrddau Clinigol y Bwrdd Iechyd dros dro fel bod gweithgaredd clinigol yn cael ei reoli gan ganolfannau gorchymyn lleol ar safleoedd ysbytai allweddol a chymunedol (Ysbyty Athrofaol Cymru, Ysbyty Athrofaol Llandochoau ac Ysbytai Ymchwydd y Bwrdd Iechyd) yn lle strwythurau gorchymyn hanesyddol y byrddau clinigol i ganiatáu i Fyrddau Clinigol ymateb yn gyflym i'r pandemig.

I gefnogi'r Canolfannau Gorchymyn yn eu hymagwedd ac er mwyn gwneud yn siwr bod y meysydd yn dal yn atebol o ran llywodraethiant eu byrddau, gweithredu trafodion ac ymrwymadau cydymffurfio statudol, sefydlwyd Cofrestri Risgiau Canolfannau Gorchymyn Lleol i fwydo i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol fel bod y Bwrdd Iechyd yn dal i allu cael golwg ar y gweithgareddau yn y canolfannau gorchymyn. Yr oedd cofrestri risgiau'r canolfannau gorchymyn lleol yn bodoli ochr yn ochr â Chofrestri Risgiau Byrddau Clinigol, gan fod yn ail haen o sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd fod risgiau gweithredol yn cael eu rheoli yn briodol trwy gydol y flwyddyn.

13. Datgeliadau Gorfodol

Yn ychwanegol at yr angen i adrodd yn erbyn cyflwyno'r Safonau Iechyd a Gofal a'r Safonau Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru, mae angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd adrodd fod trefniadau ar gael i reoli ac ymateb i'r materion llywodraethiant isod:

13.1 Safonau Iechyd a Gofal

Yn 2017-2018, cyhoeddwyd set ddiwygiedig o Safonau Iechyd a Gofal i GIG Cymru. Yn benodol, cyflwynwyd safon newydd am Llywodraethiant, arwain at Atebolrwydd.



Mae angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf isod i gwrdd â'r safon:

- Gwasanaethau iechyd i ddangos arweiniad effeithiol trwy osod cyfeiriad, tanio brwdfrydedd, cyflymder a symud, a datblygu pobl.
- Gosod strategaeth gan ganoli ar ddeilliannau, a dewisiadau seiliedig

ar dystiolaeth a mewnwleidiad pobl. Agwedd o gydweithredu yw hyn seiliedig ar bwrpas cyffredin.

- Gwasanaethau iechyd i arloesi a chyflwyno, cynllunio adnoddau a blaenoriaeth, datblygu rolau, cyfrifoldebau a modelau cyflwyno clir, a rheoli perfformiad a gwerth am arian.
- Gwasanaethau iechyd i feithrin diwylliant o ddysgu a hunanymwybyddiaeth, ac uniondeb personol a phroffesiynol.

Oherwydd COVID-19 cynhelir hunanasesiad Safonau Iechyd a Gofal mwy cyfyngedig eleni gan y Grwpiau ADPh arbenigol ar draws y sefydliad. Adroddir yn llawn am hyn i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ym Mehefin 2021. Caiff ei oruchwyllo gan Archwilyr Mewnol.

13.2 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd, dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gynhyrchu **Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)** bob pedair blynedd. Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw dogfennu'r camau a gymer y sefydliad i gyflawni ei Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Wrth baratoi ac adolygu eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd ymwneud yn briodol a chadw mewn cof wybodaeth berthnasol.

Mae'r CCS cyfredol, Gofalu am Gynhwysiant 2020-2024 yn cynnwys nifer o amcanion

cyflwyno allweddol ac fe'i seilir ar wreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol, a'r iaith Gymraeg ym mhrosesau busnes y Bwrdd Iechyd. Mae'r CCS yn asio'n agos â'n strategaeth deng-mllynedd 'Llunio Ein Lles at y Dyfodol', ein Cynllun Tymor canol Integredig yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Dyma flwyddyn gyntaf ein Cynllun pedair-blynedd cyfredol.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i geisio cwrdd ein hymrwymiaidau cyfreithiol a mynd y tu hwnt iddynt, a chymhwyso'r egwyddorion sydd yn Neddff Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (DCSC) i'n holl feddwl, cynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae hyn wedi cynnwys cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) a adolygwyd yng ngoleuni digwyddiadau diweddar yn 2020 ynghylch materion anghydraddoldeb. Mae lleihau anghydraddoldeb iechyd yn un o nodau strategol y sefydliad fel sydd yn ein Strategaeth 'Llunio Ein Lles at y Dyfodol'⁴.

Fel sefydliad yr ydym ni, fel gweddill GIG Cymru, wedi wynebu heriau ac yn dal i wneud, o ran ein rôl fel cyflogwr a darparwr gwasanaeth. Daethom dan bwysau galwadau enfawr am rai o'n gwasanaethau a bu effaith na welwyd erioed mo'i fath ar ein staff.

Mae cyhoeddi Adroddiad Is-grŵp COVID-19 Cymdeithasol-economaidd Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfle i ni adfyfyrio, dysgu a gwneud pethau'n wahanol tra bod y sefydliad yn gweithio ar ei Strategaeth Cydraddoldeb Plan – Gofalu am Gynhwysiant. Er enghraifft, ym mis Gorffennaf 2020, derbyniodd ein Rheoli Gweithredol gyflwyniad gan y

⁴ <http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1143/10%20-%20UHB%20Shaping%20Our%20Future%20Wellbeing%20Strategy%20Final.pdf>



Rheolwr Cydraddoldeb a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu'r Sefydliadol i osod allan rai o'r camau cyntaf mewn "Gwelliant er mwyn Cynhwysiant". Cydnabuwyd a derbyn nad oes modd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn ddiofal na chan fentrau ysbeidiol, digyswllt: fod angen i'n gweithredoedd gael eu cynllunio'n dda, fod yn strategol, cynaliadwy a'u cymryd o ddifrif.

Penderfynodd y sefydliad y bydd pob Cyfarwyddwr Gweithredol yn ymgymryd â chyfrifoldeb dros nodwedd warchodedig benodol wrth i'r gwaith hwn ddatblygu. Mae ein prif Weithredwr, i ddangos ei ymrwymiad personol i'r gwaith hwn, yn arwain ar nodwedd warchodedig Hil.

Mae adolygiad pellach o rai o'n polisïau cyflogaeth wedi arwain at ddatblygu Polisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol newydd. Mae'r Bwrdd Iechyd eisiau adeiladu enw da am ddangos arfer eithriadol ym maes cysylltiadau cyflogaeth a chyflwyno gwasanaethau, ac fe fyddwn yn gweithio i wneud yn siwr fod egwyddorion cydraddoldeb, cynhwysiant, amrywiaeth a hawliau dynol yn cael eu perchenogi, eu dangos ac y rhoddir gwerth arnynt gan bawb yn y sefydliad - y Bwrdd, aelodau'r staff a'r sawl sy'n darparu gwasanaethau ar ran y sefydliad.

Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes hirfaith o weithio'n gryf mewn partneriaeth. Yr ydym am weithio gydag eraill i gryfhau gwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Er enghraifft, yr ydym yn arwain ar Ffrwd Waith Iechyd Cyngor Caerdydd i ddatblygu Tasglu Cydraddoldeb Hil.

Ar raddfa partneriaethau ehangach, datblygwyd ein CCS gyda chyrff cyhoeddus eraill. Yr oedd ein partneriaeth gyda chyrff cyhoeddus yn cynnwys y canlynol: Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cyngor Celfyddydau

Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), Comisiynydd yr iaith Gymraeg, Awdurdod refeniw Cymru, Gwella Addysg Iechyd Cymru (GAIC), ESTYN, Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Felindre. Ein nod yw sicrhau y bydd ein Hamcanion Cydraddoldeb am 2020-2024 yn ymdrin â'r heriau iechyd a osodir allan yn '[A Yw Cymru'n Decach?](#)' 2018. Yr oedd y cyrff cyhoeddus hyn yn awyddus i gymryd camau i gytuno ar amcanion ar y cyd ac eisiau cydweithio i rannu adnoddau, mewnwelediad ac arbenigedd. Mae'r agwedd hon yn hyrwyddo gweithio clyfrach ac yn creu'r gallu i ehangu ymwneud rhanddeiliaid a'r gymuned. Mae gan uno y tu ol i amcanion a rennir y potensial i ddylanwadu ar fwy o weithio ar y cyd a rhannu arferion, hyrwyddo mwy o effaith ar draws y sector cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a'r 'agenda atal'. Yr oedd canolbwynt hefyd ar sicrhau mai'r amcanion eu hunain, a'r nodau tymor-hir y byddant yn cyfrannu atynt, yw'r rhai iawn.

Er nad yw iaith yn nodwedd warchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 - hyrwyddir amddiffyn yr iaith Gymraeg dan ddeddfwriaeth ar wahân (Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau Cysylltiedig) - cydnabuwyd ers amser fod yr agenda cydraddoldeb a pholisïau'r iaith Gymraeg yn ategu ei gilydd. Fe'i cefnogir ymhellach trwy Nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu. Ein nod yw cynnal a chryfhau'r egwyddor hon trwy ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a gofalu eu bod yn hyrwyddo ac yn gwarchod y Gymraeg.



Mae camau rheoli yn eu lle i wneud yn siwr bod y sefydliad yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol , gan gynnwys:

- Datblygu a chynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd – Gofalu am Gynhwysiant 2020- 2024;
- Yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol;
- Adroddiadau cydraddoldeb i'r Pwyllgor Strategaeth a chyflwyno ar amcanion a gweithredoedd y Bwrdd Iechyd;
- Adroddiadau/Cyfoesiadau ar gais i'r Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
- Adroddiad Deilliannau i Dîm Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru ynghylch coll synhwyaidd;
- Darparu tystiolaeth i'r hunanasesiad Safonau Iechyd a Gofal ;
- Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ac Iechyd er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau a datblygu strategaethau neu bolisïau.
- Yn dilyn lladd George Floyd ym mai, tynnodd protestiadau Mae Bywydau Duon yn Cyfrif a ddigwyddodd dros yr haf sylw at yr anghydraddoldeb systemaidd a wynebier gan bobl Ddu, Asiaidd a/ neu o Leiafrifoedd Ethnig nid yn unig yn UDA ond hefyd yma yn y DU. Mae COVID-19, yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau ethnig, gyda'r ystadegau sydd ar gael yn awgrymu bod y grwpiau hyn hyd at ddwywaith yn fwy tebygol o farw o'r clefyd na'u cymheiriaid gwynion. Yng ngoleuni hyn, mewn rhifyn o'r Prif

Swyddog Gweithredol yn Cysylltu, gofynnodd ein Prif Weithredwr i aelodau o staff o gefndiroedd Du, Asiaidd a/neu Leiafrifoedd Ethnig rannu eu profiadau o weithio yn y Bwrdd Iechyd a phroblemau anghydraddoldeb y daethant ar eu traws. Rhennir adroddiad am eu profiadau gyda'r Bwrdd yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf,

- Mae ein holl gyfarwyddwyr gweithredol wedi cymryd rôl arweiniol ar draws y naw nodwedd warchodedig a bennir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, hunaniaeth ryweddol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol. Y Prif Weithredwr sy'n arwain ar anabledd.
- Mae rhai o'n staff yn aelodau o grŵp Cynllun Cydraddoldeb Hil Llywodraeth Cymru ac o Dasglu Cydraddoldeb Hil Caerdydd.
- Ar 30 Ionawr 2021 llofnodwyd Memorandwm Dealltwriaeth (MD) gyda Chymdeithas Brydeinig y Ffisegwyr o Darddiad Indiaidd (BAPIO). Dyma'r cyntaf o'i fath i'r Bwrdd Iechyd a BAPIO, ac y mae'n dangos ein hymrwymiad a'n parodrwydd i fwrw ymlaen â newid ystyrion a gweladwy. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyflogwr cynhwysol sy'n elwa o amrywiaeth ei staff, ac ar ei ennill yn enfawr o'r diwylliannau, treftadaethau a chenhedloedd lluosog a gyflogir gennym.



Y Ddyletswydd Cymdeithasol-economaidd

Mae Llywodraeth Cymru dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi cyflwyno'r Ddyletswydd Cymdeithasol-economaidd i gyrff cyhoeddus penodol, megis y bwrdd iechyd hwn, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021. Nid oes gofyniad adrodd yn gysylltiedig â'r ddyletswydd.

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw cyflwyno gwell deilliannau i'r sawl sy'n profi anfantais cymdeithasol-economaidd. Mae'r Ddyletswydd Cymdeithasol-economaidd yn gofyn i gyrff cyhoeddus penodol, wrth wneud penderfyniadau strategol megis 'penderfynu blaenoriaethau a gosod amcanion', i ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais cymdeithasol-economaidd.

Bydd y Ddyletswydd Cymdeithasol-economaidd yn hyrwyddo'r canlynol:

- ✓ Cydraddoldeb deilliant.
- ✓ Cyfle i godi proffil a dealltwriaeth o anfantais cymdeithasol-economaidd ac anghydraddoldeb.
- ✓ Hyder i herio gwneud penderfyniadau o ran anghydraddoldebau.
- ✓ Ystyried effaith posib penderfyniadau a cheisio osgoi deilliannau negyddol.
- ✓ Ystyried effaith natur ryngadrannol
- ✓ Yr angen i ddwyn pobl a chymunedau i mewn wrth gynllunio gwasanaethau a chynllunio polisiau.
- ✓ Defnydd effeithiol o fewnwelediad a data i wneud penderfyniadau at y tymor hir, gan osgoi problemau rhag gwaethygu.
- ✓ Symudiad yn niwylliant y sefydliad.

Bydd y Ddyletswydd Cymdeithasol-economaidd yn cefnogi hyn trwy sicrhau, fel corff cyhoeddus sy'n cymryd penderfyniadau strategol, y bydd y bwrdd iechyd yn:

- cymryd i ystyriaeth dystiolaeth a'r effaith posib trwy ymgynghori ac ymwneud
- deall barn ac anghenion y rhai sydd wedi dioddef effeithiau o ganlyniad i'r penderfyniad, yn enwedig y sawl sydd dan anfantais cymdeithasol-economaidd
- croesawu herio a chraffu
- gyrru newid yn y ffordd y gwneir penderfyniadau a'r ffordd mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gweithredu

Fel corff cyhoeddus, mater i'r bwrdd iechyd yw dangos tystiolaeth sut y mae'n cwrdd â'r gofyniad statudol. Fodd bynnag, argymhellir y dylai gyrff cyhoeddus perthnasol ddangos trywydd archwilio clir am yr holl benderfyniadau a wneir dan y Ddeddf, gan ddefnyddio prosesau sy'n bodoli eisoes, megis prosesau asesu effaith a systemau ymgysylltu. Mae'r bwrdd iechyd, trwy eu proses Effaith Cydraddoldeb ac iechyd, eisoes mewn lle da i gychwyn y trywydd archwilio hwn, ond mae'n cydnabod y gall fod gwaith i'w wneud o hyd, yn enwedig ynghylch

- cymryd agwedd integredig at asesu effaith
- cymryd agwedd ehangach at ymwneud ac ymgysylltu i gynnwys anfantais cymdeithasol-economaidd
- datblygu fframweithiau craffu i gynnwys craffu ar effaith parthed



anhydraddoldeb deilliant sy'n codi o anfantais cymdeithasol-economaidd

- cymryd agwedd integredig at gynllunio ac adrodd
- datblygu mesurau perfformiad integredig
- ystyried atal anhydraddoldebau deilliant a achosir gan anfantais cymdeithasol-economaidd trwy gymhwyso pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r ddyletswydd yn gymwys i holl benderfyniadau'r bwrdd iechyd a wnaed wedi 31 Mawrth 2021.

Mae gan y Bwrdd Iechyd **Bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol** sy'n gosod allan ymrwymiad y sefydliad i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yng nghyswllt cyflogaeth, cyflwyno gwasanaethau, cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau, contractwyr ac asiantaethau sy'n bartneriaid. Mae'n hygyrch i'r cyhoedd yn ogystal â staff. Nod y Bwrdd Iechyd yw sicrhau na fydd yr un grŵp nac unigolyn yn derbyn triniaeth lai ffafriol naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Mae mwy o wybodaeth am gymhwyso'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yng nghyswllt ein gweithlu yn Adran 6.4.

13.3 Rheoliadau'r Iaith Gymraeg – Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 7) 2018

Gwnaed rheoliadau oedd yn gwneud safonau'r iaith Gymraeg yn gymwys i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd gan Gynulliad Cymru ym Mawrth 2018 (Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg Rhif 7 2018) a daethant i rym ar ddiwedd Mehefin 2018. Ers hynny mae Comisiynydd yr Iaith Gymraeg wedi cyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ac y maent wedi dechrau cydymffurfio â'r safonau o 30 Mai ymlaen. Mae Grŵp Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd yn goruchwyllo cynnydd ac yn adrodd i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflwyno.

Yn ystod 2020-2021 daliodd y sefydliad ymlaen gyda'u hymdrechion i weithredu gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg, gan weithio'n agos gyda gwasanaethau i sicrhau eu bod oll yn cydymffurfio. Buom yn gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau trwy hyfforddiant cynefino corfforaethol i'r holl staff newydd, hyfforddiant gorfodol i'r staff presennol yn ogystal â digwyddiadau eraill ledled y sefydliad.

Oherwydd pandemig COVID-90, gohiriwyd yr Eisteddfod Genedlaethol oed di fod i'w chynnal yng Ngheredigion yn 2020 tan 2022. Fodd bynnag, yr ydym yn parhau i hyrwyddo ein hymrwymiad i'r Gymraeg fel yr amlinellir isod.

Gall **Safonau'r Iaith Gymraeg** a osodir ar y Bwrdd Iechyd fod yn heriol ar adegau, ond maent hefyd yn rhoi sawl cyfle i ni ddatblygu ein hunain fel unigolion, ac yn bwysicach, fel tîm ehangach.





Yn y gorffennol,. Gwelwyd yn aml fod llawer adran ac unigolyn yn gyndyn i gydnabod Safonau'r Iaith Gymraeg a'u bwriadau. Yn 2020/21 fe wnaethom lansio ymgyrch fewnol i godi ymwybyddiaeth o'r iaith, gan ofyn i'r staff 'Feddlw' sut y gallai ystyried y Gymraeg wella'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu. Mae hyn yn annog y staff i ystyried sut y mae modd ymgorffori'r Gymraeg yn eu gwaith bob-dydd, a'r hyn y gallant hwy ei wneud i annog twf yr iaith yn y Bwrdd Iechyd ac ymysg cydweithwyr.

Bydd mynediad at wasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn Gymraeg, tra bydd yn dangos i randdeiliaid allanol fod yr iaith Gymraeg yn gynyddol ar flaen meddwl y Bwrdd Iechyd, yn y pen draw yn arwain at wella lefel y gofal mae ein cleifion yn ei dderbyn.




Gweithredwyd y canlynol yn unol â delfrydau a dyheadau Safonau'r Iaith Gymraeg a'r ymgyrch Meddwl Cymraeg – Think Welsh campaign:

- Adolygu'r holl Safonau a chael cyfoesiadau gan berchenogion y Safonau trwy ddefnyddio meddalwedd rheoli prosiect 'Verto' sydd yn monitro gweithredu a chynnydd ein camau i gwrdd â Safonau'r Iaith Gymraeg. Bydd y system yn caniatáu i ni bennu llwyddiant yr ymgyrch a gweithredu'r safonau gan ddefnyddio system raddio RAG sy'n amlinellu safonau caeedig, agored a chynyddu. Bydd y cynllun yn ei gyfanrwydd yn llwyddiannus pan fydd mwy o safonau gwyrdd 'Caeedig' na safonau 'Agored' a 'Chynyddu' sy'n golygu bod y Bwrdd Iechyd yn symud tuag at gydymffurfio llawn. Yr ydym bellach wedi cau 68 o'r 120 safon.
- Lansio ymgyrch Meddwl Cymraeg -Think Welsh
- Ail-sefydlu'r grŵp Strategaeth Cydraddoldeb a Safonau'r Iaith Gymraeg
- Penodi dau Uwch-gyfieithydd
- Y gwaith o gyfieithu gwefan y Bwrdd Iechyd ar waith gan Trosol, un o brif gwmnïau cyfieithu ac isdeitlo Cymru, ac y mae'r holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol yn awr yn cael eu rhedeg yn ddwyieithog
- Heriwyd staff y Bwrdd Iechyd i ddysgu sgiliau iaith Gymraeg newydd fel adduned blwyddyn newydd; darparwyd pecynnau hyfforddi ac y mae gwersi rhithiol yn cael eu trefnu at y dyfodol



- Gweithio mewn partneriaeth â'r adran Cyfalaf a Stadau i sicrhau bod arwyddion yn ddwyieithog ar draws holl safleoedd y Bwrdd Iechyd
- Cynllun peilot o Becynnau Derbyn i gleifion Cymraeg eu hiaith ar hyn o bryd yn cael eu cyflwyno mewn iechyd meddwl, pediatreg a'r UGD, gyda'r bwriad o'u cyflwyno i'r wardiau i gyd
- Cydweithredu gydag Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd yng nghyswllt myfyrwyr meddygol i gael hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg tra'u bod ar leoliad
- Cydgordio cydweithrediad ar ran yr Elusen Celfyddydau ac Iechyd yn Ysbyty Plant Arch Noa Cymru mewn mur ar thema'r gofod i gleifion a staff i godi ymwybyddiaeth o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg fydd yn caniatáu i gleifion sy'n siarad Cymraeg a'r di-Gymraeg ymwneud a hyn cyn llawdriniaethau, fydd yn helpu i dawelu meddyliau a thynnu sylw'r cleifion ifanc

Yn 2020-2021 cafwyd 6 o gwynion ynghylch cydymffurfio a'r Safonau Iaith Gymraeg. Ymchwiliwyd i'r rhain oll, a lle bo modd, eu hunioni.



13.4 Parodrwydd am Argyfyngau

Fel yr amlygwyd eisoes, yr oedd yr angen i gynllunio ac ymateb i bandemig COVID-19 wedi golygu bod y Bwrdd Iechyd wedi wynebu sawl her. Nodwyd nifer o risgiau newydd a daeth eraill i'r golwg. Er bod gan y sefydliad gynllun digwyddiad mawr a pharhad busnes, yn ôl gofynion Deddf Argyfyngau Sifil Posib 2004, bu graddfa ac effaith y pandemig yn ddigynsail. Cymerwyd camau arwyddocaol ar lefel genedlaethol a lleol i baratoi ac ymateb i'r effaith tebygol ar y sefydliad a'r boblogaeth. Mae hyn hefyd wedi golygu gweithio mewn partneriaeth ar yr ymateb amlasiantaethol fel aelod allweddol o'r Grŵp Cydgordio Strategol. Erys lefel o ansicrwydd am yr effaith gyffredinol a gaiff hyn ar wasanaethau yn syth ac yn y tymor hir gan y sefydliad, er ein bod yn hyderus fod yr holl gamau priodol yn cael eu cymryd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru wrth ddal ati gyda'u hymateb, a chynllunio ar gyfer y cyfnod adfer.

Bu graddfa ac effaith y pandemig yn ddigynsail, ac yr oedd yn galw am weithredu ar lefel leol a chenedlaethol. Yr oedd y gofyniad i gynllunio ac ymateb i'r pandemig yn golygu sawl her i'r Bwrdd Iechyd. Rhagwelwyd y byddai'r effaith ar y sefydliad ac ar iechyd y boblogaeth yn fawr. Yr oedd y risgiau hyn yn galw am roi Grŵp Cydgordio Strategol (GCS) y Fforwm Gwytnwch Lleol (FfGLL) ar waith.

Erys peth ansicrwydd am yr effaith cyffredinol ar gyflwyno gwasanaethau yn syth ac yn y

tymor hir gan y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, cynhyrchwyd cynnig manwl am adferiad, sydd yn rhoi manylion am y camau priodol a flaenoriaethwyd ac sy'n dwyn i mewn yr holl bartneriaid. Cefnogir hyn gan fframwaith cadarn o reoli risg, a'r gallu i adnabod, asesu a lliniaru risgiau a all gael effaith y gallu i gyrraedd amcanion strategol y Bwrdd Iechyd.

13.5 Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol

Wedi i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi argyfwng hinsawdd yn Ionawr 2020, datblygwyd Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd a'i gymeradwyo gan ein Bwrdd, wedi'i oruchwylio gan Grŵp Gweithredu Cynaliadwyedd. Ar draws wyth dimensiwn, gosodwyd camau i wella ein hól troed carbon fel sefydliad a chynllunio am newidiadau strategol. Y dimensiynau hyn yw: ynni; gwastraff a bwyd; dŵr; trafnidiaeth; pobl; caffael; yr amgylchedd adeiledig, seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth; gofal clinigol.

Un enghraifft o'r modd y rhoddir y cynllun gweithredu hwn ar waith yw ein rhaglen Lluoio ein Dyfodol Clinigol, sydd yn gosod allan sut y darperir gofal yn y dyfodol agos, gyda phwyslais ar atal salwch a rheoli cyflyrau gartref ac yn y gymuned trwy ein rhwydwaith gofal sylfaenol, sy'n fodel mwy cynaliadwy na datrys problemau iechyd unwaith iddynt godi yn yr ysbyty. Cymerwyd canfyddiadau cychwynnol y rhaglen hon i ddigwyddiadau ymwneud â'n poblogaeth a chafwyd mandad i ymchwilio ymhellach. Bydd y cynlluniau hyn yn amodol ar fwy o ymwneud ac ymgynghori wrth iddynt ddatblygu.



Gwnaed cryn gynnydd i wella effeithlonrwydd ynni ein stad a bydd hyn yn parhau.

Llynedd, rhyddhaodd Cyngor Caerdydd eu strategaeth [Caerdydd Un Blaned](#), gyda'r nod o gael dinas sero net erbyn 2030. Mae Bro Morgannwg hefyd wedi cyhoeddi eu menter Prosiect Sero ([Cynllun Drafft Proiect Sero](#)) gyda nodau sero-net tebyg. Mae'r Bwrdd lechyd yn cefnogi'r strategaethau hyn a byddwn yn cydweithio gyda'n partneriaid ar y cyngor i wireddu'r nodau hyn. Mae disgwyl i feysydd cydweithio cynnar gynnwys cyfathrebu gyda'n poblogaeth a'n staff i gyflymu newid ymddygiad ynghylch meysydd fel defnyddio llai o ynni a mwy o ailgylchu.

Mae mwy o wybodaeth yn yr adroddiad am berfformiad.

13.6 Cynlluniau Cyflwyno Lleihau Carbon

Cynhaliodd y Bwrdd lechyd asesiadau risg ac y mae Cynlluniau Cyflwyno Lleihau Carbon ar gael yn unol â pharodrwydd am argyfyngau a gofynion argyfyngau sifil ar sail rhagfynegiadau tywydd UKCIP 2009 er mwyn sicrhau cydymffurfio â rhwymedigaeth y Bwrdd lechyd dan Ddeddf Newid Hinsawdd ac y cydymffurfir â gofynion Adrodd am Addasu. Mae gwybodaeth bellach am weithgareddau allweddol a wneir yng nghyswllt materion amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol a lleihau carbon yn yr Adroddiad Cynaliadwyedd.


Cynhaliodd y Bwrdd lechyd asesiadau risg ac y mae Cynlluniau Cyflwyno Lleihau Carbon ar gael yn unol â pharodrwydd am argyfyngau a gofynion argyfyngau sifil ar sail rhagfynegiadau tywydd UKCIP 2009 er mwyn sicrhau cydymffurfio â rhwymedigaeth y Bwrdd lechyd dan Ddeddf Newid Hinsawdd ac y cydymffurfir â gofynion Adrodd am Addasu.



13.7 Trefniadau Llywodraethiant Ansawdd

Un o nodweddion hanfodol ein fframwaith rheoli yw sicrhau bod system gadarn ar gael i fesur ac adrodd am ansawdd ein gwasanaethau. Mae ein Pwyllgor Ansawdd Diogelwch a Phrofiad yn rhoi cyngor ar sail tystiolaeth i'r Bwrdd i'w helpu i weithredu ei swyddogaethau a chwrdd â'i gyfrifoldebau o ran ansawdd a diogelu yn ogystal â rhoi sicrwydd mewn perthynas â gwella profiad pawb sy'n dod i gysylltiad â'n gwasanaethau.

Yn draddodiadol, mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol (DAB) yn ffurfio rhan o'n proses adrodd ac yn rhoi cyfle i ni ddisgrifio mewn ffordd agored a gonest sut yr ydym yn sicrhau bod ein holl wasanaethau yn ymdrin ag anghenion lleol ac yn cwrdd â'r safon uchel angenrheidiol. Gan nad oes gofyniad gorfodol i gynhyrchu DAB ar gyfer 2020-2021 oherwydd pandemig COVID-19, gellir gweld gwybodaeth am ein trefniant Llywodraethiant Ansawdd trwy'r papurau cyhoeddus ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Cleifion ar ein [gwefan](#).



13.8 Cyfarwyddiadau Gweinidogol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru (CIC)

Cafodd Cyfarwyddiadau Gweinidogol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-2021 eu hystyried a, lle bo hynny'n briodol, eu gweithredu.

Cyfarwyddiadau Gweinidogol/Dyddiad Cydymffurfio	Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu	Cam i ddangos gweithredu/ymateb
CIC/2020/003 Rhaglen Gofal iechyd seiliedig ar Werth – Gofynion Data	4 Mawrth 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2020/004 Rhestr o Gylchlythyrau Iechyd Cymru - 1 Awst 2019 – 31 Ionawr 2020	4 Mawrth 2020	
CIC/2020/005 Cofnodi Codau READ Dementia	30 Medi 2020	
CIC/2020/006 Ymateb i COVID-19 – Parhau â Rhaglenni Brechu	31 Mawrth 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2020/008 Canllaw i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG ar Ail-Ddefnyddio Meddyginiaethau Diwedd Oes mewn Hosbisau a Chartrefi Gofal	30 Ebrill 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2020/009 Y Rhaglen Genedlaethol i Frechu rhag y Ffliw 2020-2021	21 Mai 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC 2020/011 Newidiadau Dros Dro i Fodelau o Reolau Sefydlog, Cadw Pwerau'n Ôl a'u Dirprwyo'n - Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG, Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru, Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ac Addysg a Gwellu Iechyd Cymru	9 Gorffennaf 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol Y Rheolau Sefydlog wedi eu diwygio a'u cymeradwyo gan y Bwrdd
CIC/2020/012 Asesiad Clinigol COVID-19 yn y Gymuned	4 Awst 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2020/013 Y Rhaglen Genedlaethol i Frechu rhag y Ffliw 2020-21 (2)	14 Awst 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2020/014 Llwybr Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol Rheoli Cwyr Clustiau	29 Medi 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2020/015 Polisi ar Laryngosgopau Untro ac Ail-ddefnyddiadwy	14 Medi 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.



Cyfarwyddiadau Gweinidogol/Dyddiad Cydymffurfio	Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu	Cam i ddangos gweithredu/ymateb
CIC/2020/016 Gweithdrefn Rheoli Perfformiad, Symud neu Atal Cadeiryddion GIG, Is-Gadeiryddion ac Aelodau Annibynnol/Cyfarwyddwyr Anweithredol, gan gynnwys Aelodau Cysylltiol	10 Rhag 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2020/018 Person Olaf Yno	1 Hyd 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2020/019 Disgwyliadau Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG i sicrhau iechyd a lles y gweithlu yn ystod pandemig Covid-19	30 Hyd 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2020/022 Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru 2021- 2022	14 Rhag 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2020/023 Gadael UE – Parhad Cyflenwad Meddyginiaethau ar Derfyn y Cyfnod Trosiannol	22 Rhag 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2020/024 Asesiad Clinigol COVID-19 yn y Gymuned (Cyfoeswyd)	22 Rhag 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2020/025 Dyraniadau Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth Iechyd Cyhoeddus GIG Cymru 2021-2022	22 Rhag 2020	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2021/001 Canllawiau am Reoli Cleifion ar y Llwybr Amheuaeth o Ganser	14 Ion 2021	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2021/002 Rolau Pencampwyr Byrddau	19 Ion 2021	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2021/003 Etholiad y Senedd 2021	10 Mawrth 2021	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2021/004 Archebu Brechlynnau Ffliw am Dymor 2021-2022	19 Chwef 2021	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2021/006 Etholiad Senedd 2021 – Canllawiau i GIG Cymru	11 Mawrth 2021	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2021/007 Rhaglen Plant Iach Cymru – Archwiliad Corfforol o Blentyn gan Feddyg Teulu 6 Wythnos Wedi Geni	11 Mawrth 2021	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.



Cyfarwyddiadau Gweinidogol/Dyddiad Cydymffurfio	Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu	Cam i ddangos gweithredu/ymateb
CIC/2021/008	Disgwyl Cyhoeddi	
CIC/2021/009 Llwybr Sgrinio Clyw Adeg Derbyn i'r Ysgol	25 Mawrth 2021	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.
CIC/2021/010	Disgwyl Cyhoeddi	
CIC/2021/011 2021/2022 Canllawiau Monitro Cyllidol Misol ar Elw BILL, SHA ac Ymddiriedolaethau	23 Ebr 2021	Dosbarthwyd i staff a rheolwyr allweddol a'i drafod yn y cyfarfod priodol.

13.9 Adroddiadau Rheoleiddiol ac Archwilio

Mae'r Gyfarwyddiaeth Llywodraethiant Corfforaeth yn olrhain yr holl adroddiadau rheoleiddio ac archwilio trwy adroddiad Orlhain Deddfwriaethol a Rheoleiddiol a gyflwynir i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio.

Cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio mae'r olrheiniwr yn cael gwybodaeth gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol Arweiniol ac unigolion sy'n gyfrifol am gydymffurfio rheolaethol ac ar ôl ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Gweithredol.

- Mae'r Orlheiniwr Deddfwriaethol a Rheolaethol yn cynnwys y canlynol:
- Pob Corff Rheolaethol sy'n archwilio BIP Caerdydd a'r Fro
- Y Safon Rheoleiddiol a archwilir
- Arweinydd Gweithredol ar gyfer pob ymchwiliad
- Pwyllgor Sicrwydd lle gellir cyflwyno adroddiadau Rheoleiddio hefyd ochr yn ochr â chynlluniau gweithredu ar gyfer gwella lle mae angen

Pan adolygwyd yr Orlheiniwr Deddfwriaethol a Rheolaethol olaf gan Archwilio Mewnol, derbyniwyd sicrwydd rhesymol.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Llywodraethiant Corfforaethol hefyd yn olrhain yr holl Argymhellion Archwilio Mewnol a holl Argymhellion Archwilio Cymru ynghyd ag ymatebion y rheolwyr. Ychwanegir argymhellion at yr olrheinwyr i'w monitro unwaith i'r Pwyllgor Archwilio lofnodi iddynt gael eu cadarnhau. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Archwilio Mewnol beth gwaith ar yr Orlheiniwr Archwilio Mewnol. Yr oedd hyn er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor, pan fydd rheolwyr yn cadarnhau bod rhywbeth wedi ei gwblhau ar yr olrheiniwr, ei fod wedi ei gwblhau.



13.10 Diogelwch Data a Gwybodaeth Llywodraethiant

Strategaeth Ddigidol CAF 2020-2025

Cafodd y strategaeth Ddigidol gyntaf ei ddatblygu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd ym mis Gorffennaf 2020. Mae'r strategaeth yn allweddol i gefnogi cynlluniau trawsnewid y gwasanaeth sy'n gysylltiedig â chroesawu technolegau digidol newydd ac egin-dechnolegau a mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio.

Mae'r strategaeth yn sail i gynlluniau TG a gwybodaeth y Bwrdd Iechyd am y 5 mlynedd nesaf, gyda'r strategaeth a datblygiadau cenedlaethol yn sail yn ogystal â chynlluniau lleol sy'n cefnogi strategaeth y Bwrdd Iechyd fel y'i disgrifir yn 'Llunio ein Lles at y Dyfodol'.

Bydd gweithredu'r rhaglen waith i gefnogi'r Strategaeth Ddigidol yn cael ei arwain yn bennaf trwy dimau cyfarwyddiaeth ddigidol yn gweithio'n agos gyda Byrddau Clinigol y Bwrdd Iechyd a'u harweinwyr clinigol digidol a enwebwyd.

Mae'r strategaeth Ddigidol yn ymrwymo'r Bwrdd Iechyd i gyfeiriad teithio gyda sail gwybodaeth o wasanaethau clinigol a chynlluniau'r Bwrdd Iechyd ei hun at y dyfodol. I gyflwyno'r cynlluniau, bydd angen gwneud penderfyniadau buddsoddi ar sail achosion busnes fydd yn disgrifio'r buddion a fydd yn deillio o'u gweithredu.

Mae'r strategaeth Ddigidol yn debygol i barhau i esblygu a newid wrth i fentrau lleol a chenedlaethol ddod yn gliriach ac y cânt eu gweithredu.

Mae risgiau sy'n ymwneud â gwybodaeth yn cael eu rheoli yn unol â Pholisi Llywodraethiant Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd trwy'r Pwyllgor Iechyd a Gwybodaeth Ddigidol, dan gadeiryddiaeth Aelod Annibynnol.

Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, fel Gwarcheidwad Caldicott, sy'n gyfrifol am warchod gwybodaeth am gleifion. Mae pob problem Llywodraethiant Gwybodaeth yn cael ei huwchgyfeirio trwy'r Pwyllgor Iechyd a Gwybodaeth Ddigidol. Gallwch weld papurau'r Pwyllgor yma: [Papurau Pwyllgor Deallusrwydd Iechyd a Digidol](#).

Ystyriwyd yr eitemau canlynol gan y Pwyllgor yn 2020-2021:

- Strategaeth Ddigidol,
- Cynllun Gweithredu Archwilio GDPR,
- Rhaglen Gyflwyno TG,
- Adroddiadau Cydymffurfio Gwybodaeth Llywodraethiant,
- Cofrestr Risg Gwybodaeth Llywodraethiant,
- Polisi Gwybodaeth Llywodraethiant.

Mae gan yr Uwch Berchennog Risgiau Gwybodaeth (UBRG) rôl hanfodol o ran sicrhau yr ymdrinnir â risgiau diogelwch gwybodaeth a nodwyd a bod digwyddiadau yn cael eu rheoli'n gywir. Yn dilyn archwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2020, derbyniodd the Bwrdd Iechyd raddfa asesiad am ei sicrwydd a'i gydymffurfio, a graddfa asesiad 'sicrwydd rhesymol' ar Seibr-Ddiogelwch. Argymhellion o



archwiliad y SCG yn 20202 yn cymryd lle'r cynllun gweithredu, oedd yn ymgorffori argymhellion heb eu gweithredu o archwilio y SCG yn 2016, yr Archwiliad Mewnol ar gydymffurfio GDPR, Asesiad Strwythuredig

Archwilio Cymru 2018 ac Egwyddorion Caldicott ar Waith (ACaW). Mae'r cynllun gweithredu yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Iechyd a Gwybodaeth Ddigidol. Dyma'r argymhellion 'brys' ar gyfer yr archwiliadau sicrwydd a chydymffurfio â Seibr-Ddiogelwch:

- Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fel mater o frys roi dogfen bolisi yn ei lle i gefnogi cywirdeb seiliau cyfreithiol a bennwyd yn ôl gofynion Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018,
- Dylai'r sefydliad ystyried gwneud yr ateb e-ddysgu Seibr-Ymwybyddiaeth yn orfodol i staff sy'n trin gwybodaeth ddigidol am gleifion fel mater o drefn, sydd â chyfrifon e-bost, neu sydd ag unrhyw gyfrifoldeb dros ddiogelwch gwybodaeth ddigidol yn rhinwedd eu swyddi neu lle maent yn goruchwyllo eraill,
- Mae'r SCG yn argymhell bod hyfforddiant Gwybodaeth Llywodraethiant a seibr-ddiogelwch yn cael ei loywi'n flynyddol,
- Dylai'r sefydliad osod mewn lle Ddadansoddiad Anghenion Hyfforddi rheolaidd i staff sydd â chyfrifoldebau dros reoli gwybodaeth yn ddiogel,
- Dylai'r sefydliad ofalu bod unrhyw hyfforddwyr sydd yn cyflwyno hyfforddiant seibr-ddiogelwch eu hunain wedi eu hyfforddi i gyflwyno'r wybodaeth honno yn effeithiol ac ateb unrhyw gwestiynau.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cadarn dros ofalu bod data a gwybodaeth personol yn cael ei gadw'n ddiogel. Mae'r Grŵp Llywodraethiant Gwybodaeth yn ymchwilio i bob digwyddiad sy'n ymwneud â llywodraethiant gwybodaeth ac yn eu hadolygu.

Yn ystod y cyfnod Ebrill 2020 a Mawrth 2021 cafwyd 5 o ddigwyddiadau diogelwch data personol yr ymchwiliwyd iddynt yn llawn ac adroddwyd amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG).

Torri adroddadwy rhif 1

Honnwyd fod aelod o'r staff wedi datgelu gwybodaeth sensitif am glaf i glaf arall heb reswm busnes cyfreithlon. Ymchwiliwyd yn llawn i'r digwyddiad ac y mae SCG wedi cau'r adroddiad.

Torri adroddadwy rhif 2

Yn anfwriadol, datgelodd y BIP swm cyfyngedig o wybodaeth i glaf a'i caniatodd i adnabod gwybodaeth oedd yn ymwneud â chlaf arall. Mae'r gwasanaeth wedi rhoi gweithdrefn ar waith i sicrhau bod staff yn hynod ofalus wrth ddatgelu unrhyw wybodaeth.

Torri adroddadwy rhif 3

Arestwyd aelod o'r cyhoedd tra'r oedd ym meddiant eiddo'r BIP. Er i ni ymchwilio i'r amgylchiadau, nid ydym wedi llwyddo i ddarganfod sut y digwyddodd hyn. Mae'r SCG wedi cau'r adroddiad.

Torri adroddadwy rhif 4

Gwnaethom adrodd am aelod staff yn cyrchu system o bosib heb awdurdod.

Torri adroddadwy rhif 5.

Cafodd rhestr ddosbarthu ei chynnwys trwy amryfusedd mewn e-bost i glaf. Cysylltwyd â'r holl bartïon ac y mae SCG wedi cau'r adroddiad. Mae'r BIP yn ystyried anogwr ar e-byst allanol.



Mae niferoedd y staff a hyfforddwyd wedi cynyddu'n raddol dros y flwyddyn. Yr oedd y cydymffurfio ar ddiwedd Mawrth 2021 yn 64%, gostyngiad o 72% dros y 12 mis a aeth heibio. Mae hyn i'w briodoli i effaith pandemig COVID-19 ar weithlu'r Bwrdd Iechyd.

Canolbwyntiwyd ar feysydd allweddol sydd â'r effaith fwyaf o ran cydymffurfio, a bwriwyd ymlaen â'r meysydd allweddol isod:

- Rhoi'r swyddogaeth Archwilio Deallus ar waith ar systemau cenedlaethol
- Gweithdrefn newydd o ddatgeliadau i'r Heddlu i atal neu ganfod troseddau.
- Dal i roi blaenoriaeth i gefnogi rhaglenni POD a brechu,
- Argymhellion archwilio SCG ,
- Datblygu Cofrestr Asedau Gwybodaeth cynhwysfawr ledled y sefydliad,
- Gweithdrefn Toriadau Data Personol (i gwrdd â'r gofyniad i adrodd am doriadau data ymhen 72 awr),
- Gweithdrefn Asesu Effaith Diogelu Data (AEDD) (i gwrdd â'r gofyniad i sicrhau agwedd "preifatrwydd trwy ddylunio a gofynion atebolrwydd),
- Datblygu hysbysiadau preifatrwydd,
- Adolygiadau contractaidd trwy gaffael lleol.

Hefyd, mae cyngor a chefnogaeth ar gael i broffesiynau contractio sydd, fel contractwyr annibynnol, â chyfrifoldeb cyfreithiol dros y data a ddaliant sy'n peri adnabod pobl.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ategu ymwybyddiaeth o egwyddorion deddfwriaeth

Diogelu Data. Mae hyn yn cynnwys yr egwyddor hollbwysig y dylai defnyddwyr drin data yn unig yn unol â hawliau diogelu data pobl.

13.11 Cod Llywodraethiant Corfforaethol y DU

Er nad oes gofyniad i gydymffurfio a holl elfennau'r Cod Llywodraethiant Corfforaethol i Adrannau'r Llywodraeth Ganolog, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried ei fod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod lle bo hynny'n gymwys, ac yn dilyn ysbryd y Cod yn effeithiol a'i fod yn cynnal ei fusnes yn agored ac yn unol â'r Cod. Sail hyn yw adroddiad Archwilio Cymru "Ei Wneud yn Wahanol, Ei Wneud yn lawn? Llywodraethiant yn y GIG yn ystod argyfwng COVID-19 – Themâu allweddol, gwersi a chyfleoedd"⁵ a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021 sy'n canolbwyntio ar sut y mae cyrff y GIG wedi llywodraethu yn ystod argyfwng COVID-19, gan ganolbwyntio'n arbennig ar roi dinasyddion yn gyntaf, gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd, a chael sicrwydd.

Cynhaliwyd asesiad yn erbyn y cod ym mis Gorffennaf 2020, a chynhaliwyd asesiad pellach fel rhan o arolwg effeithiolrwydd pwyllgorau yn [Ebrill 2021](#).

Ni adroddwyd/nodwyd unrhyw wriadau o'r Cod Llywodraethiant Corfforaethol yn ystod y flwyddyn.



⁵ [Doing it Differently, Doing it Right? / Audit Wales](#)



13.12 Cynllun Pensiwn y GIG

Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i aelodaeth o Gynllun Pensiwn y GIG, mae camau rheoli yn eu lle i sicrhau cydymffurfio â'r holl rwymedigaethau ar gyflogwyr sydd yn rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys bod didyniadau o gyflog, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i mewn i'r Cynllun yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion Cynllun Pensiwn yn cael eu cyfoesi'n gywir yn unol â'r amserlenni y rhoddir manylion amdanynt yn y Rheoliadau.

13.13 Adolygu Effeithiolrwydd

Fel Swyddog Atebol, mae gennyf gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Mae gwaith yr archwilyr mewnol yn sail o wybodaeth i'm hadolygiad o'r system reolaeth fewnol, a'r Swyddogion Gweithredol yn y sefydliad sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan archwilyr allanol yn eu llythyr archwilio ac adroddiadau eraill.

Ffynonellau Mewnol	Ffynonellau Allanol
- Adroddiadau rheoli perfformiad - Adroddiadau rheoli newid y gwasanaeth - Gwybodaeth am y gweithlu ac arolygon - Meincnodi - Adroddiadau archwiliadau mewnol a chlinigol - Adroddiadau'r Bwrdd a Phwyllgorau - Gwaith lleol Gwrth-Dwyll - Asesiadau Safonau Iechyd a Gofal - Tîm Gweithredol ac Aelodau Annibynnol yn Cerdded o Gwmpas i Adolygu Diogelwch - Canlyniadau ymchwiliadau mewnol ac adroddiadau am Ddigwyddiadau Difrifol - Pryderon a chanmoliaeth - Falf Lleisio Pryderon a Diogelwch - Adroddiadau atal a rheoli heintiau - Erfyn hunanasesu llywodraethiant gwybodaeth - Arolygon ac adroddiadau profiadau'r cleifion - Cydymffurfio â deddfwriaeth (e.e. Deddf Iechyd Meddwl/Iechyd a Diogelwch, Diogelu Data)	- Gwybodaeth Iechyd y Boblogaeth - Archwilio Cymru - Adroddiadau asesiadau Cronfa Risg Cymru (CRC) - Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) - Ymweliadau ac adroddiadau craffu Cyngorau Iechyd Cymuned - Adborth gan bartneriaid gofal iechyd a thrydydd sector - Ymweliadau Colegau Brenhinol a Deoniaethau - Cyrff rheoleiddio, trwyddedu ac archwilio - Meincnodi allanol ac ystadegau - Cynlluniau Achredu - Archwiliadau cenedlaethol - Adolygiadau cyfoedion - Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth - Rhwydweithiau lleol (e.e. rhwydweithiau cancer) - Adroddiadau ac adborth Llywodraeth Cymru



Nodir ffynonellau sicrwydd pellach yn fframwaith rheoli perfformiad a sicrwydd y Bwrdd, ac y mae'n cynnwys yr isod, ond nid y rhain yn unig:

- Sicrwydd uniongyrchol gan reolwyr ar y ffordd mae camau rheoli mewnol yn rhedeg trwy'r gadwyn atebolrwydd tuag i fyny
- Asesu perfformiad yn fewnol yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal
- Canlyniadau swyddogaethau cydymffurfio mewnol gan gynnwys Gwrth-Dwyll Lleol, Dilysu Wedi Taliad, a rheoli risg
- Adrodd am gydymffurfio trwy Gronfa Risg Cymru ynghylch safonau hawliadau a safonau arbenigol penodol eraill a adolygwyd yn ystod y cyfnod
- Adolygiadau a gwblhawyd gan gyrff rheoleiddio ac archwilio allanol gan gynnwys Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Mae effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol yn cael ei gynnal a'i adolygu gan Bwyllgorau'r Bwrdd o ran sicrwydd a dderbyniwyd. Cefnogir hyn gan y FfSB gyda risgiau uchel yn cael eu monitro'n agos gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau.

Llywodraethiant, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

13.14 Effeithiolrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau

Mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol dros reoli risg ac adrodd i'r Bwrdd am effeithiolrwydd rheoli risg ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae fy nghyngor i'r Bwrdd yn seiliedig ar adroddiadau ar gamau rheoli mewnol a dderbyniwyd gan ei holl Bwyllgorau ac yn enwedig y Pwyllgor Archwilio, Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, y Pwyllgor Cyllid, a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflwyno, gan sicrhau asio a chysylltiadau â busnes y Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg hefyd yn rhoi sicrwydd ar faterion llywodraethiant clinigol, diogelwch cleifion, profiadau'r cleifion a chymhwysu'r Safonau Iechyd a Gofal. Hefyd, mae adroddiadau a gyflwynir i'r Bwrdd gan y Tîm Gweithredol yn nodi materion risg i'w hystyried.

Mae pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried amrywiaeth o adroddiadau yn ymwneud a'u meysydd busnes yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, sydd wedi cynnwys ystod gynhwysfawr o adroddiadau archwilio mewnol ac archwilio allanol, ac adroddiadau ar safonau proffesiynol a rhai gan gyrff rheoleiddio eraill. Mae'r Pwyllgorau hefyd wedi ystyried ac wedi rhoi cyngor ar feysydd datblygu strategol lleol a chenedlaethol a meysydd polisi newydd.

Mae pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn datblygu Adroddiad Blyneddol a adolygir gan bob Pwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyhoeddus ym mis Mawrth. Mae Cadeirydd pob Pwyllgor



yn llofnodi'r Adroddiadau Blynyddol ac yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod y Pwyllgorau wedi ateb eu Cylch Gorchwyl.

Yn ychwanegol at yr uchod, mae Aelodau'r Pwyllgorau a'r Bwrdd yn cynnal adolygiad hunan-effeithiolrwydd. Cynhaliwyd yr adolygiadau hyn yn syth wedi diwedd y flwyddyn ariannol a chrynohoir y canlyniadau isod.

Yn gyffredinol, rwyf yn ystyried bod y trefniadau sy'n cynnal y system o reolaeth fewnol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn briodol. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd tri adolygiad arwyddocaol oedd yn canolbwyntio ar lywodraethiant a rheolaeth fewnol yn ystod COVID 19, sef:

- Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru
- Adolygiad Llywodraethiant Sydyn Archwilio Mewnol
- Diwydrwydd Dyladwy Ysbyty Maes Stadiwm y Principality – adroddiad KPMG

Cafodd yr adroddiadau hyn, ynghyd ag ymatebion y rheolwyr i argymhellion, oll eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2020 ac yna i'r Bwrdd. Olrheiniwyd yr argymhellion gan olrheinwyr Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru.

13.15 Arolwg Effeithiolrwydd Pwyllgorau

Mae cyfarfodydd effeithiol y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn rhan allweddol o strwythur llywodraethiant effeithiol, ac y mae'n bwysig gofalu bod llywodraethiant sefydliadol y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â darpariaethau ei Reolau Sefydlog.

Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei Fwrdd a'i is-bwyllgorau ym Mawrth/Ebrill 2021 gan ddefnyddio cwestiynau arolwg oedd yn deillio o ganllawiau arferion gorau, gan gynnwys Llawlyfr y GIG a chan ddefnyddio'r egwyddorion a ganlyn:

- yr angen i is-bwyllgorau gryfhau trefniadau llywodraethiant y Bwrdd Iechyd a chefnogi'r Bwrdd i gyrraedd ei amcanion strategol,
- y gofyniad am strwythur pwyllgorau sy'n cryfhau rôl y Bwrdd wrth wneud penderfyniadau ac sy'n cefnogi rôl cyfarwyddwyr anweithredol i herio camau'r rheolwyr gweithredol,
- cael y gwerth mwyaf o gyfraniad cyfarwyddwyr anweithredol, o ystyried y cyfyngiadau ar eu hamser,
- cefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei swydd, gan gadw mewn cof natur a maint agenda'r Bwrdd Iechyd.

Mae modd mynd at ganfyddiadau'r Arolwg Blynyddol o Effeithiolrwydd Pwyllgorau 2020-2021 ar ein [gwefan](#). Caiff y canlyniadau a chynlluniau gweithredu, lle maent yn berthnasol, eu cyflwyno i bob Pwyllgor ac yna i'r Bwrdd.

Yr oedd y canfyddiadau cyffredinol yn effeithiol, ac yn rhoi sicrwydd fod y trefniadau llywodraethiant a strwythur Pwyllgorau yn effeithiol, a bod y Pwyllgorau yn effeithiol wrth gefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaeth.



13.16 Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyriad

Ym mis Hydref 2020 cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddwn yn cynnal ein graddio 'trefniadau arferol', ar gyngor Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru gyda sail o wybodaeth yn deillio o drafodaethau'r Grŵp teir-ran (sef swyddogion Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Archwilio Cymru). Ystyriodd Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru hefyd y ffordd broffesiynol ac ystyrlon y gwnaeth y GIG a'r BIP ymateb i amgylchiadau eithriadol y pandemig.

Yn ystod y cyfnod 2020-2021, ac eithrio am effaith pandemig COVID-19, ni nodwyd unrhyw faterion difrifol oedd yn effeithio ar gyflwyno, ansawdd a diogelwch gofal ac effeithiolrwydd sefydliadol y GIG, a pharhawyd i fonitro'r Bwrdd Iechyd trwy "drefniadau arferol" ers Rhagfyr 2019⁶.

⁶ [Datganiad Ysgrifenedig: Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyriad \(7 Hydref 2020\) | LLYW.CYMRU](#)

14. Archwilio Mewnol

Mae archwilio mewnol yn rhoi i mi fel Swyddog Atebol a'r Bwrdd trwy'r Pwyllgor Archwilio lif o sicrwydd ar y system o reoli mewnol. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio a gyflwynwyd yn unol â safonau archwilio'r sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cytuno

ar gwmpas y gwaith hwn ac y mae'n canolbwyntio ar feysydd risg arwyddocaol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethiant a rheoli risg yn swyddogaeth o'r rhaglen archwilio hon seiliedig ar risg, ac y mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch i wella'n barhaus.

Effeithiwyd ar y rhaglen hon gan yr angen i ymateb i bandemig COVID-19 gyda rhai archwiliadau yn cael eu gohirio, eu canslo neu eu cwtogi wrth i'r sefydliad ymateb i'r pandemig. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y bu digon o ymdriniaeth archwilio mewnol yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn darparu Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio. Wrth ffurfio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau na chwblhawyd yn llawn.

14.1 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

Oherwydd effaith sylweddol COVID-19 ar y Bwrdd Iechyd, bu'n rhaid i'r cynllun archwilio mewnol fod yn ystwyth ac ymatebol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â risgiau allweddol sy'n dod i'r amlwg. O ganlyniad i'r agwedd hon, a chyda chefnogaeth swyddogion ac aelodau annibynnol ar draws y Bwrdd Iechyd, cyflwynwyd y cynllun yn sylweddol yn unol â'r atodlen a'r newidiadau oedd eu hangen y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn, fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Hefyd, cyflwynwyd adroddiadau cynnydd archwilio yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a



Sicrwydd. Er y gwnaed newidiadau i'r cynllun yn ystod y flwyddyn, gallwn gadarnhau ein bod wedi gwneud digon o waith archwilio yn ystod y flwyddyn i allu rhoi barn gyffredinol yn unol a gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

I ddechrau, cymeradwywyd y Cynllun Archwilio Mewnol am flwyddyn 2020/21 gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn Ebrill 2020. Fodd bynnag, o ganlyniad i effaith y pandemig, bu'r cynllun yn destun cryn addasu er mwyn adlewyrchu newid ym mhroffil risg y Bwrdd Iechyd, ac argaeledd rheolwyr a staff allweddol yn ystod y pandemig. Cafodd rownd gyntaf o addasiadau i'r cynllun yn ffurfiol gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Gorffennaf 2020 gydag addasiadau wedyn yn cael eu cymeradwyo yng nghyfarfodydd Tachwedd 2020 a Chwefror 2021. Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Farn hon felly wedi eu seilio yn bennaf ar gyflwyno cynllun blynyddol 2020/21 a gyfoeswyd, oedd yn adlewyrchu'r holl addasiadau a gymeradwywyd.

Adeg ysgrifennu hyn, y sefyllfa derfynol a ragwelwyd ynghylch Archwiliadau Mewnol a gyflwynwyd fel rhan o gynllun 2020/21 oedd: 27 allbwn terfynol, 2 allbwn drafft ac 18 archwiliad gafodd naill ai eu symud neu eu gohirio tan gynllun Archwilio Mewnol 2021-2022. Lle gwnaed newidiadau i'r cynllun archwilio, cyflwynwyd y rhesymau i'r Pwyllgor Archwilio i'w hystyried a'u cymeradwyo. Ystyriwyd arwyddocâd yr archwiliadau gohiriedig hyn wrth asesu graddio'r farn sicrwydd cyffredinol.

Gosodir allan farn y Pennaeth Archwilio

Mewnol am ddigonoldeb ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith y sefydliad o lywodraethiant a rheoli risg isod.

Sicrwydd rhesymol		Gall y Bwrdd gymryd sicrwydd rhesymol fod trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny a adolygir, wedi eu dylunio a'u cymhwyso yn effeithiol. Mae rhai materion yn galw am sylw'r rheolwyr i ddylunio camau rheoli neu gydymffurfio gydag effaith isel neu gymedrol ar fod yn agored i risg weddilliol hyd nes bod hyn wedi ei ddatrys.
-------------------	--	--

Wrth ddod i'r farn hon, yr ydym wedi nodi bod mwyafrif yr adolygiadau yn ystod y flwyddyn wedi dod i ben yn gadarnhaol gyda threfniadau rheoli cadarn yn gweithredu mewn rhai meysydd.

O'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn, cafodd saith Sicrwydd Sylweddol, deunaw Sicrwydd Rhesymol a chafodd un Sicrwydd Cyfyngedig. Nid oedd yr un adroddiad heb fod a dim sicrwydd. Hefyd, cyhoeddwyd tri adroddiad cyngori a heb fod â barn ynghylch:

- **Llywodraethiant yn ystod Pandemig COVID-19;**
- **Datblygu Cynlluniau Archwilio Integredig; ac**
- **Rheoli ac Asesu Risg IMA**



14.2 Sicrwydd Cyfyngedig

Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd yr archwilydwr mewnol un adroddiad gyda "Sicrwydd Cyfyngedig" ynghylch Monitro Canslo Clinigau Allanol yn y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl. Mae hyn yn adlewyrchu diffyg adrodd a monitro clinigau gafodd eu canslo yn y Bwrdd Clinigol. Yr oedd anghysonderau hefyd yn y systemau a ddefnyddiwyd i gofnodi canslo, a diffyg manylion am y rhesymau dros ganslo a lefel yr awdurdodi. Dylid rhoi pwyslais arbennig ar yr ymatebion y cytunwyd arnynt i'r adroddiad hwn ac arwyddocâd yr argymhellion a wnaed.

Nid oedd unrhyw feysydd archwilio lle derbyniodd y Bwrdd raddfa asesiad "Dim Sicrwydd".

15. Archwilio Allanol – Archwilio Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwiliwr allanol statudol y Bwrdd Iechyd ac y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliadau ar ei ran. Ers 1 Ebrill 2020 adnabyddir Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru fel Archwilio Cymru. [Archwilio Cymru](#) sydd yn craffu ar systemau a phrosesau ariannol y Bwrdd Iechyd', y ffordd mae'n rheoli perfformiad, meysydd risg allwedd a'r swyddogaeth Archwilio Mewnol.

15.1 Adroddiad Archwilio Blynyddol 2020⁷

Mae rhaglen waith flynyddol Archwilio Cymru yn y Bwrdd Iechyd wedi ei osod allan yn y Cynllun Archwilio. Cymeradwywyd Cynllun Archwilio 2020 Archwilio Cymru gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 3 Mawrth 2020.

Mae adroddiadau a gynhyrchir gan Archwilio Cymru yn unol â'r Cynllun Archwilio yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio and Sicrwydd. Paratwir Ymateb y Rheolwyr i adroddiadau sydd yn cynnwys argymhellion. Mae'r holl argymhellion wedyn yn cael eu cofnodi yn yr Orlheiniwr Argymhellion Archwilio Allanol. Darperir Adroddiad Orlhain i bob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i roi sicrwydd eu bod wedi eu gweithredu.

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith y Bwrdd Iechyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd:

Adroddiad	Mis
Adroddiad Archwiliad Datganiadau Ariannol	Mehefin 2020
Barn am y Datganiadau Ariannol	Gorffennaf 2020
Adendwm i'r Adroddiad Archwilio Cyfrifon	Awst 2020
Asesiad Strwythuredig 2020	Hydref 2020
Effeithiolrwydd Trefniadau Gwrth-Dwyll	Awst 2020
Dilyniant Theatrau Llawdriniaeth	Chwefror 2021
Cynllun Archwilio 2021	Chwefror 2021

⁷ Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Adroddiad Archwilio Mewnol 2020 | Archwilio Cymru



Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd hefyd yn adolygu deilliannau adolygiadau cenedlaethol ar draws pob sector yn y cyfarfod cyntaf posib wedi eu cyhoeddi.

Ni nododd Adroddiad Archwilio Blynyddol 2020 unrhyw wendidau o bwys yng nghanau rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd (fel sy'n berthnasol i'r archwiliad) a dod i'r casgliadau isod:

- bu rheolaeth weithredol dda a gwnaed penderfyniadau ystwyth yn ystod y pandemig ar waethaf rhai cyfyngiadau yn nhryloywder craffu, sicrwydd a goruchwyllo llywodraethiant yn gyffredinol,
- cadwyd camau rheoli ariannol, monitro ac adrodd effeithiol trwy gydol y pandemig, ond yr oedd effaith COVID-19 wedi creu risg arwyddocaol i allu'r Bwrdd Iechyd i adennill costau,
- yn sail i'r cynlluniau gweithredol yr oedd data modelu cadarn ac fe'i datblygwyd mewn ffordd amserol, ac yr oedd y Bwrdd Iechyd yn ceisio dwyn rhanddeiliaid i mewn yn llawnach i gynllunio at y dyfodol. Fodd bynnag, yr oedd risgiau'n parhau petai ail begwn o COVID-19 yn digwydd, ac yr oedd angen cryfhau'r trefniadau o fonitro cyflwyno cynllun,
- dangosodd y Bwrdd Iechyd ymrwymiad i wrth-dwyll, mae ganddynt drefniadau addas i gefnogi atal a chanfod twyll, a medrodd ymateb yn briodol lle'r oedd twyll yn digwydd.

Fodd bynnag, tynnodd yr adroddiad archwilio sylw at ddau ddatgeliad yn y cyfrifon, ynghylch:

- effaith COVID-19 ar brisio tai ac adeiladau'r Bwrdd Iechyd fel ar 31 Mawrth 2020; ac
- effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, yn ei chyfarwyddo i dalu rhwymedigaethau treth pensiynau gweithwyr clinigol y GIG a ddaeth i ran cyrff GIG Cymru parthed blwyddyn ariannol 2019-20.

Cafodd cyfrifon y Bwrdd Iechyd eu paratoi'n gywir ac yr oeddent fwy neu lai yn gywir, ac eithrio am falans y stocrestr fel ar 31 Mawrth 2020, a arweiniodd at farn cyfyngiad-cwmpas wedi ei goleddfu ar y cyfrifon. Yr oedd angen y goleddfiad hwn oherwydd nad oedd digon o dystiolaeth archwilio i gefnogi balans stocrestr perthnasol y Bwrdd Iechyd o £16.784 miliwn fel ar 31 Mawrth 2020. Nid oedd y goleddfiad wedi codi oherwydd diffygion yn systemau na gweithredoedd y Bwrdd Iechyd, ond am fod cyfnod clo y DU oherwydd COVID-19 wedi atal y tîm archwilio rhag cynnal eu cyfrif stocrestr diwedd blwyddyn, sef gweithdrefn archwilio orfodol ar gyfer balans-stocrestr perthnasol. Nid oedd y balans stocrestr wedi ei gam-ddatgan; yn hytrach, ni allai'r tîm archwilio weld a oedd yn sylweddol gywir a theg ai peidio.

Cyflwynwyd y Cynllun Archwilio Blynyddol am 2021 i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 6 Ebrill 2021. Mae'r Cynllun Archwilio yn gosod allan amserlen gychwynnol i gwblhau gwaith archwilio Archwilio Cymru. Fodd bynnag, o gofio'r ansicrwydd sy'n parhau



ynghylch effaith COVID-19 ar y sector, efallai y bydd angen ail-drefnu peth o'r amseru. Felly, adroddir am unrhyw newidiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

15.2 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Asesiad Strwythuredig 2020

Mae Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru am 2020⁸ yn rhoi asesiad o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn effeithiol, yn effeithlon ac economaidd.

Canfu'r Asesiad Strwythuredig am 2020 fod:

- y Bwrdd Iechyd wedi mynd ati'n sydyn i addasu ei drefniadau llywodraethiant i gefnogi gwneud penderfyniadau yn ystwyth ac yn sydyn a sicrhau rheolaeth weithredol effeithiol yn ystod y pandemig,
- bu rheolaeth weithredol dda a gwnaed penderfyniadau ystwyth yn ystod y pandemig ar waethaf rhai cyfyngiadau yn nhryloywder craffu, sicrwydd a goruchwyllo llywodraethiant yn gyffredinol,
- cadwyd camau rheoli ariannol, monitro ac adrodd effeithiol trwy gydol y pandemig, ond yr oedd effaith COVID-19 wedi creu risg arwyddocaol i allu'r Bwrdd Iechyd i adennill costau,
- yn sail i'r cynlluniau gweithredol yr oedd data modelu cadarn ac fe'i datblygwyd mewn ffordd amserol, ac yr oedd y Bwrdd Iechyd yn ceisio dwyn rhanddeiliaid i mewn yn llawnach i gynllunio at y dyfodol. Fodd bynnag, yr

oedd risgiau'n parhau petai ail begwn o COVID-19 yn digwydd, ac yr oedd angen cryfhau'r trefniadau o fonitro cyflwyno'r cynllun.

[8 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Asesiad Strwythuredig 2020 | Archwilio Cymru](#)

16. Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 – Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi

Cyhoeddwyd Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ym mis Mai 2017 i amlygu'r angen, ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi, i sicrhau bod arferion cyflogaeth da yn bodoli ar gyfer pob gweithiwr, yn y DU a thramor. Disgwylir i holl sefydliadau GIG Cymru ymuno i fod yn rhan o'r Cod.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn llawn gefnogi egwyddorion a gofynion y Cod a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac y mae wedi ymrwymo i chwarae ei ran, fel un o brif gyflogwyr y sector cyhoeddus, i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesol, megis:

- Caethwasiaeth Fodern a thrangwyddo hawliau dynol;
- Rhedeg rhestrau duon a rhestrau gweithwyr gwaharddedig;
- Hunan-gyflogaeth ffug;
- Defnydd annheg o gynlluniau ambarél a chontractau dim oriau; a
- Talu'r Cyflog Byw.



Mae'r camau canlynol eisoes yn eu lle i gwrdd ag ymrwymadau'r Cod:

- Mae gennym broses Rhyddid i Godi Llais (F2SU) a Pholisi Codi Pryderon (Chwythu'r Chwiban), sy'n rhoi proses deg a thryloyw i'r gweithlu, i'w grymuso a'u galluogi i godi amheuan o unrhyw fath o gamymddygiad naill ai gan ein staff neu gyflenwyr/contractwyr yn gweithio ar eiddo'r Bwrdd Iechyd Prifysgol;
- Mae gennym darged ar gael i dalu ein cyflenwyr ymhen 30 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys;
- Yr ydym yn cydymffurfio â'r chwech o ofynion cyn-gyflogaeth y GIG i wirio bod ymgeiswyr yn cwrdd â rhag-amodau'r rôl y maent yn ymgeisio amdani. Mae hyn yn cynnwys gwiriad hawl i weithio ;
- Rydym wedi cyflwyno prosesau IR35 cadarn i sicrhau ymwneud teg a phriodol yr holl weithwyr ac sy'n atal unigolion rhag osgoi talu cyfraniadau Treth ac Yswiriant Gwladol;
- Nid ydym yn cyflogi staff na gweithwyr ar contractau dim oriau;
- Mae gennym Bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol sy'n sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd posib na gweithiwr a gyflogir dan anfantais mewn unrhyw fodd o ran tâl, hawliau cyflogaeth, cyflogaeth na chyfleoedd gyrfa;
- Rydym hefyd yn ceisio sicrwydd gan gyflenwyr, trwy'r broses dendro, nad ydynt yn defnyddio rhestrau duon/rhestrau gweithwyr gwaharddedig. Gallwn hefyd roi cadarnhad a sicrwydd nad ydynt yn defnyddio gwybodaeth am restrau duon/rhestrau gweithwyr gwaharddedig;

- Yn unol â'r Rheoliadau Trosglwyddo Tasgau (Gwarchod Cyflogaeth), bydd unrhyw rai o staff y Bwrdd Iechyd a all fod angen iddynt drosglwyddo i drydydd parti yn cadw eu Telerau ac Amodau Gwasanaeth GIG;
- Rydym yn defnyddio olrheiniwr cydymffurfio Deddf Caethwasiaeth Fodern (2015) trwy gontractau gafodd eu caffael gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) ar ran y Bwrdd Iechyd. Mae'r PCGC yr un mor ymrwymedig i sicrhau bod gweithgaredd caffael a wneir ar ran GIG Cymru yn cael ei wneud mewn dull moesegol. Ar ein rhan, maent yn gofalu bod gweithwyr yn y gadwyn gyflenwi lle maent yn cael eu nwyddau a'n gwasanaethau yn cael eu trin yn deg, yn unol â Chod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid perthnasol a phartneriaid yn yr undebau llafur i ddatblygu a gweithredu camau sy'n datgan ein hymrwymiad i sicrhau y gweithredir ac y cedwir at egwyddorion cyflogaeth foesegol yn ein cadwyni cyflenwi.

17. Casgliad

Fel Swyddog Atebol, ar sail y broses sicrwydd a amlinellwyd uchod, rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a'r sicrwydd perthnasol o ran rheolaeth fewnol. Gallaf gadarnhau fod y Bwrdd a'i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn effro i'w hatebolrwydd o ran rheolaeth fewnol.



Ni nodwyd unrhyw broblemau rheoli mewnol na llywodraethiant ac ni wnaed unrhyw gyfeiriad penodol at y materion arwyddocaol hynny a all fod wedi eu nodi uchod yn y Datganiad hwn.

Yn ystod 2020-2021, rydym eto wedi mynd ati i adnabod meysydd sydd angen gwella a gofyn i Archwilio Mewnol i gynnal asesiadau manwl er mwyn rheoli a lliniaru risgiau cysylltiedig. Mae nifer o adroddiadau a gyhoeddwyd gan Archwilio Mewnol yn cyd-fynd â'n barn, ac felly yr ydym wedi rhoi argymhellion clir i'r Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod camau rheoli brys ar gael i ganolbwyntio ar ddiffygion a nodwyd, a'u hunioni. Mae'r camau hyn wedyn yn cael eu monitro trwy'r Bwrdd a'i Bwyllgorau er mwyn sicrhau y gellir rhoi'r sicrwydd priodol.

Rwy'n falch o nid fod digon o gynnydd wedi ei wneud o ran ein Rheoli Risg i gyfiawnhau canfyddiad asesiad Archwilio Mewnol o sicrwydd rhesymol. Hefyd, mae sicrwydd wedi ei roi trwy archwilio system Ariannol Craidd y Bwrdd Iechyd oedd hefyd wedi cael graddfa asesiad o sicrwydd rhesymol.

Bu gwelliannau sylweddol i reoli risg, gyda'r FfSB yn awr yn rhan annatod o broses rheoli risg y Bwrdd Iechyd. Yr oedd gan y Bwrdd Iechyd CTCL y gellid ei gymeradwyo fyddai'n ymdrin â'r blynyddoedd 2019-2020 i 2021-22. Ataliwyd proses gynllunio'r CTCL am 2020-2021 i 2022-2023 ym Mawrth 2020 ac ni chwblhawyd y broses gymeradwyo, felly mae'r broses gymeradwyo yn dal ar y pwynt hwnnw (h.y., mae gan y Bwrdd Iechyd CTCL a gymeradwywyd). Fodd bynnag, nid ydym wedi cyflawni ein dyletswydd ariannol i adennill costau am y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2021. Yr ydym wedi gweithredu o fewn ein hadnoddau cyfalaf

am y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2021, ond heb wneud hynny am yr un cyfnod od air blynedd o ran y terfyn ar ein hadnoddau refeniw. Mae mwy o fanylion yn y Datganiadau Ariannol ar dudalen 132.

Fel y nodir yn y datganiad hwn drwyddo draw a'r Adroddiad Blynyddol, cafodd yr angen i gynllunio ac ymateb i bandemig COVID-19 effaith sylweddol ar y sefydliad, y GIG yn ehangach a chymdeithas gyfan. Bu gofyn am ymateb deinamig sydd wedi rhoi nifer o gyfleoedd yn ychwanegol at y risgiau. Bydd yr angen i ymateb ac adfer o'r pandemig gyda'r sefydliad a chymdeithas yn ehangach trwy gydol 2020-2021 a thu hwnt. Fe wnaif yn siwr y bydd ein Fframwaith Llywodraethiant yn ystyried yr angen hwn ac yn ymateb iddo.

O ganlyniad i'r strwythur llywodraethiant COVID-19 a roddwyd yn ei le, parhad y Bwrdd a'r Pwyllgorau allweddol, a phresenoldeb cyson y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol, yr wyf yn hyderus nad effeithiwyd yn andwyol ar ein systemau rheoli mewnol, ac yr wyf wedi cael sicrwydd na fu unrhyw broblemau rheoli mewnol na llywodraethiant yn ystod cyfnod y pandemig.

I grynhoi, mae f'adolygiad yn cadarnhau fod gan y Bwrdd systemau rheoli mewnol cadarn i gefnogi cyflwyno nodau ac amcanion polisi, ac nad oes unrhyw faterion rheoli mewnol na llywodraethiant i adrodd amdanynt am 2020-2021.

Llofnodwyd gan:



Prif Weithredwr a Swyddog Atebol:

Date: 10 Mehefin 2021



Rhan 2b

Adroddiad am Dâl a Staff



18. Adroddiad Tâl a Staff

18.1 Niferoedd Staff

Mae proffil gweithlu'r Bwrdd Iechyd yn nodi fod tua 76% o'r gweithlu yn fenywod. Nid yw hyn yn cynrychioli'r gymuned leol, lle mae ychydig dros hanner y gweithlu yn fenywod. Dyma oedd niferoedd y cyfarwyddwyr, rheolwyr a gweithwyr gwryw a benyw a gyflogwyd fel ar 31 Mawrth 2021:

	Benyw	Gwryw	Cyfanswm
Cyfarwyddwr	13	10	23
Rheolwr	135	76	211
Gweithiwr	12422	3869	16291
Cyfanswm	12570	3955	16525

18.2 Cyfansoddiad Staff






Mae'r siartiau isod yn dangos yr heriau canlynol wrth bennu'r ffyrdd gorau o ddefnyddio'r gweithlu presennol a rhai'r dyfodol, a sut i ystyried cyflenwad y dyfodol yn erbyn blaenoriaethau'r gwasanaeth:

- Mae gan y Bwrdd Iechyd weithlu sy'n heneiddio, a'r categorïau oedran mwyaf yw 51-55 oed a 31-35 oed (tua 2,130 aelod o staff yn y naill gategori a'r llall) Mae effaith gweithwyr yn ymddeol o'r gwasanaeth mewn meysydd hollbwysig yn allweddol i Fyrddau Clinigol sy'n cynllunio'r gweithlu yn lleol.
- Y categorïau graddfa mwyaf yw staff ym Mandiau 2, 5 a 6 Agenda dros Newid. Mae adolygu'r gymysgedd sgiliau a ffyrdd


newyd do weithio yn gyson yn bwysig i sicrhau cyflenwad digonol o sgiliau at y dyfodol yn y lle iawn ac ar y raddfa iawn.

- Mae mwyafrif y gweithlu yn fenywod (76%) gyda rhaniad cyfartal yn y grŵp hwn o weithio llawn-amser (38%) a rhan-amser (38%). Mae defnyddio ein polisïau cyflogaeth, fel y Polisi Gweithlu Addasadwy a'r Weithdrefn Gweithio Hyblyg, yn hanfodol er mwyn cadw doniau a gofalu bod y staff yn teimlo eu bod yn perthyn.
- Mae mwyafrif y gweithlu yn wyn (78%) gyda 10% yn y categorïau Du a Lleiafrifol Ethnig, a 12% heb ddatgan. Mae gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol nifer o gamau i barhau i adolygu ein gweithlu yn hyn o beth er mwyn sicrhau ei fod yn ceisio adlewyrchu'r boblogaeth leol lle mae hynny'n berthnasol, e.e., mewn arferion recriwtio.
- Mae'r staff nyrsio a bydwreigiaeth cofrestredig a staff nyrsio heb gofrestru yn ffurfio ychydig dros 43% o gyfanswm y gweithlu. A derbyn fod prinder cenedlaethol o nyrsys cofrestredig, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynaliadwydd nyrsys yn flaenoriaeth uchel ar ei agenda o ran gweithlu.





Dengys gwybodaeth proffil y gweithlu a gasglwyd i'r Bwrdd Iechyd ym Mawrth 2021 fod 4% o'r staff yn ystyried bod ganddynt anabledd, ond nid yw'r wybodaeth hon yn hysbys ar gyfer nifer sylweddol o'r staff (34%).



18.3 Data Salwch ac Absenoldeb

Mae iechyd a lles staff y Bwrdd Iechyd o'r pwys mwyaf, yn enwedig yn y cyfnod digynsail hwn, a chafodd llawer o'r gwaith a wnaed yn 2020-2021 ei ddisgrifio yn yr Adroddiad Perfformiad.

Enillodd y Bwrdd Iechyd Safonau Iechyd Corfforaethol Aur a Phlatinwm ac fe'i cydnabuwyd fel esiampl o sefydliad. Yn 2020-2021 yr ydym wedi parhau i ddefnyddio'r gwersi o'r safonau hyn i ymestyn ein gweithgaredd iechyd a lles yn fwy fyth. Yr oedd yr ail-asesu i fod i ddigwydd yn 2020 ond gohiriwyd hyn oherwydd COVID-19 ac fe gawn ddyddiad diwygiedig ym mis Ebrill 2021.

Erys **absenoldeb salwch** yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r gyfradd salwch gronuss am y cyfnod 12-mis hyd at a chan gynnwys Mawrth 2021 yn 6.00% sydd 1.40% yn

uwch na tharged diwedd-blwyddyn 2020-2021 o 4.60%. Priodolwyd 17.50% o gyfanswm y salwch a gofnodwyd i COVID-19.

Priodolwyd 72% o'r salwch hwn i absenoldeb tymor-hir a 28% i absenoldeb tymor-byr. Y prif resymau a gofnododd y Bwrdd Iechyd am absenoldeb yn ystod 2020-2021 oedd Pryder/Straen ac anhwylderau Cyhyrysgerbydol.

Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth am nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd salwch yn ystod 2019-20 a 2020-2021.

	2020-21	2019-20
	Nifer	Nifer
Dyddiau a gollwyd (tymor hir)	213,428.31	182,907.36
Dyddiau a gollwyd (tymor byr)	83,687.67	75,301.51
Cyfanswm dyddiau a gollwyd	297,115.98	258,208.87
Cyfanswm blynyddoedd staff	13,560.93	13,074.26
Cyfrataledd dyddiau gwaith a gollwyd	13.68	12.33
Cyfanswm staff a gyflogwyd yn y cyfnod (cyfrif pennau)	15,580	14,658
Cyfanswm staff a gyflogwyd yn y cyfnod heb absenoldeb (cyfrif pennau)	7,602	6,144
Canran staff heb absenoldeb salwch	47.49%	39.81%

Mae'r Bwrdd Iechyd yn frwd dros ofalu am les aelodau ei staff. Yn 2020-2021, hyfforddwyd 111 o Bencampwyr Lles. Cynhelir cyfarfodydd chwarterol gyda'r pencampwyr lles i gynnig iddynt gefnogaeth,

rhannu syniadau a'u cyfoesi am unrhyw fentrau lles newydd. Mae grŵp timau ar gael hefyd iddynt gadw mewn cysylltiad.

Bob mis byddwn yn canoli ar thema yn ymwneud â lles meddyliol, e.e., ymwybyddiaeth o straen, a datblygir llythyr newyddion gyda gwybodaeth am weithdai perthnasol a sut i gael cefnogaeth.

Mae hyfforddiant yn dal i gael ei gyflwyno gan y Gwasanaeth Lles Gweithwyr, er mai ar lwyfannau ar-lein y mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Mae sesiynau yn cynnwys Pendantsrwydd, Trugaredd a Hunanofal, ac Asesu Risg Straen i reolwyr llinell. Yn ychwanegol at y rhaglen dreigl o ddigwyddiadau hyfforddi, cynhelir hefyd sesiwn grŵp ynghylch thema'r mis (e.e. seiat holi ymwybyddiaeth straen).

18.4 Polisiau Staff

Yn BIP Caerdydd a'r Fro mae gennym 6 o Bolisiau cyflogaeth lleol i'r Bwrdd Iechyd:

- Recriwtio a Dethol
- Gweithlu a all Ymaddasu
- Iechyd a Lles Gweithwyr
- Dysgu, Addysg a Datblygiad
- Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol
- Absenoldeb Mamolaeth, Mabwysiadu, Tadolaeth a Rhannu Cyfrifoldeb Rhieni

Mae'r rhain yn gosod allan ein h ymrwymadau sefydliadol a'r hyn yr ydym yn anelu at ei gyflawni. Cefnogir pob un gan nifer o Weithdrefnau sy'n disgrifio'r prosesau i'w dilyn, rolau a chyfrifoldebau,

ac unrhyw hawliau neu ymrwymadau. Mae hyn yn golygu bod llai o ddyblygu, mwy o dryloywder a gwybodaeth sy'n haws ei ddeall. Mae'r rhain yn ychwanegol at y Polisiau CYMRU GYFAN sy'n gymwys i ni a phob Bwrdd Iechyd arall yng Nghymru

Mae gofyn i bob polisi, gweithdrefn a chanllaw cyflogaeth a rhai Adnoddau Dynol (AD), Gweithlu a Datblygu'r Sefydliad (GDS) cysylltiedig fod ag o leiaf ddau awdur, h.y., cynrychiolydd rheolwyr a staff, ac y maent yn destun proses ymgynghori gadarn. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi ar fewnrwyd y Bwrdd Iechyd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf ac ystyriaeth yn Is-grŵp Polisiau Cyflogaeth y Fforwm Partneriaeth Lleol.

Yn Ionawr 2021 cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ei **Bolisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol** diwygiedig. Mae'r Polisi hwn yn cymryd lle'r Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol blaenorol. Mae'r iaith wedi ei chyfoesi drwyddo draw ac y mae'n ystyried yr isod:

- y Ddyletswydd Cymdeithasol-Economaidd newydd
- Safonau'r Iaith Gymraeg
- y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd- Gofalu am Gynhwysiant 2020-2024

Mae meddu ar Bolisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol yn dangos ein bod fel cyflogwr wedi ymrwymo i roi cydraddoldeb cyfle a chynhwysiant i'r holl weithwyr, waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig (h.y., hunaniaeth rhywedd, statws priodasol, hil, tarddiad ethnig, statws mamolaeth, cenedligrwydd, tarddiad cenedlaethol, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu oedran). Mae ei gylch



gorchwyl yn mynd y tu hwnt i gydymffurfio llym â'r gyfraith ac yn gweithredu fel pwynt cyfeirio os cyfyd unrhyw anghydfod.

Yng ngoleuni digwyddiadau diweddar, megis effeithiau gwahaniaethol y pandemig ar wahanol grwpiau poblogaeth, y mudiadau Mae Bywydau Duon yn Cyfrif, a phenderfyniadau mewn cyfraith achos, mae'r Polisi fel y'i cyfoeswyd wedi ystyried newidiadau mewn iaith a symud o gydraddoldeb i gynhwysiant. Mae'r cyfoesiad hwn i'r polisi yn golygu bod pawb yn cael eu trin yn deg trwy gydol y polisi recriwtio a chyflogaeth; mae'n fater o ymdrin â'r cydbwysedd fel bod pawb yn teimlo eu bod wedi eu cynnwys a'u bod yn gyfartal yn y gweithle. Mae'n cydnabod y dylid trin pob gweithiwr fel unigolyn, ac na ddylid barnu ar sail stereodeipiau. Yn hytrach, dylai pob gweithiwr deimlo fod pobl yn eu deall, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am y sgiliau sydd ganddynt. Mae'r Polisi yn dweud beth a wnawn i gyrraedd y nod hwn.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau bod recriwtio a dewis staff yn cael ei gynnal mewn dull systemaidd, cynhwysfawr a theg, gan hyrwyddo cydraddoldeb cyfle bob amser, dileu camwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pawb. Mae'r **Polisi Recriwtio a Dewis** yn gosod allan sut y byddwn yn denu, penodi ac yn cadw staff cymwys gyda'r symbyliad, y sgiliau a'r profiad iawn i sicrhau y cyflwynir gwasanaeth o safon a rhai sy'n cefnogi ei gwerthoedd. Cefnogir hyn gan nifer o weithdrefnau gan gynnwys y Weithdrefn Recriwtio a Dewis, Gweithdrefn Contract Tymor Penodol a Gweithdrefn Cofrestru Proffesiynol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gyfle cyfartal mewn recriwtio, ac yn dangos hyn trwy arddangos y symbol Hyderus am Anabledd (sy'n cymryd lle'r cynllun 'dau dic') yn ei holl hysbysebion, yn ogystal â chefnogi symbolau Cefnogi Oed Cadarnhaol, Cyflogwr Ystyrlon a Stonewall Cymru.



INVESTORS
IN PEOPLE



Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gefnogi ei weithwyr a'u cadw'n iach. Yn 2019 fe wnaethom fabwysiadu **Polisi Iechyd a Lles y Gweithwyr** newydd sy'n gosod allan ein hymrwymiad i annog a grymuso gweithwyr i gymryd cyfrifoldeb personol dros eu dewisiadau mewn bywyd, eu hiechyd a'u lles, ac i gyfarwyddo rheolwyr am eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith GIG Cymru yn helpu rheolwyr i gefnogi staff pan fyddant yn sâl, rheoli eu habsenoldeb a helpu i hwyluso eu dychweliad amserol i'w gwaith, ond mae'n fwy na hynny – fe'i bwriadwyd hefyd i'ch helpu i adnabod eich gweithwyr a chanolbwyntio ar eu hiechyd a'u lles i'w cadw'n iach ac yn eu gwaith.

Mae nifer o becynnau offer yn y Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith. Mae un o'r rhain yn ymdrin ag addasiadau rhesymol/wedi eu teilwrio - mae'n atgoffa rheolwyr o'n dyletswydd gyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw gweithwyr ag **anableddau, neu nam iechyd corfforol neu feddyliol** dan anfantais wrth wneud eu gwaith neu yn ystod y broses recriwtio. Dywed y Polisi nad yw pob salwch yn anabledd; fodd bynnag, os yw gweithiwr yn gofyn am gefnogaeth gyda chyflwr iechyd a lles, ei bod yn well rhoi'r gefnogaeth yn unol â hynny, a rhagdybio ei bod yn gymesur gwneud hynny. Mae llawer o fanteision i hyn, gan gynnwys cefnogi'r gweithiwr yn ôl i'r gwaith a'u helpu i aros yn y gwaith.

Fe wnaethom adolygu ein **Gweithdrefn Adleoli** yn 2020. Mae hyn yn gosod allan y broses o geisio gwaith amgen addas i weithwyr nad ydynt yn ffit ac nad ydynt bellach yn gallu cyflawni dyletswyddau eu swydd bresennol, naill ai dros dro neu yn

barhaol. Gall hyn fod am nifer o resymau, gan gynnwys iechyd. Mae'n bwysig i'r holl staff a rheolwyr fod yn glir am eu cyfrifoldebau a'r broses i'w dilyn er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg a chyfartal. Er mai Adnoddau Dynol sydd yn cydgordio'r broses o ddarganfod cyfle i adleoli, mae'r cyfrifoldeb a pherchenogaeth y camau a gymerir yn cael ei rannu gyda'r unigolyn dan sylw a'i r/rheolwr llinell, a disgwylir i'r naill a'r llall gymryd pob cam posib i ganfod cyfleoedd addas a mynd ar eu hôl. Nod y Weithdrefn yw sicrhau y rhoddir cyngor, cefnogaeth a chanllawiau clir i reolwyr a gweithwyr ynghylch eu swyddogaeth(au) i reoli sefyllfaoedd lle mae angen trosglwyddo gweithwyr i swyddi amgen addas.

Trwy wneud addasiadau rhesymol i staff ag anableddau, yr ydym wedi llwyddo i gadw nifer o weithwyr gwerthfawr yn eu swyddi. Ymysg newidiadau nodweddiadol mae adolygu beichiau achos, newid y cyfarpar a ddefnyddir, prynu cyfarpar arbenigol ac addasu'r mannau gwaith. Rydym wedi gweithio gyda sefydliadau megis Access to Work i gefnogi ein gweithwyr anabl.

Manteisiodd y Bwrdd Iechyd ar y cyfle i ddatblygu agwedd bartneriaeth gyda DFN Project Search. Rhaglen flwyddyn i baratoi am gyflogaeth yw hon, a gynhelir yn gyfan gwbl yn y gweithle. Byd dyn helpu i gyflwyno'r deilliannau cyflogaeth gorau i oedolion ifanc o ddarparwyr addysg AAA gydag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth ledled Caerdydd a'r Fro a dangynrychiolir yn y gweithlu. Bydd hyn yn helpu i gyflawni rhan o'r agenda ehangu mynediad i waith.

Oherwydd y sefyllfa economaidd gyfredol yn deillio o Covid19, mae llawer o bobl allan o waith. Pobl ifanc yw cyfran uchel iawn



o'r rhain. Mae'r llywodraeth wedi lansio cynllun KICKSTART newydd, i roi cyfle yn y dyfodol i bobl 16-24 oed sy'n derbyn Credyd Cynhwysol trwy greu swyddi o ansawdd uchel, gyda chymhorthdal y llywodraeth, ledled y DU. Llwyddodd Caerdydd a'r Fro i ddod yn gyflogwr uniongyrchol ers Ionawr 2020.

Bydd lleoliadau Kickstart yn para am chwe mis, ac yn ystod y cyfnod hwn, bydd yr unigolyn yn ennill sgiliau cyflogadwyedd newydd ac yn cael ei f/mentora i'w helpu i ennill gwaith am y tymor hir. Yn ystod yr wythnosau cyntaf, derbyniodd Caerdydd a'r Fro 75 cais.

Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i ennill statws platinwm mewn safonau iechyd corfforaethol ers 2014, sydd yn dyst i'n hymrwymiad i'n cyfrifoldeb corfforaethol. Cafodd addewid Ymrwymiad Caerdydd hefyd ei lofnodi ar y cyd ag awdurdod lleol Caerdydd i gefnogi'r weledigaeth o weithio mewn partneriaeth i helpu pobl ifanc i gael cyfle am waith.



18.5 Hawliau Cyflog a Phensiwn Uwch-Reolwyr 2020-21

Mae manylion llawn tâl uwch-reolwyr am 2020-21 yn y tablau archwiliedig a ganlyn:

ADRODDIAD TALIADAU SWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL GAERBYDD AR FRO 2020-21						
Cyfngau Uwch Reolwyr						
31 Mawrth 2021						
Enw a theid	Cyflwg (bandau o £5,000)	Taliadau Swrdd (bandau o £5,000)	Bonws (bandau o £5,000)	Buddion mewn mwyddau (Taliadau swrdd ff £10 agored)	Buddion Penafnwr (Taliadau swrdd ff £10 agored)	Cyfanswm (bandau o £5,000)
	£ 0000	£ 0000	£ 0000	£ 000	£ 0000	£ 0000
Swrdd Iechyd Lleol Prifysgol Gaerbydd Ar Fro						
Swyddog Aelodau						
Leonard Richards, Prif Weithreder	210-215	0	0		54	205-270
Ruth Walker, Cyfarwyddwr Gweithredol Myrddys	140-145	0	0		0	140-145
Steve Curny, Prif Swyddog Gweithredol	140-145	0	0		39	100-105
Abigail Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol	130-135	0	0		30	170-175
Robert Chastelick, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid (1)	85-90	0	0		0	85-90
Christopher Lewis, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro (1)	70-75	0	0		0	70-75
Catherine Phillips, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid (1)	10-15	0	0		5	15-20
Martin Driscoll, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (2)	140-145	0	0		32	170-175
Rachel Gidman, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (2)	10-15				1	10-15
Dr Fiona Jenkins, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapi a Gwybodaeth Iechyd (3)	90-95	0	0		89	180-185
Dr Stuart Walker, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (4)	225-230	0			85	310-315
Rona Kinghorn, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cynwedd	120-125	0	0		33	155-160
Cyfarwyddwyr Eiddi						
Nicola Ponsman, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol	105-110	0	0		20	135-140
Jonathan Gray, Cyfarwyddwr Trawstheidd a Gwybodaeth (5) (gweler y broednodyn)	35-40	0	0		4	40-45
Alan Wardhaugh, Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol (5)	95-100	0	0		7	105-110
Swyddog Awdurdodol (AI)						
Chomas Januszewski, Canaryon (6)	65-70	0	0	0	0	65-70
Michael Imperato, AI - Is-gadeirdd Dros Dro (7)	55-60	0	0	0	0	55-60
John Union - Cyllid	15-20	0	0	0	0	15-20
Ellen Brandreth, AI - Cyfarwyddwr Gwybodaeth a Thechnoleg (8)	15-20	0	0	0	0	15-20
Yr Athro Gary Baxter, AI - Prifysgol	0	0	0	0	0	0
Sara Moulden, AI - Thydd Sefydliadol (Gwifodol)	15-20	0	0	0	0	15-20
Y Cyfarwyddwr Susan Williams, AI - Awdurdod Lloed	15-20	0	0	0	0	15-20
Amar Hanuk, AI - Cymuned Lloed	15-20	0	0	0	0	15-20
Rhian Thomas, AI - Cyfarwyddwr Taliadau	15-20	0	0	0	0	15-20
Owen Ward, AI - Undeb Lloed (9)	0	35-40	0	0	0	35-40
Mike Jones, AI - Undeb Lloed (9)	0	0-5	0	0	0	0-5
Aelodau Cyswll						
Richard Thomas, Gadeirdd, Grŵp Cyfeirio Rhannol (10)	0	0	0	0	0	0
Geoffrey Simpson, Gadeirdd Dros Dro, Grŵp Cyfeirio Rhannol (10)	0	0	0	0	0	0
Sam Austin, Gadeirdd, Grŵp Cyfeirio Rhannol (10)	0	0	0	0	0	0
Susan Bailey, Gadeirdd, Ffotwm Gweithwyr Iechyd Proffesiynol (11)	0	75-80	0	0	0	75-80
Lance Garner, Aelod Cyswll - Awdurdod Lloed	0	0	0	0	0	0
Nid yw'r buddlon pensïwn yn swm sydd wedi'i dalu i unigol ymgyr y 31st yn ystod y flwyddyn, ond yn gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddlon pensïwn. Gall llawer o ffactorau dylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newid taliadau yng nghyflwyn person, p'un a yw'n dewis gweithio cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensïwn o'i gyflwyno i'r peldio, a ffactorau priso eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensïwn yn eidd ymwydd. Nid yw bonws y cynllun cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer gweithwyr y GIG agofal cynddelus o £735 i wobrwyo staff cymwys wedi'i gymwys yng nghyfrifiadau adroddiad Taliadau'r GIG. Nid taliad cynddelus yw'r taliad bonws hwn, ond taliad untro i wobrwyo staff cymwys am eu hymrwymiad a'u hymdrechion ddi-ffordod yn amgylchiadau mwyaf heriol.						

ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD IECHYD CAERDYDD A'R FRO 2020-2021

ADRODDIAD TALIAIDAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2020-21						
Cyflogau Uwch Reolwyr						
31-March-2020						
Enw a Theitl	Cyflwg (bandiau o £5,000)	Taliadau Swll (bandiau o £5,000)	Taliadau Bwm (bandiau o £5,000)	Buddion mewn newyddau (Taliad newydd yr £500 a o saf)	Buddion Pensiwn (Taliad newydd yr £500 a o saf)	Cyfanswm (bandiau o £5,000)
	£000	£000	£000	£00	£000	£000
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro						
Sgwddos Aelodau						
Leonard Richards, Prif Weithredwr	215-220	0	0	0	0	215-220
Ruth Walker, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrays	130-135	0	0	0	0	130-135
Steve Curry, Prif Sanyddog Gweithredol	140-145	0	0	0	30	170-175
Abigail Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol	130-135	0	0	0	29	160-165
Robert Chadwick, Cyfarwyddwr Gweithredol	170-175	0	0	0	0	170-175
Martin Driscoll, Cyfarwyddwr Gweithredol y	140-145	0	0	0	33	175-180
Gweithlu a Datblygu Safonddiol	105-110	0	0	0	12	120-125
Dr Fiona Jenkins, Cyfarwyddwr Gweithredol	5-10	0	0-5	0	0	10-15
Therapiâu a Gwyddor Iechyd	40-45	0	5-10	0	0	50-55
Dr Graham Shortland, Cyfarwyddwr Meddygol	155-160	0	0-5	1	0	155-160
Gweithredol	120-125	0	0	0	65	185-190
Dr Stuart Walker, Cyfarwyddwr Meddygol						
Gweithredol						
Fiona Kinghorn, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd						
y Cyhoedd						
Cyfarwyddwr Eraill						
Nicola Foreman, Cyfarwyddwr Llywodraethu	105-110	5-10	0	0	47	155-160
Contraethol	50-55	0	0	0	0	50-55
Jonathon Gray, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a	25-30	0	0	0	0	25-30
Gwybodaeth (gweler y broednodyn)						
Dr Sharon Hopkins, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a						
Gwybodaeth						
Aelodau Annibynnol (A)						
Maria Latta, Cadeirydd	25-30	0	0	0	0	25-30
Charles Janowski, Cadeirydd Dros Dro	45-50	0	0	13	0	45-50
Charles Janowski, Is-gadeirydd	15-20	0	0	0	0	15-20
Michael Imperato, AI - Is-gadeirydd Dros Dro	25-30	0	0	0	0	25-30
Michael Imperato, AI - Cyfeithiol	5-10	0	0	0	0	5-10
John Union - Cyllid	15-20	0	0	3	0	15-20
Eileen Brandeth, AI - Cyfeithiol Gwybodaeth a	15-20	0	0	0	0	15-20
Thechnoleg	0	0	0	0	0	0
Yr Athro Gary Baxter, AI - Prifysgol	15-20	0	0	0	0	15-20
Sara Moseley, AI - Trydydd Sector (Gwirfoddol)	5-10	0	0	0	0	5-10
Y Cyngorydd Susan Elismore, AI - Awdurdod	0-5	0	0	0	0	0-5
Lleol	0	40-45	0	0	0	40-45
Akmal Hanuk, AI - Cymuned Leol						
John Antoniazzi, AM - Ystadau						
Rhian Thomas, AI - Cyfeithiol Ystadau						
Dawn Ward, AI - Undeb Llafur						
Aelodau Cyswll						
Richard Thomas, Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio	0	0	0	0	0	0
Rhandallaid	0	85-90	0	0	0	85-90
Susan Bailey, Cadeirydd, Ffwrwm Gweithwyr	0	0	0	0	0	0
Iechyd Profesiynol	0	0	0	0	0	0
Lance Carter, Aelod Cyswll - Awdurdod Lleol	0	0	0	0	0	0
nid yw'r buddion pensiwn yn swm sydd wedi'i dalu i unigolyn gan y BIP yn ystod y flwyddyn, ond yn gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau yng nghyflwyn person, p'un a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog al peidio, a ffactorau prisiau eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfarwydd. Ni ddango swyddu unrhyw ffigurau buddion pensiwn ar gyfer i'r Grŵp gan fod ei aelodaeth yng nghynllun pensiwn y GIG wedi'i reoli yn 2010 a dim ond ar ôl ymuno â BIP Caerdydd a'r Fro ym mis Rhagfyr 2019 y cafodd ei aelodaeth ei hailgyrchwyn. Er mwyn cyfrifo buddion pensiwn rhaid i unigolyn fod wedi bod yn aelod o'r cynllun yn y flwyddyn arannol flaenorol ac felly ni fydd yn bosibl cyfrifo ffigurau buddion pensiwn tan 2020/21.						



ADRODDIAD TALIADAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2020-21**Hawliau Cyflog a Phensiwn Uwch Reolwyr**

Nid yw Dawn Ward, Mike Jones na Susan Bailey yn cael eu talu fel Aelodau o'r Bwrdd, ond maent yn gyflogaion y Bwrdd Iechyd a dangosir eu costau cyflog yn y golofn Taliadau Eraill.

Roedd Martin Driscoll yn aelod o gynllun buddion Cyflog Car Phydau GIG Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol, a yn agored i holl weithwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cymru. Mae eilen o gyflog cyflogai yn cael ei 'chlyfnesi' am ddethyddio car newydd. Yn y tabl Taliadau ar gyfer 2020-21 mae'r swm o £7,305 a gythwidiwyd at ddethyddio y car wedi'i gynnwys yn y golofn Cyflog.

Newidiadau i Aelodaeth y Bwrdd yn 2020-21

- (1) Gorfennodd Robert Chadwick ar 30 Medi 2020. Roedd Christopher Lewis yn Gyfarwyddwr Cyllid Dros Dro o 1 Medi hyd at 28 Chwefror 2021 ac mae'r tali a ddangosir yn y tabl ar gyfer y cyfnod hwn yn unig. Dechreuodd Catherine Phillips ar 1 Mawrth 2021.
- (2) Gorfennodd Martin Driscoll ar 28 Chwefror 2021. Dechreuodd Rachel Gidman fel Cyfarwyddwr Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ar 1 Mawrth 2021.
- (3) Mae Fiona Jenkins wedi bod yn gweithio fel Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwyddor Iechyd Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ers 2 Tachwedd 2020. Mae ei hamser wedi'i rannu'n gyfartal rhwng y ddau Fwrdd Iechyd.
- (4) Dechreuodd Stuart Walker fel Dirprwy Brif Weithredwr ar 1 Mawrth 2021.
- (5) Gorfennodd Jonathon Gray ar 30 Mehefin 2020. Dechreuodd Allan Wardhaugh ar 15 Gorffennaf 2020.
- (6) Roedd Charles Janczewski yn Gadeirydd Dros Dro tan 23/8/20 pan gafodd ei benodi'n Gadeirydd.
- (7) Gorfennodd Michael Imperato ar 31 Mawrth 2021.
- (8) Gorfennodd Eileen Drandreth ar 31 Mawrth 2021.
- (9) Gorfennodd Dawn Ward ar 31 Ionawr 2021. Dechreuodd Mike Jones ar 1 Mawrth 2021.
- (10) Gorfennodd Richard Thomas ar 24 Mawrth 2020. Geoffrey Simpson oedd Gadeirydd Dros Dro y Grŵp Cykeio Rhanddeilaidd o 25 Mawrth tan 28 Medi 2020. Dechreuodd Sam Austin ar 24 Tachwedd 2020.
- (11) Gorfennodd Susan Bailey ar 10 Chwefror 2021.

Perthynas â'r Taliadau

Adroddir ar fanylion y Perthynas Taliadau yn adran 9.6 o'r Datganiadau Ariannol.



18.6 Gwariant ar Ymgynghorwyr

Fel y datgelwyd yn nodyn 3.3 ei gyfrifon blynyddol, gwariodd y Bwrdd Iechyd £5.562m ar wasanaethau ymgynghorwyr yn ystod 2020-21, o gymharu â £2.475m yn 2019-20. Aeth y rhan fwyaf o'r gwariant hwn tuag at brosiectau gyda'r nod o gyflwyno gwell deilliannau clinigol ac effeithlonrwydd.



18.7 Sicrwydd Treth i'r sawl a benodwyd heb fod ar y Gyflogres

Am bob ymrwymiad oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2021, am fwy na £245 y dydd.

Nifer yr ymrwymadau presennol ar 31 Mawrth 2021	17
Ac o'r rhain:	
Nifer sydd wedi bodoli am lai na blwyddyn ar adeg yr adroddiad	17
Nifer sydd wedi bodoli rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar adeg yr adroddiad	0
Nifer sydd wedi bodoli rhwng tair a phedair blynedd ar adeg yr adroddiad	0
Nifer sydd wedi bodoli am bedair blynedd neu fwy ar adeg yr adroddiad	0

Er nad yw'r BIP yn gyfrifol am ddiwyddu treth ac yswiriant gwladol mewn perthynas â Staff Asiantaeth, rydym wedi ysgrifennu at yr asiantaethau dan sylw yn dweud ein bod yn credu bod ein perthynas â'r staff yn un o gyflogaeth ac felly dylent fod yn talu'r gweithwyr hyn drwy ddiwyddu treth ac yswiriant gwladol.



Rhan 2b

Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio



19. Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

19.1 Cysondeb Gwariant

Mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd ariannol i adennill costau dros gyfnod o dair blynedd. O ganlyniad i bwysau ar wario cyhoeddus lle bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd fynd i gryn gost a lle bu mwy o alw am wasanaethau o ansawdd uchel i gleifion, a hynny mewn cyfnod o gyfyngu ar gyllid, daeth £9.724m dros y terfyn adnoddau tair blynedd i'w rhan. Bernir felly bod hyn yn afreolaidd.

Ataliwyd y broses gymeradwyo cynllun tair-blynedd 2020/2023 3 yn y gwanwyn, ac ni chafodd ei gwblhau, felly mae statws cymeradwyd/heb gymeradwyo pob sefydliad yn aros fel yr oeddent ar y pwynt hwnnw (h.y., cyflwyniad blaenorol Ionawr 2019).

Rhoes y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfarwyddiadau i sefydliadau'r GIG ddatblygu a chyflwyno cynllun blynyddol am 2021-2022. Ni fydd cynlluniau blynyddol 2021-2022 yn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Gweinidog, ond fe gynhelir proses asesu a rhoddir adborth i'r GIG.

19.1.1 Cynlluniau Gwariant Tymor Hir 2016-2021

Perfformiad yn erbyn y Terfyn Adnoddau Refeniw

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Costau gweithredu net am y flwyddyn	936,816	919,484	964,833	1,043,916	1,220,389
Tynnu gwariant gwasanaethau offthalmig cyffredinol a gwariant heb derfyn arian parod arall	(21,567)	(19,396)	(18,106)	(17,276)	(13,306)
Tynnu canlyniadau refeniw o ddod â chynlluniau MCP i SoFP	(1,028)	(1,028)	(1,028)	(1,028)	(1,028)
Cyfanswm y gwariant gweithredol	914,221	899,060	945,719	1,025,612	1,205,955
Dyrannu Adnoddau Refeniw	884,978	872,207	935,547	1,025,670	1,206,045
Tanwariant/Gorwariant yn erbyn dyraniad	(29,243)	(26,853)	(9,872)	58	90

Nid yw'r BILL wedi ateb ei ddyletswydd ariannol i adennill costau yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw dros y 3 blynedd 2018-19 i 2020-2021.

Ni dderbyniodd y Bwrdd Iechyd unrhyw gefnogaeth arian ad-daladwy yn 2020-2021.



Perfformiad yn erbyn y Terfyn Adnoddau Cyfalaf


	2016/17 £'000	2017/18 £'000	2018/19 £'000	2019/20 £'000	2020/21 £'000
Gwariant cyfalaf gros	44,061	55,936	49,349	61,333	103,182
Ychwanegu: Colladion with waredu asedau a roddwyd	9	0	4	13	14
Tynnu GAN o eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol a waredwyd	(621)	(2,297)	(310)	(2,167)	(7,020)
Tynnu grantiau cyfalaf a gafwyd	0	0	0	0	(536)
Tynnu rhoddion a gafwyd	(1,423)	(6,606)	(530)	(1,109)	(297)
Tâl yn erbyn Dyraniad Adnoddau Cyfalaf	42,026	47,033	48,413	58,070	95,343
Dyraniad Adnoddau Cyfalaf	42,104	47,121	48,487	58,159	95,447
Gorwariant/tanwariant yn erbyn Dyraniad Adnoddau Cyfalaf	78	88	74	89	104



Mae'r BILL wedi ateb ei ddyletswydd ariannol i adennill costau yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf dros y 3 blynedd 2018-2019 i 2020-2021.



Sut y derbyniodd y BIP ei Gyllid Refeniw

GRAFFIAU INCWM: 2016-2017 to 2020-2021

2020-2021



2019-2020**2018-2019**


2017-2018**2016-2017**



Fel y datgelir yn y tabl perfformiad yn erbyn dyletswydd adennill costau uchod, caniateir i'r Bwrdd Iechyd dynnu ymaith rai elfennau o wariant (a ddaw i'w ran ond nad oes ganddo reolaeth drostynt) wrth gymharu ei wariant a'i derfyn adnoddau refeniw blynyddol.



At ddibenion cymharu incwm a chost yn ystyrlon, triniwyd hyn fel incwm tybiannol yn yr uchod . Felly mae'r ffigyrau gwariant a ddangosir isod yn cael eu dangos fel rhai gros (heb unrhyw wariant wedi ei dynnu allan).

Sut y defnyddiodd y BIP ei Gyllid Refeniw

2020-2021



2019-2020**2018-2019**

2017-2018**2016-2017**

19.2 Ffioedd a Chostau

Mae'r Bwrdd Iechyd yn codi ffioedd neu gostau ar ei gleifion mewn nifer o feysydd. Lle mae'r Bwrdd Iechyd yn codi'r cyfryw ffioedd neu gostau, mae'n gwneud hynny yn unol â Chylchlythyrau Iechyd Cymru a chanllawiau codi arian perthnasol.

Mae costau fel arfer yn cael eu codi ar sail cost lawn. Nid oes yr un o'r eitemau y codir cost arnynt eu hunain yn berthnasol i'r Bwrdd Iechyd, ond fe ddatgelir rhai o'r eitemau mwy (Ffioedd Deintyddol, incwm gan Gleifion Preifat a Thramor) yn Nodyn 4 y Cyfrifon Blynyddol

19.3 Rheoli Arian Cyhoeddus

Dyma'r Datganiad sydd ei angen am Ddeiliaid Gwybodaeth Sector Cyhoeddus fel y cyfeirir ato yn 9.1.8 (tudalen 54) Adroddiad y Cyfarwyddwyr. Yn unol â chyrff eraill GIG Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog sydd yn gorfodi'r egwyddorion a amlinellir yn Llawlyfr Trysorlys EM ar Reoli Arian Cyhoeddus. O ganlyniad, dylai'r Bwrdd Iechyd fod wedi cydymffurfio â'r dyraniad cost a'r gofynion codi tâl yn y canllaw hwn, ac ni wnaed y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o unrhyw adegau pan na wnaed hyn.

19.4 Rhwymedigaethau Amodol Pell Perthnasol

Fel y datgelwyd yn nodyn 21.2 ei gyfrifon blynyddol, yr oedd gan y Bwrdd Iechyd rwymedigaethau amodol pell net fel ar Fawrth 31 2021 o £0.025m. Mae a wnelo hyn â hawliadau Esgeulustod Clinigol ac Anaf Personol yn erbyn y Bwrdd Iechyd, lle dywed ein cynghorwyr cyfreithiol wrthym mai pell iawn yw siawns yr hawlwyd o lwyddo.

19.5 Tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Y rhain yw'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net, y datganiad Sefyllfa Ariannol, Y Datganiad Llif Arian a'r Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifo arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r cyfreithiau a'r safonau cyfrifo rhyngwladol cymwys fel y'u dehonglir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM a'u haddasu ganddo.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel ar 31 Mawrth 2021 ac o'u costau rhedeg net am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n gywir yn unol â safonau cyfrifo safonau cyfrifo rhyngwladol fel y'u dehonglir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM a'u haddasu ganddo; ac
- wedi eu paratoi yn gywir yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed dani gan Weinidogion Cymru.



Sail dros Farn Amodol am Reoleidd-dra

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi torri eu terfyn gwario adnoddau refeniw trwy wario £9.724 miliwn dros y £3,167 miliwn y cawsant awdurdod i'w wario yn y cyfnod tair blynedd 2018-19 i 2020-21. Mae hyn yn wariant afreolaidd. Ceir manylion pellach yn f'Adroddiad ar dudalen 135.

Barn Amodol ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ac eithrio am y gwariant afreolaidd o £9.724 miliwn a esboniwyd yn y paragraff uchod, ym mhob ystyr perthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac y mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail pob Barn

Cynhaliais f'archwiliad yn unol â'r cyfreithiau perthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Arfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran o'r adroddiad sy'n ymdrin â chyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol. Yr wyf yn annibynnol ar y Bwrdd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

Pwyslais Mater

Tynnaf sylw at Nodyn 21.1 o'r datganiadau ariannol, sy'n disgrifio effaith Cyfarwyddyd

Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Ni addaswyd fy marn yng nghyswllt y mater hwn. Mae mwy o fanylion yn f'Adroddiad a atodir.

Casgliadau ynghylch busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad fod defnyddio sail busnes hyfyw cyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a wneuthum, nid welais unrhyw ansicrwydd o bwys ynghylch digwyddiadau neu gyflyrau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw o gyfrifo am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf ers awdurdodi'r datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr parthed y busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Y wybodaeth arall yw'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ar wahan i'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilio arnynt. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a ddatgenir yn benodol i'r gwrthwyneb yn f'adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall, ac o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson a'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gynnal yr



archwiliad, neu a yw fel arall yn ymddangos wedi ei gam-ddatgan yn faterol berthnasol. Petawn yn dod o hyd i unrhyw gyfryw anghysonderau materol berthnasol neu gamddatganiadau sy'n ymddangos yn faterol berthnasol, mae gofyn i mi bennu a yw hyn yn peri camddatganiad materol berthnasol neu beidio yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, ar sail y gwaith a wneuthum, y dof i'r casgliad fod cam-ddatganiad materol berthnasol am y wybodaeth arall hon, mae gofyn i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad tâl a archwilir wedi ei baratoi yn gywir yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed dan y ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod f'archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethiant am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, a pharatowyd y Datganiad Llywodraethiant yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, a pharatowyd yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

Materion yr adroddaf amdanynt trwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth o'r Bwrdd a dealltwriaeth ohono a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, ni ddeuthum ar draws camddatganiadau materol berthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i adrodd amdano parthed y materion canlynol, yr adroddaf amdanynt wrthy, os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion digonol, neu na dderbyniwyd ffurflenni digonol i'm harchwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl a archwiliwyd yn cytuno a'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo;
- na ddatgelir gwybodaeth a ffynnir gan Drysorlys EM neu Weinidogion Cymru am dâl a thrafodion eraill; neu
- na dderbyniais yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer f'archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr sydd yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sydd yn rhoi golwg gywir a theg ac am y camau rheoli mewnol hynny y tybia'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad materol, boed hynny



oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am asesu gallu'r bwrdd i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel sy'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifo busnes hyfyw oni phennir nad yw hyn yn briodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw ceisio sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad materol berthnasol ai peidio, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sydd yn cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) yn wastad yn canfod camddatganiad materol berthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall, ac fe'u hystyrir yn faterol berthnasol pe gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn ddigwyddiadau o beidio cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Byddaf yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau materol berthnasol parthed afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Yr oedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- *Holi'r rheolwyr, y pennaeth archwilio mewnol a'r sawl sydd yn gyfrifol am*

lywodraethiant, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth gefnogol yng nghyswllt polisiau a gweithdrefnau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sydd yn ymwneud â'r isod:

- *adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau o beidio â chydymffurfio;*
- *canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt unrhyw wybodaeth am dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu honiad o dwyll; a*
- *y camau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau yn ymwneud â thwyll neu ddifffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.*
- *Ystyried fel tîm archwilio sut a lle y gall twyll godi yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posib o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial am dwyll yn y meysydd canlynol: adnabod refeniw, postio dyddlyfrau anarferol ac (ychwaneger fel sy'n briodol i'r archwiliad);*
- *Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheolaethol eraill y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.*



Yn ychwanegol at yr uchod, yr oedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- *adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a rhoi prawf ar ddogfennaeth gefnogol i asesu cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;*
- *holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a chynghorwyr cyfreithiol am ymglyfreitha a hawliadau gwir a phosib;*
- *darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant a'r Bwrdd; and*
- *wrth ymdrin â'r risg o dwyll trwy reoli gwrthwneud camau rheoli, rhoi prawf ar briodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifo yn arwyddion o ogwydd posib; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu hwnt i drefn arferol busnes.*

Fe wneuthum hefyd grybwyll cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posib wrth yr holl dîm archwilio a gofyn iddynt fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn dod dan ddylanwad yr anhawster cynhenid canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd camau rheoli Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a wnaed.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm hadroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae gofyn i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol y cymhwyswyd y gwariant a'r incwm i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adroddiad

Gweler fy Adroddiad ar dudalennau 135 i 136, parthed fy marn amodol ar reoleidd-dra a'r Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru.



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ

15 Mehefin 2021

Cyfrifoldeb y Swyddog Atebol yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan y Bwrdd Iechyd. Nid yw'r gwaith a wneir gan archwilydd yn ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw archwilydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newid-iadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.



19.6 Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

Cyflwyniad

Dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004, yr wyf yn gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd am ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y BILL). Yr wyf yn adrodd am y datganiadau ariannol hyn am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2021 i dynnu sylw at ddau fater allweddol i'm harchwiliad. Y rhain yw y methiant yn erbyn y ddyletswydd ariannol gyntaf ac amodi fy marn 'rheoleidd-dra' yn sgîl hynny, ac oblygiadau'r cyfarwyddyd gweinidogol ar bensiynau uwch-weithwyr clinigol. Nid wyf wedi amodi fy marn 'gywir a theg' parthed unrhyw rai o'r materion hyn.

Methiant y ddyletswydd ariannol gyntaf

Mae'r ddyletswydd ariannol gyntaf yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i BILL trwy ganiatáu iddynt gydbwyso eu hincwm gyda'u gwariant dros gyfnod treigl tair blynedd. Yn y cyfnod tair-blynedd a fesurir dan y ddyletswydd hon eleni yw 2018-19 i 2020-21.

Fel y dangosir yn Nodyn 2.1 i'r Datganiadau Ariannol, ni wnaeth y BILL reoli eu gwariant refeniw o fewn eu dyraniad adnoddau dros y cyfnod tair blynedd hwn, gan fynd dros eu terfyn adnoddau refeniw cronus o £3,167 miliwn o £9.724 miliwn.

Lle nad yw BILL yn cydbwyso eu llyfrau dros gyfnod treigl tair-blynedd, mae unrhyw wariant dros y dyraniad adnoddau (h.y., y terfyn gwario) am y tair blynedd yn fwy nag awdurdod y BILL ac y mae felly yn 'afreolaidd'. Dan y fath amgylchiadau, mae gofyn i mi amodi fy 'marn rheoleidd-dra' waeth beth oedd gwerth y gwariant gormodol.

Cyfarwyddyd Gweinidogol ar bensiynau uwch weithwyr clinigol

Nid yw Cynllun Pensiwn y GIG a deddfwriaeth ar dreth pensiynau wedi eu datganoli i Gymru. Yr oedd newidiadau Trysorlys EM i'r trefniadau treth ar gyfraniadau pensiwn dros y blynyddoedd diwethaf wedi cynnwys y gostyngiad yn nherfyn y lwfans blynyddol o fwy na £200,000 yn 2011-12 i £40,000 yn 2018-19. O ganlyniad, mewn achosion lle mae cyfraniadau pensiwn unigolyn yn fwy na rhai terfynau lwfans cyfraniadau pensiwn blynyddol a /neu oes, yna maent yn cael eu trethu ar gyfradd uwch ar eu holl gyfraniadau, sy'n codi eu hatebolrwydd am dreth yn uwch ar fyrder.

Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 13 Tachwedd 2019, nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod cyrff GIG Cymru yn: 'rheolaidd yn adrodd nad yw uwch-staff clinigol yn barod i ymgymryd â gwaith a sesiynau ychwanegol oherwydd y gallai hyn eu gwneud yn agored i dalu symiau mawr mewn trethi'. Dan rai amgylchiadau gallai hyn arwain at orfod talu treth eto, yn ychwanegol at unrhyw incwm ychwanegol a enillwyd.

Ar 18 Rhagfyr 2019, cyhoeddodd y Prif Weinidog (mewn cam tebyg i'r hyn a gymerwyd yn gynharach gan Ysgrifennydd Gwladol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr) Gyfarwyddyd Gweinidogol i'r Ysgrifennydd Parhaol i fwrw ymlaen â chynlluniau i ymrwmo i wneud unrhyw daliadau i staff clinigol i adfer gwerth eu pecynnau buddion pensiwn. Petae gweithwyr clinigol y GIG yn dewis defnyddio'r cyfleuster 'Cynllun yn Talu' i setlo costau lwfans treth blynyddol yn deillio o'u cynilion pensiwn GIG am 2019-20 (h.y. setlo'r gost trwy bensiwn blynyddol is, yn hytrach na thrwy



wneud un taliad unwaith-am-byth yn syth), yna byddai eu cyflogwyr yn y GIG yn cwrdd ag effaith y costau treth hynny ar eu pensiwn pan fyddant yn ymddeol.

Yr oedd angen y Cyfarwyddyd Gweinidogol oherwydd y gallai Adran Cyllid a Thollau EM ystyried yr ateb hwn fel cynllunio treth, ac o bosib osgoi treth, gan wneud y gwariant yn afreolaidd. Dywed Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (sydd yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael yn Lloegr) yn benodol 'na ddylai sefydliadau'r sector cyhoeddus weithredu i beidio â thalu trethi, osgoi talu treth na chynllunio trethi'.

Nid yw Cyfarwyddyd Gweinidogol yn gwneud yr hyn fuasai fel arall yn afreolaidd yn rheolaidd, ond y mae'n symud yr atebolrwydd am benderfyniadau o'r fath oddi wrth y Swyddog Cyfrifo at y Gweinidog a gyhoeddodd y cyfarwyddyd.

Mae'r ateb yn gymwys yn unig i gostau treth lwfans blynyddol sy'n deillio o gynnydd yn y buddiannau a gronnwyd yng Nghynllun Pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn dreth yn diweddu 5 Ebrill 2020. Am y flwyddyn dreth yn diweddu 5 Ebrill 2021, cynyddodd y Canghellor y trothwyau i'r lwfans blynyddol taprog, ac o ganlyniad, rhagwelir fod y risg i'r cyflenwad o staff clinigol wedi ei lliniaru.

Ar hyn o bryd, nid oes gan y BILL ddigon o wybodaeth i weithio allan ac adnabod amcangyfrif o gostau posib gwneud iawn i uwch-staff clinigol am fuddiannau pensiwn y buasant fel arall wedi eu colli, trwy ddenfyddio'r trefniant 'Cynllun yn talu'. O'r herwydd, nid oes unrhyw wariant yn cael ei adnabod yn y datganiadau ariannol ond yn ôl y gofyn, mae'r BILL wedi datgelu rhwymedigaeth amodol yn nodyn 21 eu datganiadau ariannol.

Ni fydd unrhyw un o gyrff y GIG yn cael eu dwyn i gyfrif am niwed oherwydd effaith y Cyfarwyddyd Gweinidogol; fodd bynnag, yn fy marn i, byddai unrhyw drafodion fyddai'n cael eu cynnwys yn natganiadau ariannol y BILL i gydnabod y rhwymedigaeth hon yn eu hanfod yn afreolaidd ac yn faterol berthnasol. Y rheswm am hyn yw bod y taliadau yn groes i baragraff 5.6.1 Rheoli Arian Cyhoeddus ac yn ffurf ar gynllunio treth fydd yn gadael y Trysorlys ar y cyfan ar ei golled. Nid yw cyfarwyddyd y Gweinidog ar ei ben ei hun yn gwneud y cynllun yn rheolaidd. Ymhellach, trefniadau newydd a dadleuol yw'r rhain, a gallant osod cynsail.

Nid wyf wedi addasu fy marn am reoleidd-dra yng nghyswllt hyn eleni oherwydd, fel y crybwyllwyd uchod, ni chafodd unrhyw wariant ei gydnabod yn y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021. Serch hynny, yr wyf wedi gosod paragraff Pwyslais Mater yn fy adroddiad archwilio i dynnu sylw at y mater hwn, ac wedi paratoi'r adroddiad hwn i ddwyn y trefniant i sylw'r Senedd.



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ

15 Mehefin 2021

© Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2020
Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ac eithrio pob logo adrannol neu asiantaethol) am ddim ar unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod fod caniatâd wedi ei geisio ac y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro* a nodi teitl y ddogfen. Lle nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd deiliad yr hawlfraint hwnnw.

Cyfrifoldeb y Swyddog Atebol yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan y Bwrdd Iechyd. Nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newid-iadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.



Dyddiadau Cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau a Gynhaliwyd yn ystod 2020-2021

Oherwydd y pwysau cysylltiedig â COVID-19, ni chynhaliodd y Bwrdd lechyd gyfarfodydd o rai o'i Bwyllgorau, fel y gwelir yn y tabl isod. Cymeradwywyd y cam hwn gan Grŵp Llywodraethiant y Bwrdd a ddisgrifir isod, a chadarnhawyd hynny yng nghyfarfod y Bwrdd ar 28 Mai 2020.

Mae'r Tabl x yn amlinellu dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod **2020-2021**, gan amlgu unrhyw gyfarfodydd lle nad oedd cworwm:

Tabl 1 – Dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau a gynhaliwyd ystod 2020-2021

Bwrdd/Pwyllgor	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	Chwef	Mawrth
Bwrdd	x	28	29	30	x	24	x	26	17	28	25	25
Bwrdd Ymddiriedolwyr		26		23 Arbennig		22		17 Arbennig		26		
Pwyllgor Archwilio	21	28 Gweithdy	29 Arbennig	07		08		17			09	
Cronfeydd Elusennol		05	23 Arbennig	08 Arbennig		01		03				16
Iechyd Digidol a Gwybodaeth			09	09 Arbennig			08				11	
Cyllid	29	27	24	29	26	23	28	25	30	27	24	24
Iechyd a Diogelwch	30							24		5		30

Deddfwriaeth lechyd Meddwl a Gallu Meddyliol				21				20			19		
Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad	14		16		08	13 Arbenig		15		16			
Tâl a Thelerau Gwasanaeth				06		09 a 15	04	16					26
Strategaeth a Chyflwyno		12		14	15		10		12				09

Yr oedd cworwm i'r holl gyfarfodydd.

Tabl 2 – Dyddiadau cyfarfodydd y Grwpiau Ymgynghorol a gynhaliwyd yn ystod 2020-2021

Grwpiau Ymgynghorol	Ebrill	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	Chwef	Mawrth
Cyfeirio Rhanddeiliaid				22		23		24		26		23
Fforwm Broffesiynol Gofal lechyd												
Fforwm Partneriaeth Lleol		21	18		03		22		09 a 16		12	

Mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn gynrychiolwyr ar y Cyd-Bwyllgorau isod:

- Pwyllgor Gwasanaethau lechyd Arbenigol Cymru (PGIAC)
- Pwyllgor Gwasanaethau Ambwlans Brys (PGAB)
- Pwyllgor Partneriaeth Cyd-Wasanaethau GIG Cymru (PCGC)

Bydd adroddiadau sicrwydd/bwletinau gan y Pwyllgorau uchod yn ymddangos ar agenda'r Bwrdd yn ôl y galw.